Swansea City Community Trust	Swans supporting the mental health of children & young people	<p>The purpose and objectives of the project are to provide education and mental health support to, children and young people through in-schools projects and out of school youth work activities delivered by specialist Trust staff.</p> <p>The Trust's Health & Wellbeing programme is in line with changes to the Welsh school curriculum (Sept. '21) in the HWB "Area of Learning & Experience". As well as sessions on Mental Health, Wellbeing and Mindfulness, the programme covers Diet, Getting Active, Sleep Matters and Healthy Relationships. It has been a success, with children and young people confirming improvements in these areas via pre- and post-programme assessments, "...how to look after myself and make lifestyle changes that have made my life better.". Teacher feedback is also highly supportive of the programme.</p> <p>The funding would allow expansion of the programme into additional schools, and into youth engagement workshops outside school hours. It will also add more sessions to cover emotional and social wellbeing (including resilience and empathy) and communication skills and emotional literacy. This will cover the ability to identify emotions and express themselves assertively, active listening skills, to introduce and develop empathy and learn how to support others and conflict resolution skills. It will also allow the existing resources to be adapted to suit a younger age group so it can be delivered in primary schools.</p> <p>Staff training will provide the project's legacy and adapted delivery material will be used beyond the end of the project.</p> <p>The HWB programme uses the power of the Football Club brand to engage with children and young people who may not participate in a non-themed programme.</p> <p>3 elements:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Staff training in embedding the above content into sessions. • Resources adaptation for younger groups and addition of new topics • Delivery of sessions 	Regional

Host Organisation	Project Name	Project Description	Regional / Local Scheme
Cwm Alliance CIC	Cwm Alliance CIC - Community Family Therapy	The Cwm Alliance CIC would like to collaborate with The Family Therapy Place to provide community-based family therapy that is easily accessible to families within the Cwmtawe area of Swansea. The service will accept open referrals direct to The Family Therapy Place and be promoted via the existing local networks of the Cwm Alliance CIC which include, Cwmtawe Cluster, Ospreys in the Community and local faith support. The project will start with a family focused creative art/craft group for parent and child with an emphasis on not needing to be 'artistic' to take part. From providing this intervention we hope to identify some families that need further family therapy. These families would then be offered an intervention based on the outcomes of the group.	Regional
ASDES – Autism Skills Development and Employment Support Tudalen y pecyn 76	Hidden Response	<p>Aim – Provide tailored support to enable individuals with hidden impairments to maintain positive lifestyles choices</p> <p>ASDES job coaches / support workers will work across Swansea and NPT, providing participants with a range of individually designed support covering some of the following areas:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Identifying hurdles that individuals are facing in their community • Responding to requests for support where individuals are feeling overwhelmed in environments that have recently changed • Responding to situations where individuals face disciplinary processes in their workplace • Working with employers / employees who need support but might not be eligible for ATW as they have no formal diagnosis • Identifying changes in familiar surroundings that are having an impact on well-being • Managing fear and anxiety about getting into employment and the knock-on effect of uncertainty regarding future opportunities • Finding activities to engage in that promote positive well-being • Finding volunteering activities to fill time and manage different situations • Engaging in activities outside of the home environment • Managing changes to everyday processes • Managing reduced / changed finances and signposting to organisations that provide financial input • Coping with bereavement and signposting to specialist input • Making telephone calls with regards to payments of bills, applications for benefits and other financial hurdles that individuals may face • Setting up new learning opportunities and look at the new ways of accessing learning / training • Working with family members around a person with hidden impairments to ensure that there is a positive wrap around approach to cover all aspects of support needed • Responding to participants with regards to everyday living obstacles that arise as a result of changed systems – e.g. participants fear of contacting GP or lack of understanding in for new protocol using apps • Phone call input to manage everyday medical issues and signposting <p>ASDES Job Coaches / Support workers are aware that as lockdown restrictions have lifted there has been an increased demand from families around a person with hidden impairments as they try and manage the anxieties of re-engaging with society. Support workers have found that they provide a vital point of contact for families to hold conversations and share their everyday hurdles. ASDES is experiencing an increase in referrals from organisations such as the Integrated Autism Service and Job Centre, as well as individual self-referrals. Many of these referrals are in need of an immediate response to manage situations that have become too complex for them. This grant will act as an interim support for these needs and will enable ASDES job coaches to transition participants onto other projects internally and externally</p>	Regional
The Family Therapy Place	The Play Room Project	F TP will provide children and young people with play therapy, one to one and group therapy, counselling and family support. F TP Counsellors are trained to work with CYP to alleviate distress and to cope with such issues as parenting and attachment issues, childhood adverse experiences, anxiety, depression, trauma, suicidal thoughts, eating disorders, self-harm and OCD. These therapies are particularly helpful for children with attachment and separation difficulties who have been adopted and separated from	Regional

Host Organisation	Project Name	Project Description	Regional / Local Scheme
		<p>their birth parents. We are deeply passionate about early intervention, on a daily basis we meet adults who did not have the appropriate support as a child so they continue to struggle throughout their adult lives and often statutory services are not long enough to meet developmental needs and provide the conditions to re-wire and regulate healthy brain development.</p>	

Eitem 3.11

CYPE(6)-04-22- Papur i'w nodi 11

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cais am wybodaeth am weithio gyda'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc

Ymateb gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru



Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

3 Heol Spilman, Caerfyrddin SA31 1LE
3 Spilman Street, Carmarthen SA31 1HQ
Ffôn/ Tel: 01267 228978 ext. 2978

Eich Cyf/Your ref:Ein Cyf/ Our Ref:
Gofynnwch am/ Please ask for:

Dyddiad/ Date: 18th January 2022

Jayne Bryant
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Dear Jayne,

I write in response to your letter dated 01st December 2021.

We continue to work effectively with the Third Sector as partners to enhance support available to Children and Young People in West Wales. Please find below our response to your letter.

1. Working alongside the Third Sector to plan and deliver support services

The West Wales Regional Partnership Board includes of representatives from the Third Sector. The Children and Young People's Board also has Third Sector representation and will assist us as a region move towards a genuinely integrated approach. The key strategic priorities for the board include:

1. Children & Young People's Emotional Health
2. Supporting Children to remain with their Families
3. Meeting the needs of Children with Complex Needs

West Wales Action Mental Health (WWAMH) are members of the Local Mental Health Partnership Board. WWAMH also attend fortnightly Mental Health and Learning Disability Operational Planning meetings and have been a member of the COVID Bronze Group since the beginning of the Pandemic.

2. Active projects/initiatives undertaken alongside the third sector

There are several projects and initiatives undertaken across the Region where there is Third Sector involvement, supporting Children and Young People's Mental Health including:

- Art Therapy Groups
- Café Cash Credit via 'Give the Boys a Lift'
- Counselling support for care leavers

- Digital Connectivity Project, supporting those without access
- 'Working Together' working group of Parent/Carers of Disabled Children
- Job coach project – supporting children and young people across the region
- Mums Matter
- TONIC - Surf Therapy, working with S-CAMHS and other young people services

3. Partnership working, what has worked well/lessons learnt

We have established a Children & Young Peoples Operational Group, which will sit beneath the Children and Young Peoples Board. The operational group will provide an opportunity to share innovative solutions, good practice and identify areas for scaling up projects on a regional footprint.

In Pembrokeshire a review of emotional health and well-being services resulted in some good developments in the emotional health and wellbeing support provided in the county over the last 3-4 years, largely within services and sectors.

Establishing the Emotional Health and Wellbeing team to operate below the S-CAMHS level is one. Some new projects have also been set up by Third Sector organisations using, for example, National Lottery funding. Some new approaches are being piloted e.g., with GPs in the south cluster.


4. Future plans for partnership working with the Third Sector

The Children and Young Peoples Board and Operation Group will maximise opportunities for partnership working across the Region including the Third Sector.

The Health Board have developed a recommissioning timeline to reprocure the current Third Sector provided services across Mental Health and Learning Disability. This is due to take 18 months, reflecting the complexity of the process and the need to support the sector appropriately to prepare for the procurement exercise. In particular, the timescales allow for extra support to be given to smaller organisations through services such as Business Support Wales to ensure parity across all organisations, large and small. The Framework will allow Mental Health & Learning Disability services to work collaboratively with organisations, partners, service users and carers to develop new service specifications, encouraging fresh approaches and innovation.

The wholesale review of emotional and mental well-being services across Pembrokeshire has resulted in the appointment a project manager to develop and take forward an action plan for improving the cohesion of the variety of services provided. This will ensure the gaps in provision are reduced in Pembrokeshire; that communication and awareness of what's available is enhanced; and that delay in receiving the right services at the right time is reduced and eliminated. Several Third Sector organisations provide such services, and Service Level Agreements will be reviewed with each, to ensure their continued suitability, quality and to plan better for future need and associated responses to demand.

Yours sincerely,



Judith Hardisty
Chair, West Wales Regional Partnership Board

Eitem 3.12

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 12

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

Trwy ebost yn unig

I: Cadeirydd
Y Pwyllgor
Plant, Pobl
Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

20 Ionawr 2022

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd 2021, yn dilyn ymlaen o'm sesiwn graffu flynyddol gyda'r Pwyllgor.

Roedd eich llythyr yn codi dau bwynt; mewn perthynas â phapur ar fy mhwerau cyfreithiol a'm cylch gorchwyl, ac mewn perthynas â'n gwaith parhaus ynghylch Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau).

Mae ein gwaith eleni yn adolygu gwaith BPRhau yn tynnu at ei derfyn, ac mae adroddiad cyhoeddus i gael ei ddarparu ganol mis Chwefror. Byddaf yn sicrhau bod copi yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor, o ystyried y diddordeb byw yn y maes gwaith hwn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i wella ymarfer ac effeithiolrwydd BPRhau ymhellach yng Nghymru. Bydd adroddiad cynnydd llawnach yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru, i'w galluogi i barhau â'u monitro parhaus a'u rôl yn craffu ar y Byrddau, ac yn rhoi cyfarwyddyd iddynt ynghylch ein canfyddiadau diweddaraf a'r cyngor gan y bobl ifanc sydd hefyd wedi bod yn cymryd rhan yn ein sesiynau. Ar hyn o bryd mae fy nhîm, fel rhan o'n proses gynllunio strategol, yn penderfynu sut bydd ein gwaith yn parhau yn y maes hwn. Byddwn ni'n rhoi diweddariad i chi pan gaiff ein cynllun gwaith ei gyhoeddi ddechrau mis Ebrill.

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi gallu manteisio ar sesiwn ddadfriffio gyda'r bobl ifanc sy'n rhan o'r gwaith hwn, ac maen nhw wedi rhannu



Tŷ Llewellyn/Llewellyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr/Harbourside
Business Park
Heol yr Harbwr/Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600 Tudalen y pecyn 80

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

negeseuon clir gyda hi a'i swyddogion ynghylch y meysydd allweddol lle mae angen mwy o anogaeth ar y BPRhau, neu lle mae angen iddyn nhw gymryd camau'n gynt.

Mewn perthynas â photensial y trydydd sector yn cefnogi gwaith BPRhau, rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor i ystyried gwella cyfraniad dinasyddion, gofalwyr a'r trydydd sector yng ngwaith BPRhau. Rwy'n deall bod y grŵp wedi cwrdd am y tro cyntaf y tymor diwethaf, er nad yw fy swyddfa i yn cael ei chynrychioli yn y gwaith hwn. Ni fydd yr adroddiad a gyhoeddaf yn dangos llawer o newid o gymharu ag ymgynghori blaenorol o ran sut mae dinasyddion wedi ymwneud â ffurfio gwaith y Byrddau, er y bydd peth adlewyrchiad o gyfraniad pobl ifanc mewn rhai rhanbarthau yn dylanwadu ar eu gwaith a'u blaenoriaethau. Carwn awgrymu'n gwrtais yr hoffai'r Pwyllgor o bosib holi Llywodraeth Cymru ymhellach ynghylch hyn wedi i'm hadroddiad gael ei gyhoeddi ymhen rhai wythnosau.

O ran y papur y soniais amdano yn y sesiwn graffu, ar fy mhwerau statudol a'm cylch gorchwyl, gallaf gadarnhau fy mod bellach wedi cael cyfle i gwrdd â'm cangen gyswllt o swyddogion a'm Gweinidog cyswllt i drafod y papur. Rwy'n dal i gwrdd â swyddogion eraill y Llywodraeth y mis hwn i drafod y papur, fodd bynnag, felly nid wyf mewn sefyllfa i fedru ei rannu eto. Serch hynny, mae'n sicr yn fwriad gennyf i rannu'r papur gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl. Rwyf hefyd yn debygol o gyhoeddi'r papur cyn diwedd fy nghyfnod yn swydd y Comisiynydd, wrth i mi fyfyrto ar y swydd a'i rôl fel rhan o gymdeithas gyhoeddus yng Nghymru. Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor yn rheolaidd ynghylch fy nghynlluniau ar gyfer hynny.

Rwyf hefyd yn bwriadu cynnal darlith gyhoeddus ar 4 Ebrill 2022, i sôn am ddiwedd fy nhymor yn y swydd a'r tirlun polisi ar gyfer plant yng Nghymru wrth symud ymlaen. Rwy'n rhagweld y bydd cylch gorchwyl cyfreithiol y swyddfa yn ffactor perthnasol i'r trafodaethau hynny, felly byddaf yn sicrhau bod unrhyw bapurau yn cael eu cyhoeddi cyn y ddarlith. Mae Prif Weinidog Cymru wedi bod yn ddigon caredig i gytuno i gyflwyno'r ddarlith, a bydd manylion y digwyddiad yn cael eu cyhoeddi'n fuan; byddaf yn sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn y manylion os hofffen nhw ymuno.



Diolch eto am waith eich Pwyllgor yn craffu ar waith
fy swyddfa; rydyn ni'n teimlo bod hynny'n elfen
hanfodol o'n strwythur llywodraethu, a'n gobaith yw y
bydd y craffu blynyddol hwn yn parhau ar gyfer fy
olynydd.

Yn gywir,



Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg.
Byddwn yn ateb gohebiaeth a gwladau a dderbynnir yn
Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn
arwain at oedi | We welcome receiving correspondence
and calls in Welsh. We will respond to correspondence
and calls in Welsh, and contacting us in Welsh will not
lead to delay.

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 13

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LN/0081/22

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ionawr 2022

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr yn cadarnhau y bydd iechyd meddwl amenedigol yn parhau yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y tymor hwn ac yn gofyn am ddiweddariad ar y cynnydd hyd yma. Rwy'n croesawu'r pwyslais a roddir gan y Pwyllgor ar y maes hwn sydd hefyd yn flaenoriaeth allweddol imi fel y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar y pryd i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2021, gan roi diweddariad cynhwysfawr ar y cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor blaenorol ar Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017. Fel y dangoswyd yn y diweddariad, mae hwn yn faes lle y cafodd cynnydd sylweddol ei wneud ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw gan y Pwyllgor ym mis Hydref 2017. Mae Gweinidogion blaenorol wedi rhoi diweddariadau i'r Pwyllgor yn erbyn yr argymhellion a wnaed mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, a byddaf innau yn falch o barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r effaith y mae'r amrywiolyn Omicron (COVID-19) yn ei chael ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cynnwys cymaint o fanylder ag arfer yn y diweddariad diweddaraf hwn. Mae'n hanfodol yn awr fod y gweithlu clinigol amenedigol yn gallu rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i famau a theuluoedd, gan reoli'r heriau a achosir gan yr amrywiolyn Omicron ar yr un pryd. Er mwyn defnyddio capasiti clinigol y rheng flaen yn y ffordd orau posibl, nid yw swyddogion yn cynnwys aelodau o'r rhwydwaith iechyd meddwl amenedigol wrth gasglu gwybodaeth ar hyn o bryd oherwydd bod llawer ohonynt wedi cael eu neilltuo i ymgymryd â blaenoriaethau gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, byddaf yn rhoi diweddariad manylach i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl. Yn yr un modd, o ganlyniad i bwysau ar wasanaethau, nid yw'r ymarfer data a gynhaliwyd ddiwedd y flwyddyn a aeth heibio wedi'i gwblhau. Byddaf yn rhoi diweddariad llawn ar ddata gwasanaethau amenedigol maes o law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaethlynne.neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf roi diweddariad i'r Pwyllgor, fodd bynnag, ar amryw o feysydd. Mae Uned Mamau a Babanod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi bod ar agor ers mis Ebrill 2021, gan ddarparu gofal i famau sydd angen cymorth arbenigol. Mae swyddogion yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y defnydd o'r uned, ac mae hyn wedi bod yn gadarnhaol. Fel yr wyf wedi dweud cyn hyn, cynhelir adolygiad llawn o'r uned pan fydd wedi bod yn weithredol am 12 mis. Bydd yr adolygiad hwn yn penderfynu a yw'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn bodloni'r galw presennol a'r galw a ragfynegir, a bydd yn pennu'r cynllun hirdymor ar gyfer gofal arbenigol yn y De. Gan fod y diweddariadau a roddwyd i Lywodraeth Cymru ar weithrediad yr uned eisoes wedi cadarnhau bod digon o alw yn y De, nid ystyried a oes angen uned fydd yr adolygiad. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio, yn hytrach, ar faint yr uned a'r gwasanaethau a gynigir, gan ystyried a ydy'n parhau i fod yn addas i'r diben yn y dyfodol.


Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer menywod sy'n byw yn y Gogledd. Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) sy'n arwain y gwaith o gomisiynu'r ddarpariaeth hon ar gyfer cleifion mewnol. Mae WHSSC yn gweithio gyda NHS England i gyd-ddatblygu Uned Mamau a Babanod, wyth gwely ar gyfer menywod sy'n byw yn y Gogledd. Rydym yn deall y bydd y gwaith o ailwampio'r uned hon yn cymryd 18 mis i'w gwblhau. Byddaf yn rhoi diweddariadau pellach ar y cynnydd mewn gohebiaeth yn y dyfodol.

Mae byrddau iechyd yn gweithio tuag at fodloni safonau ansawdd perthnasol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Ar 27 Hydref 2021, cadarnheais fod tri bwrdd iechyd yn adrodd am swyddi staffio a ariennir a fyddai'n eu galluogi i gydymffurfio'n llawn â'r safonau staffio Math 1. Rydym yn parhau i weithio gyda'r byrddau iechyd hynny nad ydynt yn cydymffurfio'n llawn hyd yma a bydd hwn yn faes blaenoriaeth allweddol ar gyfer Cyllid Gwella Gwasanaethau eleni. Rwy'n cydnabod, fodd bynnag, yr effaith sylweddol y mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar wasanaethau, ac yn enwedig ar y gallu i recriwtio i swyddi arbenigol. Mewn diweddariadau yn y dyfodol, byddaf yn cadarnhau'r cynnydd a fydd wedi'i wneud o ran recriwtio staff i bob swydd a ariennir, a'r cynnydd ym mhob bwrdd iechyd o ran bodloni safonau staffio.

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru bellach wedi ymrwymo i'r rhwydwaith ansawdd amenedigol, ac maent wedi adolygu'r cynnydd tuag at gyrraedd y safonau ehangach. Mae Byrddau Iechyd yn datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd lle y nodwyd bod angen gwella.

Mae gwaith yn parhau i wella dibynadwyedd data a gesglir ar wasanaethau iechyd meddwl amenedigol. Mae'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol wedi cytuno ar nifer o eitemau data allweddol i'w casglu'n barhaus. Cyflwynwyd hyn i'r Bwrdd Canlyniadau a Mesurau Iechyd Meddwl ym mis Tachwedd 2021, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y bydd casglu data amenedigol yn cyd-fynd â chasglu data iechyd meddwl ehangach. Yn y cyfamser, mae swyddogion wedi parhau i ofyn am ddiweddariadau rheolaidd gan wasanaethau ar eitemau data allweddol. Gan nad yw pob bwrdd iechyd wedi gallu ymateb i'r cais diweddaraf am ddata oherwydd y pwysau ar y gweithlu ar hyn o bryd, byddaf yn rhoi crynodeb o'r data hyn yn fy niweddariad nesaf.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei sylw parhaus i iechyd meddwl amenedigol.



Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 14

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Jayne Bryant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymorth i blant sy'n gadael gofal

17 Ionawr 2022

Annwyl Jayne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr ynglŷn â'r meysydd yr ydych yn eu hystyried fel rhan o'ch ymchwiliadau polisi, a'r cymorth a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal, neu sy'n gadael gofal. Fe wnaif roi sylw i'r pwyntiau sy'n codi yn eich llythyr yn eu tro:

1. Gwybodaeth am y cymorth a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal

Mae ein Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya), Rhan 6, yn disgrifio'r dyletswyddau statudol sydd ar awdurdodau lleol i gefnogi a hybu llesiant y bobl ifanc sy'n gadael eu gofal. Mae hynny'n cynnwys y cymorth a'r gwasanaethau y mae'n rhaid i'r awdurdodau eu darparu ar gyfer pobl ifanc i'w helpu i bontio'n llwyddiannus i'w bywydau fel oedolion a symud tuag at fyw'n annibynnol.

Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ar fin troi'n 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr er mwyn helpu'r unigolyn ifanc hwnnw i bontio i'w fywyd fel oedolyn a gadael gofal. Rhaid i'r cynllun hwn roi sylw i anghenion corfforol, emosiynol, iechyd meddwl, a datblygiadol y person ifanc, yn ogystal â'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi ei anghenion o ran llety, addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth.

Rydym yn casglu ystadegau blynyddol am blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru, a'r rheini sy'n gadael gofal. Cafodd y ffigurau diweddaraf ar gyfer 2020-21 eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2021, ac maent ar gael drwy'r ddolen ganlynol: [Experimental Statistics: Children looked after by local authorities, 2020-21 \(gov.wales\)](https://gov.wales/statistics/children-looked-after-by-local-authorities-2020-21). Mae rhagor o fanylion am lety, gweithgarwch (addysg, hyfforddiant a chyflogaeth) a chymwysterau addysgol plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal ar gael yma: [Plant sy'n derbyn gofal \(llyw.cymru\)](https://gov.wales/children-looked-after-by-local-authorities-2020-21).

2. Y diweddaraf am ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys nifer o ymrwymadau sy'n berthnasol i wasanaethau cymdeithasol plant, a fydd, o gael eu gweithredu gyda'i gilydd, yn ein galluogi i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru. Mae'r ymrwymadau hyn yn adeiladu ar y gwaith a'r camau gweithredu sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i leihau nifer y plant sydd mewn gofal; helpu plant i barhau yng ngofal eu teuluoedd; a darparu gofal i blant sydd ag angen gofal i gael y gofal hwnnw'n nes at adref.

Cymryd camau radical i ddiwygio gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal

Roedd ein Papur Gwyn ar Ddyfodol Gofal Cymdeithasol yn cyfeirio at gyfleoedd i ddiwygio gwasanaethau plant fel rhan o gyflwyno newidiadau cynhwysfawr i wasanaethau cymdeithasol. Rydym yn awyddus i wireddu gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar arferion mwy cyson, arferion sy'n llai amharod i gymryd risg, a dulliau adferol sy'n cael eu rhagnodi a'u mabwysiadu ar draws Cymru. Mae datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a sefydlu Swyddfa Genedlaethol yn creu cyfle i fwrw ymlaen â'r gwaith o drawsnewid a diwygio gwasanaethau plant ar lefel genedlaethol.

Rwyf wedi sefydlu Bwrdd Trosolwg, o dan gadeiryddiaeth Anthony Douglas, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith uwch-arweinwyr ar draws llywodraeth leol a'r trydydd sector, i ddarparu sail ar gyfer ein dull gweithredu. Bydd y Bwrdd yn chwilio am ffyrdd o fwrw ymlaen â gwelliannau i wasanaethau plant, gan gydweithio â'r sector mewn perthynas â chyfleoedd i bobl ddysgu oddi wrth ei gilydd a chyfleoedd datblygu proffesiynol, a hefyd drwy gefnogi dull gweithredu system gyfan i wella ansawdd a gwasanaethau. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd Trosolwg ar 19 Ionawr.

Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'

Er bod awdurdodau lleol o ddifri am eu rôl rhianta corfforaethol, ein nod yw cryfhau rhianta corfforaethol ar draws pob adran o fewn yr awdurdod lleol, er mwyn sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn digwydd mewn modd mwy effeithiol a gwella'r broses o drosglwyddo rhwng y gwasanaethau a ddarperir i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Hefyd, rydym yn bwriadu ehangu'r cysyniad o rianta corfforaethol ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn sicrhau bod y plant yn cael yr ymateb a'r cymorth gorau gan y gwasanaethau hynny.

Mae Grŵp Gweithredu wedi cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad ar rianta corfforaethol, ac mae'r grŵp hwnnw wedi cyfarfod nifer o weithiau. Bu gwaith y grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu Siarter Rhianta Corfforaethol ar y cyd â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a phartneriaid, sef siarter y gall sefydliadau'r sector cyhoeddus gytuno iddi. Ar ôl ei chwblhau, bydd sesiynau a digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnal ar draws y sector cyhoeddus i gryfhau rhianta corfforaethol o fewn awdurdodau lleol ac ehangu cyfrifoldebau ar draws y sector cyhoeddus. Bydd ffocws penodol ar bartneriaid ym meysydd iechyd, addysg, a thai. Bydd yr ymgysylltu hwnnw, ochr yn ochr â'r Siarter, wedyn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau statudol sy'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r amrywiaeth o bartneriaid perthnasol ar draws y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

3. Diweddariad ar ymatebion Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol 2020-21 Comisiynydd Plant Cymru:

Yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant, tynnwyd sylw at y pecyn cymorth yr ydym am ei weithredu ar gyfer y rheini sy'n gadael gofal:

- Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod Tymor y Senedd hon i gyflawni ein hymrwymiad i roi hawl statudol i'r rheini sy'n gadael gofal i gael cymorth

gan gynghorydd personol nes eu bod yn 25 oed. Rydym yn rhagweld y byddwn yn bwrw ymlaen â hyn yn 2023.

- O ran defnyddio lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, mae swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion o'r Adran Addysg ynglŷn â'r gwaharddiad ar leoliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio i blant dan 16 oed. Daeth y gwaharddiad i rym ym mis Medi 2021, ac mae gwaith yn mynd rhagddo gydag Ofsted ynghylch cofrestru a phrosesau cysylltiedig i helpu'r sector i gydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol. Bydd ein dysgu a'n deialog yn parhau.
- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r trydydd sector, i ddatblygu amrywiaeth o opsiynau llety o ansawdd da i'r rheini sy'n gadael gofal.
- Mae Cronfa Dydd Gŵyl Dewi ar gyfer y rheini sy'n gadael gofal yn parhau ar gael drwy'r Grant Plant a Chymunedau. Mae hon yn ffrwd gyllido a ddarperir yn rheolaidd, sy'n galluogi awdurdodau lleol i wario'n briodol yn seiliedig ar amrywiaeth o anghenion sydd wedi cael eu nodi'n lleol.

4. Y diweddaraf am y gwaith o ddatblygu dull gweithredu amgen i'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' i gefnogi pobl ifanc sydd mewn gofal preswyl plant.

Er bod y cynllun 'Pan fydda i'n Barod' yn weithredol ar gyfer plant mewn gofal maeth, nid yw'n bosibl ei weithredu ar gyfer plant mewn gofal preswyl. Mae'r rhesymau dros hynny'n ymwneud â phriodoldeb oedolion yn byw gyda phlant iau a'r gost o ddarparu trefniadau addas.

Rydym yn ystyried modelau amgen, er enghraifft pobl ifanc o ddarpariaeth gofal preswyl yn cynnal cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol o'u cartref gofal preswyl blaenorol, ac yn parhau i gael cymorth ganddynt. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, awdurdodau lleol, a Swyddfa'r Comisiynydd Plant i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Bydd hyn yn rhan o'n gweithgarwch amlsector i wella ystod ac ansawdd y llety a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.

5. Eglurhad o rôl Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gwella Canlyniadau i Blant yn y dyfodol, a oedd yn canolbwyntio ar blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal, yn ystod y bumed Senedd.

Fe beidiodd y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant, a Grŵp Cynghori'r Gweinidog y rhaglen honno, â bod yn weithredol ddiwedd Tymor y Senedd ddiwethaf. Disgrifir ei chanlyniadau a'i chyflawniadau yn ei Hadroddiad Etifeddiaeth -

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-06/improving-outcomes-for-children-programme-legacy-report.pdf>


Mae trefniadau newydd wedi cael eu rhoi ar waith i oruchwylio a gweithredu ein hagenda ddiwygio heriol ar gyfer gofal cymdeithasol plant yn ystod Tymor y Senedd hon, gan adeiladu ar y camau gweithredu a gymerwyd i wella canlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal.

I sicrhau bod yr holl weithgarwch polisi sy'n digwydd mewn perthynas â phlant ar draws Llywodraeth Cymru yn gydlynus, cafodd Cynllun i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru ei ddatblygu, gan adeiladu ar ein hymrwymiad i hawliau plant, gyda'r nod o gyflawni ymrwymadau perthnasol yn ein Rhaglen Lywodraethu. Bydd Bwrdd Cyfarwyddwyr, sy'n cynnwys uwch-swyddogion yn Llywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar sicrhau cynnydd yn erbyn y cynllun ar draws portffolios Gweinidogion, a bydd yn monitro'r cynnydd hwnnw er mwyn sicrhau bod holl blant Cymru yn cael y cyfle i ffynnu.

Bydd ein Bwrdd Trosolwg, y cyfeiriwyd ato uchod, yn canolbwyntio ar gyflawni'r ymrwymadau perthnasol ar gyfer gwasanaethau plant yn y Rhaglen Lywodraethu. Fel rhan o'i rôl, bydd y bwrdd yn cynnal ffocws ar ein gweithgarwch er mwyn cefnogi'r rheini sydd wedi gadael gofal, a phobl ifanc sydd yn y broses o adael gofal.

Rwy'n gobeithio bod fy ymateb o gymorth ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Julie Morgan'. The signature is fluid and cursive, with the first name 'Julie' being more prominent than the last name 'Morgan'.

Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Eitem 3.15

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 15

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

18 Ionawr 2022

Annwyl Weinidog

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Phlant, Pobl Ifanc ac Addysg wrthi'n craffu ar hyn o bryd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 6 Rhagfyr 2021. Er mwyn llywio ein trafodaethau, byddem yn croesawu eich ymateb i'r materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Er mwyn ein galluogi i drafod eich barn yn unol â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn **dydd Gwener 28 Ionawr 2022** fan bellaf.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Cysylltu@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales

 0300 200 6565

Atodiad

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ("y Bil"), byddem yn croesawu eich barn am y materion a restrir isod.

Er mwyn ein galluogi i drafod eich barn yn unol â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn **dydd Gwener 28 Ionawr 2022** fan bellaf.

Trafodaethau â Llywodraeth y DU

1. Y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys manylion unrhyw sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio neu ddiwygiadau y mae'n eu cynnig, neu gytundebau a wnaed gyda Llywodraeth y DU. Byddem hefyd yn ddiolchgar o dderbyn copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol â Llywodraeth y DU ar y materion hyn.

Pryderon Llywodraeth Cymru am y Memorandwm

Mae'r Memorandwm yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru nifer o bryderon am y Bil. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am bryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas â:

2. Cyfansoddiad a swyddogaethau'r Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol, a natur yr effaith negyddol bosibl ar Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches yng Nghymru.
3. Y goblygiadau a ragwelir o ganoli'r broses asesu oedran ar y gwaith o asesu anghenion a darparu gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a pha swyddogaethau pellach, os o gwbl, y gellid eu gosod ar awdurdodau Cymru.
4. Pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio dulliau gwyddonol mewn asesiadau pennu oedran a rheoliadau ynghylch yr asesiadau, gan gynnwys:
 - a. y broses apelio;



- b. unrhyw oblygiadau i weithrediad Llywodraeth Cymru o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- c. unrhyw oblygiadau i iechyd meddwl unigolion sy'n destun technegau gwyddonol o asesu oedran;
- d. unrhyw oblygiadau i gydlyniant cymunedol a fyddai'n codi'n uniongyrchol o ganlyniad i roi unigolion drwy dechnegau asesu oedran gwyddonol.

Goblygiadau ariannol

- 5. Gwybodaeth bellach am y goblygiadau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil, a sut y cânt eu cynnwys yng ngwaith cynllunio ariannol Llywodraeth Cymru.



CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 16

Senedd Cymru
Welsh Parliament

At: gweler yr atodiad

18 Ionawr 2022

Annwyl gyfaill

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Phlant, Pobl Ifanc ac Addysg wrthi'n craffu ar hyn o bryd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 6 Rhagfyr 2021. Er mwyn llywio ein trafodaethau, byddem yn croesawu eich ymateb i'r materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddai'n ddefnyddiol derbyn eich ymateb erbyn **dydd Gwener 28 Ionawr 2022** fan bellaf. Rydym yn cydnabod bod hon yn amserlen dynn iawn ond yn anffodus ni ellir ei hosgoi os ydym am allu ystyried eich barn yn unol â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Cysylltu@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales

 0300 200 6565

Atodiad 1

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ("y Bil"), byddem yn croesawu eich barn ar y materion a restrir isod.

Safbwyntiau cyffredinol

1. Eich barn gyffredinol ar ran 4 o'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau sy'n cynnwys asesiad oedran Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, ac sy'n cynnwys:
 - a. sefydlu Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol
 - b. yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Rheoliadau mewn perthynas â'r gweithdrefnau i'w dilyn yn y broses o asesu oedran
 - c. defnyddio dulliau gwyddonol i bennu oedran; a chynigion i ddiwygio trefniadau apelio.

Yr effaith ar feysydd cymhwysedd datganoledig

2. I ba raddau y gallai'r cynigion a nodir yn y Bil danseilio cyfrifoldebau datganoledig y Senedd drwy ei gwneud yn ofynnol i gyfeirio plant sy'n destun ansicrwydd o ran oedran at wneuthurwyr penderfyniadau eraill, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol?
3. I ba raddau y gallai danseilio'r gofynion a roddir ar awdurdodau lleol Cymru a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wrth bennu a oes gan blant anghenion gofal a chymorth y mae angen eu diwallu?

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

4. Eich barn ynghylch a fydd y cynigion yn tanseilio cydymffurfiaeth â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i weithredu er budd plant.

Dulliau ac asesiadau 'gwyddonol'

5. Eich barn chi ar ddefnyddio "dulliau gwyddonol" i bennu oedran.



6. Y goblygiadau a ragwelir i awdurdodau lleol a'r GIG y gallai fod yn ofynnol iddynt gynnal asesiadau "gwyddonol" o ran oedran.

Goblygiadau o ran iechyd meddwl a chydlyniant cymunedol

7. Yr effaith bosibl ar iechyd meddwl i'r rhai sy'n destun dadl ar oedran.
8. I ba raddau y byddai'r cynigion yn tansilio cydlyniant cymunedol yng Nghymru.

Sut i rannu eich barn

Anfonwch eich ymateb drwy e-bost at **y ddau bwyllgor** seneddiechyd@senedd.cymru a seneddplant@senedd.cymru erbyn dydd Gwener 28 Ionawr 2022 fan bellaf.

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â [Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd](#), mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

Gweler y [canllawiau](#) i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen polisi'r Senedd ar [ddatgelu gwybodaeth](#) cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.



Atodiad 2

Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Prydain
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Cymru
Cymdeithas Feddygol Prydain
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
Coleg Nyrsio Brenhinol
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
Coleg Brenhinol y Meddygon
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
Coleg Brenhinol y Llawfeddygon
Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd
Comisiynydd Plant Cymru
Plant yng Nghymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Uned Mewnfudo Strategol Cymru
SNAP Cymru
Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol
Y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid
Y Groes Goch Brydeinig
Women Connect First.
BAWSO
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant
Y Rhwydwaith Maethu





CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 17

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Ionawr 2022

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 12 Ionawr, yn tynnu sylw at rai elfennau o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf 2018) y gellid eu camddehongli. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i roi rhywfaint o eglurder a sicrwydd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y mater hwn.

Bydd yr esboniadau canlynol ar y materion a godwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru (NDCS) wedi'u cynnwys mewn dogfen Cwestiynau Cyffredin sy'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd.

A yw addasiad rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn effeithio ar yr hawl i gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Efallai y bydd angen i'r ysgol wneud addasiad rhesymol ar gyfer plentyn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Efallai y bydd gan yr un plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd, ac os felly bydd angen CDU arno (mae yna eithriadau yn gysylltiedig â chynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal (AIG) ac asesiadau AIG plant sy'n byw yn Lloegr).

Rhaid ystyried p'un a oes gan blentyn ADY, ac os felly, y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) benodol sydd ei hangen arno, fesul achos. Mae dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir o dan y Ddeddf ADY a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r dyletswyddau yn rhai gwahanol, ac efallai y bydd angen addasiadau rhesymol, darpariaeth o dan CDU, neu, mewn rhai achosion, y ddau. Nid yw cyflawni dyletswyddau un Ddeddf, felly, yn gwneud i ffwrdd â'r angen i gyflawni dyletswyddau'r llall.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru

A oes yna drothwyon o ran lefel yr angen sy'n penderfynu pwy sy'n gymwys i gael CDU?

Mae CDUau wedi'u llunio ar gyfer dysgwyr ag ADY ar bob lefel – o anghenion llai i rai cymhleth iawn. Y maen prawf wrth asesu cymhwysra i gael CDU bob amser yw a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Lle bo'n ymddangos bod angen cefnogaeth ychwanegol ar blentyn oherwydd anhawster dysgu neu anabledd, rhaid i'r ysgol a gynhelir neu'r awdurdod lleol benderfynu fel rheol p'un a oes gan y plentyn ADY. Lle penderfynir bod ganddo ADY, bydd ganddo hawl i CDU yn gyffredinol sy'n cofnodi'r DDdY sydd i'w gwneud ar ei gyfer er mwyn cyflawni ei anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r sefyllfa yn un debyg iawn yn achos pobl ifanc, er mai sefydliad addysg bellach, efallai, a fydd yn gorfod gwneud y penderfyniad hwnnw.

Mae yna rai eithriadau i hyn, er enghraifft os oes gan y plentyn neu'r person ifanc gynllun AIG, neu yn achos person ifanc ag ADY nad yw mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu, yn unol â Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, p'un a oes angen CDU er mwyn cyflawni ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant. Mae'r Cod yn ymdrin â hyn yn fanylach.

Gan ddefnyddio ymateb graddedig, dylai DDdY ddechrau ar y lefel isaf i gyflawni anghenion y plentyn neu'r person ifanc, gan fanteisio ar yr holl adnoddau sydd ar gael cyn troi at arbenigedd. Efallai y bydd angen mwy o DDdY ar rai plant neu bobl ifanc dros amser os bydd eu cynnydd yn parhau i fod yn destun pryder. Yn achos eraill, bydd yr angen am DDdY yn lleihau'n raddol, os bydd yr ymyriadau yn llwyddo. Ymdrinnir â hyn hefyd yn y Cod.

Beth yw Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol? Pa gefnogaeth gan wasanaethau arbenigol a ystyrir yn DDdY?

Lle daw i sylw ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, neu lle bydd yn ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol, rhaid i'r ysgol a gynhelir, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol benderfynu, fel rheol, p'un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Lle penderfynir bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, fel rheol bydd angen i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol lunio a chynnal Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer y plentyn.

Mae'r prawf ar gyfer ADY wedi'i nodi yn y Ddeddf (a.2) a dylid ei ddefnyddio yn achos pob plentyn neu berson ifanc unigol – rhaid ystyried yr union amgylchiadau wrth wneud pob prawf. Mae ADY yn golygu bod gan yr unigolyn anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY, sef darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n wahanol i, neu'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oed mewn ysgolion prif-ffrwd a gynhelir, sefydliadau addysg bellach prif-ffrwd a lleoliadau lle darperir addysg feithrin.

Y DDdY sy'n ofynnol ar gyfer anhawster dysgu neu anabledd plentyn neu berson ifanc yw'r hyn sydd i'w nodi yn y CDU (gweler adran 10(b) y Ddeddf). Mae'r union DDdY sydd ei hangen ar blentyn neu berson ifanc ag ADY yn benodol iddyn nhw ac yn dibynnu ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.

Os yw gwasanaeth arbenigol ar gael i bob dysgwr sydd ag anabledd neu gyflwr penodol, mae'n debygol mai DDdY ar gyfer dysgwyr unigol yw'r gwasanaeth hwnnw. Mae p'un a yw'n DDdY ai peidio yn dibynnu ar p'un a yw anhawster dysgu neu anabledd y plentyn neu'r person ifanc yn galw amdani, a ph'un a yw'n ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n

ychwanegol at neu'n wahanol i'r ddarpariaeth gyffredinol i bob dysgwr sydd o'r un oed â'r plentyn neu'r person ifanc (gan gynnwys y rheini nad oes ganddynt yr anabledd neu'r cyflwr dan sylw).

Mewn rhai achosion, er mwyn sicrhau'r DDdY a nodir, efallai y bydd angen mathau anuniongyrchol o gefnogaeth, er enghraifft hyfforddi'r unigolyn a fydd yn gweithredu'r DDdY. Mae'r Cod yn rhagweld y gellir amlinellu'r manylion hyn yn yr adran o'r CDU sy'n ymwneud â DDdY (paragraff 23.37):

Bydd yr wybodaeth a gofnodir am y DDdY yn fwy defnyddiol os yw'n cael ei chyflwyno mewn ffordd glir. Dylai'r wybodaeth fod yn fanwl, yn benodol ac yn fesuradwy. Gallai'r eglurder hwn ddeillio o ddisgrifio'r tasgau neu'r camau penodol a fydd yn cael eu cyflawni; gallai hefyd fanylu ar yr hyfforddiant neu'r cymwysterau y bydd eu hangen ar unrhyw aelodau staff. Ni fydd datgan yn unig y bydd cymorth yn cael ei ddarparu yn bodloni'r angen i fod yn eglur; mae'n bwysig disgrifio'r tasgau y bydd unrhyw staff yn eu gwneud neu'n eu hwyluso, yr hyn y byddant yn gyfrifol amdano, ac, os oes angen, y cymwysterau neu'r hyfforddiant y bydd eu hangen arnynt.


Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, felly, gallai hyfforddiant arbenigol i staff addysgu fod yn rhan o'r disgrifiad o'r DDdY yn CDU plentyn neu berson ifanc. Fodd bynnag, ni fydd pob mewnbyn gan wasanaethau arbenigol yn DDdY o reidrwydd. Efallai y darperir rhywfaint o gymorth gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys rhai mathau o hyfforddiant staff, at ddibenion eraill, er enghraifft i helpu staff i nodi anghenion neu i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau penodol yn gyffredinol.

Ymateb i Bapur Sefyllfa Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru

Mae'r materion a godwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru am ddarpariaeth GIG nad yw, o bosibl, yn cael ei chofnodi fel DDdY mewn CDUau yn faterion newydd, a bydd angen inni ymchwilio iddynt ymhellach ac i'r hyn sydd y tu ôl iddynt. Bydd swyddogion yn cwrdd â Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ddechrau Chwefror ac yn trafod y materion hyn gyda nhw.

Gan fod prif ddarpariaethau Deddf 2018 yn cael eu cychwyn ar wahanol adegau i wahanol grwpiau o ddysgwyr, byddwn yn gwrando'n astud ar brofiadau dysgwyr ac ymarferwyr. Bydd rhaglen genedlaethol i weithredu'r system ADY yn adolygu'r cynnydd i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu yn unol â'i bwriad.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Eitem 3.18

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 18

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Ionawr 2022

Annwyl Huw

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil").

Cododd eich llythyr nifer o gwestiynau yr wyf wedi ymateb iddynt yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 98
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1. **A allwch chi gadarnhau pa asesiadau a gynhaliwyd mewn perthynas ag effaith y Bil ar hawliau dynol a beth oedd canlyniad yr asesiadau hyn? Yn benodol, a ydych yn fodlon bod yr hawliau mynediad ac arolygu y darperir ar eu cyfer yn adrannau 62 a 72 o'r Bil yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998?**
- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod darpariaethau'r Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.
2. **Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer y Bil hwn yn nodi rhestr o 20 o bwerau gwneud rheoliadau a etifeddwyd i raddau helaeth o ddeddfwriaeth gyfredol, y cyfeirir atynt fel y pwerau etifeddol. A yw pob un o'r pwerau etifeddol yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn graffu y Senedd ag y maent yn y ddeddfwriaeth bresennol? A allwch chi hefyd gadarnhau, lle roedd pwerau yn y Bil yn bodoli ar ffurf wahanol yn flaenorol, er enghraifft yn pŵer i wneud rheoliadau sydd bellach yn bŵer i wneud cyfarwyddiadau, a yw'r un weithdrefn neu weithdrefn uwch yn cael ei chymhwyso? Byddai'n ddefnyddiol cael rhestr gynhwysfawr yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â phob un o'r pwerau**
- 2.1 Ceir tabl yn Atodiad B sy'n nodi'r pwerau a etifeddwyd o'r ddeddfwriaeth bresennol, eu ffurf a'u gweithdrefn flaenorol a'u ffurf a'u gweithdrefn yn y Bil.
3. **Pam nad yw'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn ymdrin â phwer Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau o dan baragraff 1 o Atodlen 15?**
- 3.1 Mae hyn wedi'i gywiro ac mae'r testun ychwanegol i'w ychwanegu at y Datganiad o Fwriad y Polisi wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn yn Atodiad C. Mae'r Datganiad diwygiedig hefyd wedi'i rannu â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
4. **Mae Adran 11 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau strategol mewn perthynas ag addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi. A allwch chi egluro pam nad oes dyletswydd ar wyneb y Bil ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag unrhyw un arall wrth baratoi'r datganiad?**
- 4.1 Bydd y datganiad o flaenoriaethau, ar y cyd â dyletswyddau strategol y Comisiwn, yn amlinellu'r materion craidd y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried a'u cymryd i ystyriaeth wrth arfer ei swyddogaethau. Bydd y datganiad, i bob pwrpas, yn "lythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth" ac mae wedi'i gynllunio ar sail dull cynllunio tymor hwy. Yn ymarferol, disgwylir iddo gynnwys nifer fach o flaenoriaethau strategol a dangosyddion llwyddiant lefel uchel.
- 4.2 Er nad oes gofyniad statudol i ymgynghori ar yr hyn a gaiff ei gynnwys yn y datganiad, rwy'n cydnabod y byddai'n wrthgynhyrchiol symud oddi wrth yr arfer presennol lle mae cyrff hyd braich yn gyffredinol, a CCAUC yn benodol, yn cynnal deialog â'u timau partneriaeth yn y Llywodraeth pan ystyrir materion i'w cynnwys yn eu cylch gwaith.
- 4.3 Pan fydd y Comisiwn yn gwbl weithredol, disgwylir y bydd yn darparu tystiolaeth am gryfderau a gwendidau'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac ymchwil i

Weinidogion Cymru a fydd yn helpu i wneud eu datganiad o flaenoriaethau yn fwyaf ystyrlon.

4.4 Unwaith y bydd y datganiad wedi'i gyhoeddi, mae gan y Comisiwn gyfnod o 6 mis ar gyfer paratoi ei gynllun strategol, a fydd yn destun ymgynghori cyn iddo gael ei ystyried gan Weinidogion Cymru.

5. Mae adran 13(4) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynllun strategol cymeradwy, ond nid yw'n darparu amserlen ar gyfer gwneud hynny. Pam felly?

5.1 Os oes angen, gallai Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau (o dan adran 18) ynghylch y disgwyliadau ar gyfer y cynllun strategol nad ydynt wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil. Fel arall, gellid cynnwys y disgwyliadau hyn yn dogfennau fframwaith y Comisiwn i sicrhau bod eglurder llwyr ynghylch materion fel y rhain.

5.2 Fel cefndir, mae dogfennau fframwaith CCAUC ond yn pennu amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun busnes y maent yn ei lunio mewn ymateb i'r llythyr cylch gwaith. Er ei bod yn ofynnol iddynt sicrhau bod eu dogfennau eraill ar gael i'r cyhoedd, ni nodir amserlen ar gyfer hyn. Nid yw'r dull presennol hwn wedi bod yn broblem, ac o ystyried barn rhanddeiliaid nad yw bod yn rhy gyfarwyddol ar y Bil ynghylch prosesau gweithredol yn fuddiol, credaf fod y dull a fabwysiadwy gennym yn briodol. Bydd hyn yn caniatáu i fecanweithiau hyblyg a phriodol gael eu datblygu.

6. Mae adran 22 o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud cynlluniau i drosglwyddo staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o CCAUC a Gweinidogion Cymru i'r Comisiwn. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i'r Senedd wneud gwaith craffu ar y cynllun hwn. A allwch chi esbonio pam felly?

6.1 Mae paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cynlluniau trosglwyddo sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo staff o CCAUC a Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ac ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau CCAUC a Gweinidogion Cymru i'r Comisiwn.

6.2 Yn weithdrefnol, nid oes angen i'r cynlluniau gael eu gwneud drwy orchymyn. Mae paragraff 3 o Atodlen 2 yn darparu i Weinidogion Cymru osod copi o gynllun trosglwyddo a wneir o dan Atodlen 2 gerbron y Senedd. Mae trosglwyddo staff ac eiddo o Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn, yn fy marn i, yn fater gweinyddol i Lywodraeth Cymru, ac er y byddai'r cynllun(iau) hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff ac eiddo o CCAUC i'r Comisiwn, rhaid cael sicrwydd cyfreithiol ynghylch y trosglwyddiadau ac felly mae'r rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru yn cael ei chyfyngu i osod cynlluniau trosglwyddo Atodlen 2 gerbron y Senedd.

6.3 Ceir darpariaethau tebyg mewn perthynas â chynlluniau trosglwyddo yn Neddf Cymwysterau (Cymru) 2015 (gweler adran 2 ac Atodlen 2). O dan Ddeddf 2015, gall Gweinidogion Cymru wneud cynlluniau sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo staff Llywodraeth Cymru ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru i Cymwysterau Cymru. O ran y weithdrefn, mae ond yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o gynllun trosglwyddo o'r fath gerbron y Senedd (nid oes angen nodi'r cynlluniau mewn Offeryn Statudol).

6.4 O ran Deddfau Seneddol, mae adran 115 ac Atodlen 10 i Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 hefyd yn debyg i'r Bil. O dan Atodlen 10 Deddf 2017, gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud cynlluniau trosglwyddo ar gyfer trosglwyddo eiddo neu staff mewn cysylltiad â sefydlu'r Swyddfa Myfyrwyr neu Sefydliad Ymchwil y DU a hefyd (ymhlith pethau eraill) pan fo CCAUC yn peidio â bodoli. Nid oes unrhyw ofynion gweithdrefnol yn ymwneud â'r cynlluniau hyn (nid oes angen iddynt gael eu gwneud gan / eu cynnwys o fewn Offeryn Statudol) ac nid oes dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i osod y cynlluniau gerbron y Senedd. Roedd Deddf Ynni 2016 yn defnyddio dull tebyg o drosglwyddo staff o'r gwasanaeth sifil i'r Awdurdod Olew a Nwy lle nad oedd angen i gynllun yr Ysgrifennydd Gwladol gael ei wneud gan / ei gynnwys mewn Offeryn Statudol ac nid oedd yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn Seneddol.

7. Mae adran 23 yn darparu ar gyfer pwerau amrywiol i wneud rheoliadau mewn perthynas â chofrestru darparwyr gan y Comisiwn. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn esbonio:

“mae'r strwythur cyllido (ac o ganlyniad rheoleiddio priodol) addysg drydyddol (yn arbennig addysg uwch) ledled y DU wedi newid yn aml yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda newidiadau yng ngweinyddiaethau eraill y DU yn aml yn cael effaith ar bolisi ariannu yng Nghymru Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd ar gyfradd sy'n gynt na'r hyn sy'n briodol neu'n ymarferol i'r Llywodraeth Cymru ymateb gyda deddfwriaeth sylfaenol ynghylch manylion rheoleiddio ym mhob achos. Felly, dylai'r Bil drafft hwn alluogi i fanylion y fframwaith rheoleiddio gael eu newid mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn strwythur neu gyllid y sector trydyddol yng Nghymru.”

A allwch chi ddarparu mwy o wybodaeth am hyn a chadarnhau a oes trafodaethau yn digwydd gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod y gyfraith yn gallu cadw i fyny â'r newidiadau?

7.1 Cynhaliwyd newid mawr i drefn ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru ym mlwyddyn academiaidd 2012/13 yn dilyn Adolygiad Browne o Gyllid Myfyrwyr yn Lloegr. Roedd gan y newidiadau a wnaed bryd hynny oblygiadau sylweddol i'r drefn o gyllido a goruchwyllo addysg uwch yng Nghymru ac arweiniodd at yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd ar ffurf Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Darparodd Deddf 2015 y fframwaith statudol i sicrhau bod CCAUC yn gallu parhau i reoleiddio darparwyr addysg uwch Cymru y mae eu cyrsiau addysg uwch perthnasol yn ddarostyngedig i derfynau ffioedd yn dilyn y newid mewn cyllid o grantiau sefydliadol tuag at fwy o ddibyniaeth ar incwm ffioedd dysgu.

7.2 Mae'r Bil yn ceisio sefydlu fframwaith rheoleiddio sydd wedi'i ddiogelu at y dyfodol, er mwyn galluogi'r Comisiwn i gynnal goruchwyliaeth reoleiddiol o ddarparwyr addysg drydyddol, y gellir ei addasu mewn ymateb i newidiadau i drefniadau cyllido neu gymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol.

7.3 Mae'r Bil yn creu system reoleiddio sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'n caniatáu i is-ddeddfwriaeth nodi gwahanol gategorïau cofrestru a chysylltu'r categorïau hyn â gofynion rheoliadol penodol a mynediad at gyllid. Bydd hyn yn galluogi'r system reoleiddio i esblygu mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol ym maint, ffurf a chyllid addysg drydyddol yng Nghymru, a allai yn ei dro gael ei dylanwadu gan newidiadau mewn cyllid o'r fath yn rhannau eraill o'r DU.

- 7.4 Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig cyflwyno "Hawl i Fenthyciad Gydol Oes" yn ddiweddar a allai newid yn sylweddol y cyllid ar gyfer darpariaeth addysg bellach ac uwch yn y dyfodol. Nid yw llawer o fanylion cynigion Llywodraeth y DU yn hysbys ar hyn o bryd ond, os cânt eu gweithredu, gallant fod â goblygiadau i bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn y dyfodol. Rwyf wedi cwrdd yn ddiweddar â'r Gweinidog Gwladol dros Addysg Uwch a Phellach a deallaf fod Llywodraeth y DU yn bwriadu ymgynghori ar yr Hawl i Fenthyciad Gydol Oes.
- 7.5 Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'u cymheiriaid yn Adran Addysg Llywodraeth y DU ar amrywiaeth o faterion sy'n codi o'r Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, gan gynnwys datblygu'r Hawl i Fenthyciad Gydol Oes arfaethedig.
- 7.6 Byddwn yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid yn y sectorau addysg bellach a hyfforddiant i symud tuag at setliad rheoleiddio sy'n addas ar gyfer yr hirdymor ac sy'n sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng y sectorau addysg bellach ac addysg uwch.
- 8. Mae sawl adran yn y Bil lle caiff "enghreifftiau" eu rhoi ar gyfer materion y gall rheoliadau ymdrin â nhw, er enghraifft, adran 25(4) ac adran 59(2). A yw'r Gweinidog o'r farn y gallai hyn wneud i rai darllenwyr feddwl mai dim ond y materion sy'n cael eu rhestru y gall y rheoliadau dan sylw ymdrin â nhw?**
- 8.1 Mae adran 25(4) yn nodi enghreifftiau o beth allai rheoliadau a wneir o dan adran 25(3) ei wneud. Mae hyn yn cynnwys rhoi swyddogaethau i'r Comisiwn mewn cysylltiad â gweithredu amodau cychwynnol pellach y darperir ar eu cyfer yn y rheoliadau, ac enghreifftiau o beth fyddai'r amodau cofrestru cychwynnol pellach hyn.
- 8.2 Yn unol â'r arfer presennol ar gyfer drafftio cyfreithiau ar gyfer Cymru¹, fe'i gwneir yn glir nad yw'r rhestr yn gyflawn drwy ddefnyddio'r geiriau "gall (ymhlith pethau eraill)". Mae hwn yn ddull a argymhellir o gyfleu'n glir mewn deddfwriaeth sylfaenol y berthynas rhwng y pŵer i wneud rheoliadau a'r rhestr nad yw'n gyflawn o enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddefnyddio ar ei gyfer. Mae'r geiriad penodol a ddefnyddir yn ei gwneud yn glir nad yw adran 25(4) yn gymwys nac yn cyfyngu ar gwmpas adran 25(3).
- 8.3 Mae'r ail enghraifft a nodwyd yn y cwestiwn, sef adran 59(2), yn gweithredu mewn ffordd debyg; mae'r geiriau "gall gynnwys" yn egluro nad yw'r enghreifftiau a restrir yn yr adran yn cyfyngu ar gwmpas y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 59(1). Unwaith eto, defnyddir y geiriad yn unol â'r argymhellion a'r arferion drafftio a nodir yn "Ysgrifennu Cyfreithiau Cymru: Canllaw".
- 9. Mae adran 30(2)(b) yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu beth yw "categori terfyn ffioedd". Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ond mae'r tri phŵer arall i wneud rheoliadau yn adran 30 sydd hefyd yn ymdrin â therfynau ffioedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. A allwch chi egluro pam nad yw'r holl bwerau yn yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol pan maent yn ymdrin â'r un pwnc?**

¹ paragraffau 5.6(8) a (9) o "Ysgrifennu Cyfreithiau Cymru: Canllaw" a gyhoeddwyd yn 2019

- 9.1 Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 30(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu categorïau cofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn osod amod cofrestru parhaus mewn perthynas â hwy ynghylch terfynau ffioedd.
- 9.2 Ein bwriad yw i'r amod cofrestru hwn fod yn gymwys mewn perthynas â'r categori cofrestru addysg uwch "craidd" arfaethedig. Ni ragwelir y byddai'r trefniadau hyn yn cael eu newid yn aml. Fodd bynnag, pe bai trefniadau ar gyfer cyllid a chymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol yn newid (gweler yr ateb i gwestiwn 7), mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi categorïau cofrestru eraill y mae'n rhaid i amod terfyn ffioedd fod yn gymwys iddynt. Gan fod cydymffurfio â therfynau ffioedd yn fater o bwys i ddarparwyr addysg drydyddol ac yn nodwedd bwysig o'r cynllun deddfwriaethol, mae'n briodol bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chymhwyso i'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ac mae hyn yn gyson â'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer pwerau eraill mewn perthynas â chategorïau ac amodau cofrestru.
- 9.3 I'r gwrthwyneb, mae'r pwerau gwneud rheoliadau eraill o dan adran 30 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyrsiau a phersonau cymwys at ddiben rheoleiddio terfynau ffioedd (adrannau 30(4) a 30(8)(b)) yn ogystal â nodi pryd y mae ffioedd sy'n daladwy i ddarparwr mewn perthynas â chwrs y mae'n eu darparu ar ran darparwr cofrestredig i'w trin fel pe bai'n daladwy i'r darparwr cofrestredig at ddibenion terfynau ffioedd (adran 30(10)). Efallai y bydd angen i'r materion hyn newid dros amser er mwyn sicrhau synergedd rhwng y cyrsiau a'r personau y mae'r terfyn ffioedd yn berthnasol iddynt a rheoliadau cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar newidiadau arfaethedig cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau hyn. Yn fy marn i, mae'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau hyn, ac mae hyn hefyd yn gyson â'r pwerau cyfatebol o dan adran 5 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
- 10. O ran pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru o dan y Bil, mae adran 68 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd yn uniongyrchol i gorff llywodraethu darparwr. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn cadarnhau mai'r bwriad yw defnyddio hyn pan fydd y Comisiwn wedi defnyddio'i holl swyddogaethau ymyrryd neu pan fydd y mater mor ddifrifol fel bod angen gweithredu ar frys. Pam nad yw'r amodau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar wyneb y Bil?**
- 10.1 Er mai dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y caiff y pwerau ymyrryd hyn eu defnyddio a byddant yn gweithredu ochr yn ochr â'r pwerau ymyrryd sydd ar gael i'r Comisiwn o dan y Bil, ni chynhwyswyd amodau datganedig yn ymwneud â'r materion hyn ar wyneb y Bil am y rhesymau canlynol:
- mae'r ffordd y bydd swyddogaethau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn gweithredu ochr yn ochr â phwerau ymyrryd y Comisiwn, a'r penderfyniadau ynghylch a oes angen ymyrryd ar frys, yn faterion gweithredol y bydd angen iddynt adlewyrchu amgylchiadau penodol pob achos unigol. Byddai'n fwy priodol cynnwys manylion gweithredol fel hyn yn natganiad cyhoeddedig Gweinidogion Cymru ar sut y caiff y pwerau ymyrryd hyn eu harfer (adran 70 o'r Bil). Byddai hyn yn barhad o'r arfer presennol.
 - mae adran 67 o'r Bil eisoes yn nodi'r seiliau penodol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Weinidogion Cymru ymyrryd o dan y pwerau hyn. Mae'r rhain yn

ailddatgan yn fras y seiliau presennol dros ymyrryd a ragnodir o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

- gall natur y seiliau dros ymyrryd a nodir o dan adran 67 o'r Bil arwain at amgylchiadau lle nad yw'r mater y mae angen ymyrryd yn ei gylch yn ymwneud ag amgylchiadau cofrestru neu gyllido'r Comisiwn, er enghraifft torri dyletswyddau statudol gan sefydliad addysg bellach. Mewn achosion o'r fath, efallai na fydd swyddogaethau ymyrryd y Comisiwn yn briodol nac yn gallu mynd i'r afael â'r mater a nodwyd;
- mae'n debygol na fydd llawer o sefydliadau addysg bellach yn ddarparwyr cofrestredig yn y lle cyntaf, ac felly bydd perthynas reoleiddiol y Comisiwn â'r darparwyr hyn drwy delerau ac amodau cyllido; a.
- byddai'n anodd diffinio beth yw'r amgylchiadau lle mae angen gweithredu ar fwy o frys.

10.2 Yng ngoleuni'r uchod, gallai fod risgiau posibl yn deillio o gynnwys amodau ar wyneb y Bil yn ymwneud â swyddogaethau ymyrryd y Comisiwn neu'r gofyniad i ddefnyddio'r pwerau hyn ar frys. Pe bai amodau o'r fath yn cael eu cynnwys, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ddangos bod holl bwerau ymyrryd y Comisiwn wedi'u disbyddu (neu na fyddent yn datrys y mater dan sylw) neu fod digon o frys cyn y gallant ymyrryd o dan y pwerau hyn. Gallai hyn gael yr effaith anfwriadol o atal Gweinidogion Cymru rhag gweithredu o dan y pwerau hyn neu ohirio camau o'r fath mewn amgylchiadau lle y gallai fod angen diogelu darpariaeth addysg bellach yng Nghymru.

10.3 Mae hefyd yn bwysig nodi bod y Bil yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn chwarae rhan wrth arfer y swyddogaethau ymyrryd hyn sy'n adlewyrchu ei rôl reoleiddio mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i farn y Comisiwn wrth benderfynu a ddylid ymyrryd gan ddefnyddio'r pwerau hyn. Bydd cyngor gan y Comisiwn yn helpu Gweinidogion Cymru i ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth benderfynu a ddylid ymyrryd ai peidio yn amgylchiadau penodol pob achos. Rhagwelir y bydd y cyngor hwn yn cynnwys barn y Comisiwn ar y math mwyaf priodol o ymyrraeth i fynd i'r afael â'r mater a nodwyd.

11. Mewn perthynas ag adran 77(4) o'r Bil, mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi y byddai unrhyw reoliadau sy'n cael eu gwneud o dan y ddarpariaeth hon yn weddol debyg i'r trefniadau cyfredol yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015. A allwch chi gadarnhau beth yw ystyr yr ymadrodd 'gweddol debyg'?

11.1 Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adrannau 77(3) a 77(4) o'r Bil yn ymwneud â threfniadau gweithdrefnol i'w cymhwyso ar gyfer unrhyw adolygiadau o benderfyniadau'r Comisiwn mewn perthynas â'r gofrestr a'i oruchwyliaeth reoleiddiol o ddarparwyr addysg drydyddol cofrestredig. Mae hyn yn debyg i bŵer o dan adrannau 44(3) a 44(4) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015 yn gwneud darpariaeth, ymhlith materion eraill, mewn perthynas â threfniadau gweithdrefnol ar gyfer rhoi ac adolygu hysbysiadau a chyfarwyddyd o dan Ran 6 o Ddeddf 2015, gan gynnwys adran 44.

11.2 Nid ydym wedi nodi eto unrhyw reswm dros ddiwygio'r polisi ar adolygiadau o benderfyniadau fel y nodir yn rheoliadau 7 i 10 o reoliadau 2015. Mae'r rhain yn nodi'r

seiliau dros adolygu hysbysiadau a chyfarwyddyd, y weithdrefn i wneud cais am adolygiad, y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau, a'r weithdrefn ôl-adolygu. Fodd bynnag, caiff hyn ei adolygu'n llawn wrth ddrafftio'r rheoliadau gan roi ystyriaeth i unrhyw adborth a ddarperir gan randdeiliaid ar ddarpariaethau priodol ar gyfer y weithdrefn adolygu.

11.3 Yn unol ag arfer safonol Llywodraeth Cymru, byddai'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 77 yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

12. Mae adran 86(6) o'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau y dywed y Datganiad ar y Bwriad Polisi na fwriedir eu defnyddio ar hyn o bryd. Pam eu bod yn cael eu cynnwys yn y Bil hwn? Oni fyddai'n well rhoi sylw iddynt yn y dyfodol os a phan fydd yr angen yn codi?

12.1 Mae adran 86(1) wedi'i chynllunio i ganiatáu i gyrsiau addysg uwch penodedig gael eu cyllido gan y Comisiwn ar wahân i gyrsiau a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig mewn categori a bennir at ddibenion adran 85. Bwriad y pŵer yn adran 86 yw sicrhau y gellid mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth addysg uwch os na fydd yn bosibl neu'n ymarferol i gyrsiau o'r fath gael eu darparu gan ddarparwr cofrestredig yn y categori "craidd".

12.2 Bwriedir i brif bŵer swyddogaeth addysg uwch y Comisiwn (adran 85) fod yn gymwys i ddarparwyr addysg uwch sydd wedi'u cofrestru yn y categori "craidd" arfaethedig a byddai rheoliadau'n darparu ar gyfer hynny. Fodd bynnag, gallai fod darparwyr yng Nghymru sydd, er enghraifft, yn dewis cofrestru yn y categori "amgen" neu nad ydynt wedi'u cofrestru o gwbl na fyddent yn gymwys i gael cyllid addysg uwch gan y Comisiwn o dan ei brif bŵer ar gyfer cyllido addysg uwch, ond a allai ddarparu cyrsiau 'arbenigol' a nodwyd gan Weinidogion Cymru fel rhai sydd eu hangen ar gyfer Cymru. Mewn achosion prin iawn hefyd, gallai fod cyrsiau mewn darparwyr y tu allan i Gymru y mae Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn nodi bod angen cyllid arnynt er mwyn darparu buddion i Gymru a phobl sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru.

12.3 Er nad oes unrhyw achosion o'r fath wedi'u nodi hyd yma, credwn y byddai'n ddoeth cadw'r pŵer hwn er mwyn rhoi digon o hyblygrwydd i'r Comisiwn yn y dyfodol a sicrhau bod addysg uwch a gyllid yn gallu diwallu anghenion Cymru.

13. Mewn perthynas ag adran 91, dywed y Datganiad o Fwriad y Polisi "mai'r bwriad wrth ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i bennu cwmpas addysg a chymhwysra perthnasol at ddibenion y ddyletswydd gyllido yw golygu bod modd ehangu'r cynnig a ariennir o addysg bellach a hyfforddiant i oedolion yn raddol dros amser i fynd i'r afael â phatrymau esblygol o ran anghenion." Yn yr un modd, mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn defnyddio geiriad fel "nid yw'n bolisi cyfredol gan y llywodraeth" a "pe bai'r angen yn codi" yng nghydestun pwerau gwneud rheoliadau o dan adrannau 95 a 101. A allwch chi ymhelaethu ar hyn ac egluro pam rydych chi'n ystyried ei bod yn briodol rhoi'r pwerau hyn ar waith nawr, yn hytrach na phan fydd yr angen wir yn codi?

13.1 Mae adran 91(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu addysg bellach a hyfforddiant perthnasol at ddibenion dyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol i bersonau 19 oed a throsodd.

- 13.2 Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu cyflwyno rheoliadau o dan yr adran hon ar, neu'n fuan ar ôl, cychwyn y darpariaethau hyn, yn unol â'r ddyletswydd hon. Fy mwriad yw y bydd y rheoliadau hyn yn nodi fersiwn gyntaf y gofynion ar gyfer darparu addysg bellach a hyfforddiant i oedolion.
- 13.3 Mae manylion llawn y polisi a fydd yn sail i'r rheoliadau hyn yn cael eu datblygu ar ôl cyhoeddi adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr gan Ganolfan Polisi Cyhoeddi Cymru, sef 'Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru', a oedd yn nodi argymhellion yn y maes hwn. Mae'r adroddiad hwn yn dangos pwysigrwydd hanfodol ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes yng Nghymru, sy'n rhywbeth y gobeithiwn ei gyflawni drwy'r ddeddfwriaeth hon.
- 13.4 Mae rheoliadau o dan adrannau 95 a 101 yn ymwneud â'r pwerau i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru i gael mynediad at gyllid ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau. Fel y nodwyd yn fy ymateb i gwestiwn 7, bwriad y pwerau hyn yw sicrhau y gall y system reoleiddio esblygu mewn ymateb i newidiadau yn y dyfodol ym maint, ffurf a chyllid addysg drydyddol yng Nghymru.
- 14. Mae Rhan 3 o'r Bil yn ymdrin ag ariannu addysg ac ymchwil drydyddol. Mae bron â bod pob un o'r pwerau yn y Rhan hon i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae adran 106 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn pe bai cyllid yn cael ei gamreoli gan ddarparwr ac nad yw'r cyfarwyddiadau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn heblaw cael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'r rhain wedi'u modelu'n fras ar adran 57 bresennol Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n ymwneud â CCAUC, lle mai dim ond trwy orchymyn Gweinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol y gellir rhoi cyfarwyddiadau o'r fath. A allwch chi gadarnhau pam nad yw cyfarwyddbau o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd?**
- 14.1 Mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd cymorth ariannol yn adran 106 o'r Bil yn debyg i'r pwerau presennol i wneud gorchmynion yn adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae adran 89 o Ddeddf 1992 yn darparu nad oes angen i orchmynion a wneir o dan adran 57 gael eu gwneud drwy offeryn statudol, ac o ganlyniad nid ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Senedd. Mae'r darpariaethau fel yr adlewyrchir yn adran 106 o'r Bil wedi'u hystyried o'r newydd gan roi ystyriaeth i sut y gallai fod angen defnyddio'r pwerau hyn.
- 14.2 Un o fanteision allweddol pŵer i wneud cyfarwyddyd yw galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i sefyllfa a gosod gofynion yn gyflym er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn destun rheolaethau priodol. Felly, datblygwyd dull gweithredu ar gyfer y Bil yn seiliedig ar dri cham:
- ymgynghori â'r Comisiwn cyn rhoi cyfarwyddyd,
 - ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r cyfarwyddyd pan gaiff ei roi
 - darparu adroddiad i'r Senedd ar ôl rhoi cyfarwyddyd.
- 14.3 Ochr yn ochr â hyn, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r cyfarwyddyd yn rheolaidd.

- 14.4 Rwy'n ystyried bod y dull hwn yn galluogi ymateb priodol i faterion a allai fod angen ymateb amserol. Bwriad y tri gofyniad gweithdrefnol yw mynd i'r afael â phryderon posibl ynghylch craffu a thryloywder y cyfarwyddyd.
- 14.5 Mynychais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gynharach y mis hwn lle codwyd y trefniadau mewn perthynas â rhoi cyfarwyddyd cyffredinol i'r Comisiwn (adran 19 o'r Bil). Yn y cyfarfod hwnnw, cadarnheais y byddwn yn ystyried a oedd dulliau amgen a allai ganiatáu hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor. Yn ystod yr ystyriaethau hyn, byddaf hefyd yn ystyried y trefniadau ar gyfer y cyfarwyddyd cymorth ariannol.
- 15. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi bod nifer o'r pwerau yn Rhan 4 "yn ailddeddfu neu'n adeiladu ar y pwerau gwneud rheoliadau sy'n bodoli eisoes yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009". A allwch chi gadarnhau, os yw hyn yn wir, bod y weithdrefn graffu a oedd yn gymwys o dan Ddeddf 2009 yn parhau i fod yn gymwys o dan y Bil?**
- 15.1 Gallaf gadarnhau, pan fo pŵer yn Rhan 4 yn deillio o bŵer i wneud rheoliadau yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, fod y weithdrefn graffu yn y Bil o leiaf yn cyfateb i'r weithdrefn a oedd yn gymwys o dan Ddeddf 2009.
- 16. Mae adran 130(6) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch ffactorau y byddant yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo corff neu unigolyn i gymryd cais i wybodaeth dderbyn ac i gynnal a chyhoeddi ymchwil mewn perthynas â gwybodaeth o'r fath. Nid oes unrhyw ofyniad i osod y canllawiau hyn gerbron y Senedd. A allwch chi esbonio pam felly?**
- 16.1 Bwriedir i'r canllawiau hyn ymdrin â materion gweithdrefnol a thechnegol i gefnogi gweithredu'r darpariaethau hyn ac felly nid wyf yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cymhwyso gweithdrefn o'r Senedd na gofyniad i osod y canllawiau gerbron y Senedd.
- 17. Mae adran 135 yn cadw pŵer eang i ddiddymu corfforaethau addysg uwch heb unrhyw gyfiawnhad dros gadw'r pŵer hwn heblaw ei bod yn "sefyllfa ddymunol". A ydych chi'n ystyried bod hyn yn gyfiawnhad digonol ac a allwch chi ymhelaethu ar y rhesymau dros gadw'r pŵer hwn?**
- 17.1 Mae'r pwerau a gedwir yn y Bil mewn perthynas â diddymu Corfforaethau Addysg Uwch, ar wahân i rai addasiadau technegol, yr un peth â'r pwerau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r rhain, yn eu hanfod, yn bwerau wrth gefn a byddai eu defnydd yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfraith gyhoeddus.
- 17.2 Rwy'n cydnabod cryfder barn rhanddeiliaid ynghylch y pwerau hyn ac felly rwy'n archwilio gwelliant i'r darpariaethau hyn ac wedi gofyn i'm swyddogion ystyried yr adborth a'r sylwadau a wnaed gan rhanddeiliaid mewn perthynas â'r darpariaethau hyn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r gwelliant hwnnw. Byddwn hefyd yn croesawu barn ac argymhellion y Pwyllgor.
- 17.3 Wrth i ni barhau i ystyried y mater hwn, rwy'n hapus i ysgrifennu at y Pwyllgor gydag unrhyw ddiweddariadau pellach.

Atodiad B

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)				Deddfwriaeth Gyfredol			
Adran	Pŵer	Ffurf	Gweithdrefn	Yn deillio o	Pŵer	Ffurf	Gweithdrefn
19(1)	Cyfarwyddyd	Cyhoeddi	Adrodd i Senedd Cymru fod cyfarwyddyd wedi'i roi a gosod copi o'r cyfarwyddyd gerbron y Senedd. Rhaid cadw'r cyfarwyddyd o dan adolygiad.	Adran 81(2) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992	Cyfarwyddyd	OS	Negyddol
30(4)	Rheoliadau	OS	Cadarnhaol	Adran 5(2)(b) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	Rheoliadau	OS	Negyddol
30(8)(b)	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 5(5)(b) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	Rheoliadau	OS	Negyddol
30(10)	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 5(9) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	Rheoliadau	OS	Negyddol
44(6)	Rheoliadau	OS	Cadarnhaol	Adran 5(3) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	Rheoliadau	OS	Bydd y gyfres gyntaf o reoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 5(3) yn ddarostyngedig i'r

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)				Deddfwriaeth Gyfredol			
Adran	Pŵer	Ffurf	Gweithdrefn	Yn deillio o	Pŵer	Ffurf	Gweithdrefn
							weithdrefn gadarnhaol ac wedyn y weithdrefn negyddol.
52(8)	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	Rheoliadau	OS	Negyddol
55(1)(f)	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 75(1)(e) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000	Rheoliadau	OS	Dim gweithdrefn
55(4)	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 77(2) a 77(4) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000	Rheoliadau	OS	Dim gweithdrefn
59(1)	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 76(3) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000	Rheoliadau	OS	Dim gweithdrefn
61(9)	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 83(7) a (9) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000	Rheoliadau	OS	Dim gweithdrefn
77(3)	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 44(3) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	Rheoliadau	OS	Negyddol
81(4)	Rheoliadau	OS	Cadarnhaol	Adran 3(4) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	Rheoliadau	OS	Cadarnhaol

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)				Deddfwriaeth Gyfredol			
Adran	Pŵer	Ffurf	Gweithdrefn	Yn deillio o	Pŵer	Ffurf	Gweithdrefn
82 (gweler (d) yn y diffiniad o "ffioedd")	Rheoliadau	OS	Negyddol	Adran 57(1) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (gweler (d) yn y diffiniad o "ffioedd")	Rheoliadau	OS	Negyddol
106(1)	Cyfarwyddyd	Cyhoeddi	Adrodd i Senedd Cymru fod cyfarwyddyd wedi'i roi a gosod copi o'r cyfarwyddyd gerbron y Senedd. Rhaid cadw'r cyfarwyddyd o dan adolygiad.	Adran 81(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992	Cyfarwyddyd	OS	Negyddol

Cyfarwyddyd cyffredinol i'r Comisiwn

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
Atodlen 1 paragraff 15(1)(a)	Cyfarwyddyd	Rhaid i'r Comisiwn baratoi datganiad o gyfrifon mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.	Dim gweithdrefn

Disgrifiad o'r pwerau

Mae paragraff 15(1)(a) o Atodlen 1 i'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn ynghylch paratoi datganiad o gyfrifon. Pob blwyddyn ariannol rhaid i'r Comisiwn baratoi cyfrifon yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Erbyn diwedd mis Awst yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'r cyfrifon wedi'u llofnodi ynghyd â llythyr cynrychiolaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rhaid i'r Comisiwn anfon dau gopi o'r cyfrifon wedi'u llofnodi at Lywodraeth Cymru.

Diben a bwriad y polisi

Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i CCAUC mewn perthynas â pharatoi eu cyfrifon a'r bwriad yw rhoi cyfarwyddyd cyfatebol i'r Comisiwn ar ôl ei sefydlu.

Nodir sylwedd y cyfarwyddyd ym mharagraff 15(2)(b) o Atodlen 1 ac mae'n cynnwys:

- yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad;
- y modd y mae'r wybodaeth i'w chyflwyno;
- y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w paratoi yn unol â hwy; ac
- unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd i ategu'r datganiad.

Eitem 3.19

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 19

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Dyddiad: 13 Ionawr 2022

Pwnc: Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Annwyl Jeremy,

Diolch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 13 Ionawr. Fel y dywedais, mae rhai materion yr hoffem gael rhagor o wybodaeth amdanynt i lywio ein gwaith craffu.

Gwybodaeth a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

Roedd rhai materion a godwyd gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad, a byddem yn croesawu rhywfaint o eglurder pellach ynglŷn â'r materion hyn fel yr amlinellir isod.

- Mae Cyngor y Deoniaid wedi gofyn am eglurder pellach ynghylch a fydd y Comisiwn yn ariannu rhaglenni gofal iechyd cyn cofrestru a sut y bydd hyn yn cysylltu â chyllid gan GIG Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y bydd y Comisiwn yn ariannu ymchwil gofal iechyd yng Nghymru; a sut y bydd rhaglenni prentisiaeth broffesiynol gofal iechyd cyn cofrestru yn cael eu hariannu.
- Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi mynegi pryderon ynghylch y ddarpariaeth dysgu gydol oes yn cael ei fframio'n benodol o ran addysg bellach yn y Bil. Mae'r Brifysgol yn gofyn am eglurder ar y pwynt hwn, gan nodi: "We do not believe that it is the Welsh Government's intention to limit these funding mechanisms to further education providers but would welcome clarification that our understanding is correct".



- Mae Grŵp NPTC wedi gofyn am eglurder ynghylch effaith S67 ac S68 yn y Bil. Maent yn nodi: "Mae angen eglurder pellach hefyd ynglŷn â sut mae hyn yn rhyngweithio ochr yn ochr â rôl LIC fel Prif Reoleiddiwr y sefydliadau AB fel elusennau eithriedig".
- Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi: "it is unclear how and whether the EIA relates to the breadth of the Bill and the scope of its measures". Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn gallu egluro'r pwynt hwn i'r Comisiwn.
- Mae'r Comisiwn Elusennau wedi gofyn am eglurder ar y pwynt a ganlyn: "Under clause 25(4)(b)(i) of the Bill, the Welsh Ministers may, by regulation, specify further initial registration conditions relating to the charitable or other status of tertiary education providers. It would be helpful to have clarity as to what conditions may be imposed in practice".
- Mae Prifysgolion Cymru yn gofyn am eglurder ynghylch pam y mae'n ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i nodwedd nodedig darparwyr wrth ariannu o dan rai penawdau ond nid eraill, er enghraifft wrth ariannu ymchwil ac arloesi.
- O ran Anghenion Dysgu Ychwanegol:
 - Mae'r Comisiynydd Plant wedi gofyn am ragor o fanylion a fyddai'n cefnogi'r Comisiwn i gyflawni'r gweithgaredd a restrir ym mharagraff 3.276 o'r Memorandwm Esboniadol yn fwy effeithiol mewn perthynas â dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
 - Mae Natspec yn gofyn sut y bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fod yn atebol am ddiwallu anghenion myfyrwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol; ac yn tynnu sylw'r Pwyllgor at yr angen i sicrhau nad yw pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cymhleth y mae angen lleoliad arnynt mewn coleg addysg bellach arbenigol yn cael eu heithrio o'r mesurau diogelu a gynigir gan y Comisiwn. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am y pwyntiau hyn.
 - Mae Estyn wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo nad yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn glir am rôl y Comisiwn o ran ariannu dysgwyr ag anghenion dwys ac Anghenion Dysgu Ychwanegol i gael darpariaeth briodol. Maent yn gofyn am eglurder ynghylch pam neu sut y gellid ariannu dysgwyr ag anghenion dwys yn wahanol yn ôl y math o ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt, ac y gallent fod â phrofiadau ansawdd gwahanol yn ôl pa ddarparwr maent yn ei ddefnyddio.

Materion sy'n codi o'r sesiwn dystiolaeth

Ar ôl trafod y dystiolaeth, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am:

- Eich barn ar ddatblygu'r corff strategol cenedlaethol ar gyfer addysg i oedolion yn y gymuned;

- Sut y bydd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio i ddysgwyr yn ymarferol a sut y bydd y Bil hwn yn rhyngweithio â darnau eraill o ddeddfwriaeth berthnasol megis Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018;
- Pam rydych chi'n credu y dylai'r chweched dosbarth gael ei gynnwys yng nghylch gwaith y Comisiwn, ac os felly, eglurder ynghylch pam nad yw rhai o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag diogelu dysgwyr a llais dysgwyr yn cwmpasu'r chweched dosbarth.

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gytuno i ddarparu:

- Gwybodaeth gymharol am gyfansoddiad a'r gwahanol fathau o aelodaeth Bwrdd mewn sefydliadau tebyg i'r Comisiwn;
- Rhagor o wybodaeth am y safbwynt diweddaraf ar y pŵer i ddiddymu Corfforaethau Addysg Uwch;
- Rhagor o wybodaeth am y materion sy'n codi o'r [ddeiseb](#) ar y fwrariaeth STEMM ôl-raddedig;
- Rhagor o wybodaeth am sut y gall y Bil gefnogi rhyddid academiaidd i academyddion unigol, yn hytrach na'r amddiffyniadau ehangach yn y Bil ar gyfer rhyddid academiaidd sefydliadol;
- Rhagor o wybodaeth am sut y bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Comisiwn a chyrrff cysylltiedig eraill yn cydweithio mewn perthynas â'u rolau mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg; a
- A roddwyd cydsyniad ar gyfer adran 128.

Er mwyn sicrhau y gall eich ymateb lywio ein trafodaethau ar y Bil, byddem yn gofyn am ymateb erbyn dydd Gwener 4 Chwefror.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Chwefror 2022

Annwyl Jayne

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Ionawr yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil"). Cododd eich llythyr nifer o gwestiynau yr wyf wedi ymateb iddynt yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto cyn hir gyda rhagor o fanylion am fy nghynlluniau ar gyfer gweithredu'r Bil.

Yn dilyn fy mhresenoldeb mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ym mis Rhagfyr, ysgrifennodd y Pwyllgor ataf yn cwestiynu hepgoriad yn y Datganiad o Fwriad Polisi. Mewn ymateb i'r ymholiad hwn gofynnais i'm swyddogion ddiweddarau'r datganiad ac mae'r fersiwn ddiwygiedig wedi'i chynnwys gyda'r llythyr hwn. Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon hefyd yn cywiro dau fân wall.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch eto i'r Pwyllgor am y mewnbwn gwerthfawr i'r Bil.

Yn gywir

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

- 1. Mae Cyngor y Deoniaid wedi gofyn am eglurder pellach ynghylch a fydd y Comisiwn yn ariannu rhaglenni gofal iechyd cyn cofrestru a sut y bydd hyn yn cysylltu â chyllid gan GIG Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y bydd y Comisiwn yn ariannu ymchwil gofal iechyd yng Nghymru; a sut y bydd rhaglenni prentisiaeth broffesiynol gofal iechyd cyn cofrestru yn cael eu hariannu**
 - 1.1 Mae'r rhain yn faterion i'r Comisiwn ei hun benderfynu arnynt unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Ar hyn o bryd, gwneir y buddsoddiad cyhoeddus mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant gofal iechyd drwy amrywiaeth o raglenni a ffrydiau cyllido gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru, Bwrsariaethau'r GIG, ffioedd dysgu myfyrwyr ynghyd â chyllid addysgu CCAUC. Mater i'r Comisiwn fydd penderfynu a yw'n parhau â system bresennol CCAUC ai peidio neu'n mabwysiadu dull gweithredu gwahanol.
- 2. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi mynegi pryderon ynghylch y ddarpariaeth dysgu gydol oes yn cael ei fframio'n benodol o ran addysg bellach yn y Bil. Mae'r Brifysgol yn gofyn am eglurder ar y pwynt hwn, gan nodi: "We do not believe that it is the Welsh Government's intention to limit these funding mechanisms to further education providers but would welcome clarification that our understanding is correct"**
 - 2.1 Mae Adran 2 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hyrwyddo dysgu gydol oes ar draws yr holl addysg drydyddol. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes ar amrywiaeth o lefelau, pynciau, lleoliadau a dulliau astudio.
 - 2.2 Rydym wedi ymrwymo i fanteision ehangu cyfleoedd dysgu gydol oes ymhellach ar draws addysg bellach ac uwch. Roedd y diwygiadau i gyllid myfyrwyr a chyllid CCAUC yn dilyn Adolygiad Diamond yn galluogi ehangu cyfleoedd dysgu gydol oes mewn addysg uwch yn sylweddol. Mae nifer y myfyrwyr yn y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi mwy na dyblu rhwng 2017/18 a 2020/21.
 - 2.3 Er y bydd cyllid myfyrwyr yn parhau i fod yn fater i Weinidogion Cymru ar ôl sefydlu'r Comisiwn, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd y caiff y Comisiwn wneud trefniadau grant ar gyfer cyrsiau rhan-amser addysg uwch sy'n debyg i'r trefniadau presennol sydd gan CCAUC, yn amodol ar ddarpariaethau adrannau 85 i 89 (a darpariaethau perthnasol eraill) o'r Bil; mae gennym ddiddordeb ym marn y sector o ran pa gamau pellach y gellir eu cymryd i hwyluso dysgu gydol oes mewn addysg uwch.
 - 2.4 Felly, mae'r ddyletswydd newydd yn Adran 91 o'r Bil - sy'n darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant perthnasol i oedolion cymwys dros 19 oed – ond yn un o sawl ffordd yr ydym yn disgwyl i'r Comisiwn newydd fwrw ymlaen â'n hymrwymiad i ddysgu gydol oes.

3. Mae Grŵp NPTC wedi gofyn am eglurder ynghylch effaith S67 ac S68 yn y Bil. Maent yn nodi: “Mae angen eglurder pellach hefyd ynglŷn â sut mae hyn yn rhyngweithio ochr yn ochr â rôl LIC fel Prif Reoleiddiwr y sefydliadau AB fel elusennau eithriedig”

3.1 Nid yw'r Bil yn effeithio ar y rhyngwyneb rhwng pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a'u rôl fel Prif Reoleiddiwr at ddibenion elusennol. O dan y trefniadau presennol, mae adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (Deddf 1992) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd wrth gynnal sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Bydd y Bil yn diddymu'r pwerau yn Neddf 1992 ac yn eu hailddatgan yn fras o dan adrannau 67 a 68. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cyflawni rôl Prif Reoleiddiwr ar gyfer corfforaethau addysg bellach yng Nghymru (a sefydliadau a weinyddir gan neu mewn cysylltiad â hwy), ac ar gyfer Coleg Catholig Dewi Sant (a sefydliadau a weinyddir gan neu mewn cysylltiad ag ef) fel elusennau esempt (a eithrir yn rhinwedd adran 22 a pharagraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Elusennau 2011 ("Deddf 2011")). Diffinnir "Prif Reoleiddiwr" yn adran 25 o Ddeddf 2011, ac fe wnaeth rheoliadau a wnaed gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet yn 2013 benodi Gweinidogion Cymru i'r rôl mewn perthynas ag elusennau esempt yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Nid yw'r Bil yn newid y trefniadau hyn.

3.2 Fodd bynnag, efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu adolygu rôl y Prif Reoleiddiwr wrth symud ymlaen, yn amodol ar basio'r Bil yn llwyddiannus a sefydlu'r Comisiwn. Yn benodol, bydd yn ystyried a fyddai'n fwy priodol i'r Comisiwn gyflawni'r rôl hon oherwydd ei gyfrifoldeb am reoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n sefydliadau yn y sector addysg bellach. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â'r holl rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o'i hystyriaeth o'r mater hwn. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw benodiad i rôl y Prif Reoleiddiwr fod drwy reoliadau a wneir gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet.

4. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi: “it is unclear how and whether the EIA relates to the breadth of the Bill and the scope of its measures”. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn gallu egluro'r pwynt hwn i'r Comisiwn

4.1 Mewn ymateb i'r sylwadau a godwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, hoffwn gadarnhau y bydd y Comisiwn, ar ôl ei sefydlu, yn gorff rhestredig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

4.2 Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried tystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn benodol ac wedyn ystyried yr hyn y mae angen i ni ei wneud i wella'r ddogfen er mwyn sicrhau ein bod wedi dangos yn gyhoeddus ein hasesiad trylwyr o effeithiau'r polisi. Yn dilyn yr asesiad hwnnw ac, os yn briodol, unrhyw ymchwiliadau ychwanegol, byddaf yn ail-gyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb diwygiedig cyn Cyfnod 2.

4.3 Cafwyd trafodaethau rheolaidd â rhanddeiliaid ers i'r polisi gael ei ystyried am y tro cyntaf ac mae'r trafodaethau hynny'n parhau, a gellir diweddarau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i adlewyrchu ehangder a chwmpas yr ymgysylltu hwnnw yn yr ymgynghoriadau amrywiol a'r digwyddiadau llais y dysgwr ac yn y rhyngweithio o ddydd i ddydd â rhanddeiliaid a grwpiau myfyrwyr.

5. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi gofyn am eglurder ar y pwynt a ganlyn: “Under clause 25(4)(b)(i) of the Bill, the Welsh Ministers may, by regulation, specify further initial registration conditions relating to the charitable or other status of tertiary education providers. It would be helpful to have clarity as to what conditions may be imposed in practice”

5.1 Mae adran 25(3) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i bennu amodau cofrestru cychwynnol pellach yn ychwanegol at y rhai a nodir ar wyneb y Bil. Gellir pennu amodau gwahanol ar gyfer gwahanol gategoriâu cofrestru. Mae'r rhestr a ddarperir yn adran 25(4)(b) yn nodi'r math o amodau y caniateir eu pennu mewn rheoliadau o'r fath sy'n cynnwys:

- statws elusennol neu statws arall darparwyr addysg drydyddol;
- yr wybodaeth a roddir i ddarpar fyfyrwyr am ddarparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau gyda myfyrwyr;
- gweithdrefnau cwyno darparwyr.

5.2 Nid yw'r enghreifftiau uchod yn gynhwysfawr. Yn ogystal, efallai na fydd yr holl faterion uchod yn amodau cofrestru cychwynnol priodol ar gyfer pob un o'r categorïau ar y gofrestr arfaethedig.

5.3 Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi bwriadau polisi cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Ar hyn o bryd, bwriedir i'r categorïau cofrestru sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 23(2) o'r Bil gael eu llywio gan ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Y cynnig polisi presennol yw rhagnodi dau gategori cofrestru sef:

- **Darparwyr Addysg Uwch (Craidd)** – Y bwriad yw y byddai cyrsiau addysg uwch darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru ar lefel ffioedd uwch, sef £9000 y flwyddyn ar hyn o bryd. Caiff rheoliadau cymorth myfyrwyr eu gwneud o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Byddai darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn ddarostyngedig i amod cofrestru terfyn ffioedd a byddent hefyd yn gymwys i dderbyn cyllid grant addysg uwch gan y Comisiwn.
- **Darparwyr Addysg Uwch (Amgen)** – Y bwriad yw y byddai cyrsiau addysg uwch darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru ar y lefel ffioedd is, sef £6165 y flwyddyn ar hyn o bryd. Ni fyddai darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd ac ni fyddent yn gymwys i dderbyn cyllid grant addysg uwch gan y Comisiwn.

5.4 Ar hyn o bryd, bwriedir i reoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 25(3) o'r Bil ddarparu amod cofrestru cychwynnol pellach ar gyfer y categori cofrestru "Craidd" arfaethedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fod yn elusen. Byddai hyn yn gyson â Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015"), sy'n darparu bod yn rhaid i "sefydliad rheoleiddiedig" (sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad cymeradwy) fod yn elusen (ymysg pethau eraill). Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar ei chynigion polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth maes o law.

6. Mae Prifysgolion Cymru yn gofyn am eglurder ynghylch pam y mae'n ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i nodwedd nodedig darparwyr wrth ariannu o dan rai penawdau ond nid eraill, er enghraifft wrth ariannu ymchwil ac arloesi

6.1 Mae hwn yn faes lle'r wyf yn ystyried cyflwyno gwelliant gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb yn y Bil mewn perthynas â dyletswydd y Comisiwn i roi sylw i 'nodweddarbennig' darparwyr wrth gyllido ymchwil ac arloesi.

O ran Anghenion Dysgu Ychwanegol:

7. Mae'r Comisiynydd Plant wedi gofyn am ragor o fanylion a fyddai'n cefnogi'r Comisiwn i gyflawni'r gweithgaredd a restrir ym mharagraff 3.276 o'r Memorandwm Esboniadol yn fwy effeithiol mewn perthynas â dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

7.1 Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau cyfleusterau priodol a rhesymol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant dysgwyr yng Nghymru ac i gyllido darpariaeth o'r fath gan gynnwys cyllid i ddiwallu anghenion pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Wrth ddarparu cyllid i sicrhau cyfleusterau o'r fath, rhaid iddo ystyried a yw anghenion pobl ag ADY yn cael eu diwallu. Wrth gefnogi dysgwyr ag ADY, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i'r canlynol:

- **gwahanol alluoedd a doniau gwahanol bersonau** – mae hyn yn cynnwys y dysgwyr hynny sydd ag ADY;
- **yr addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen** i sicrhau:
 - bod gweithwyr a darpar weithwyr ar gael sy'n gallu darparu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg; a
 - bod cyfleusterau ar gael i'w hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg p'un a oes gan bobl ADY
- **cyfleusterau y mae'r Comisiwn o'r farn y gallai fod yn rhesymol i bersonau eraill eu darparu** gan gynnwys darpariaeth a sicrhawyd gan awdurdodau lleol o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY 2018);
- anghenion pobl ag anghenion dysgu ychwanegol; a
- dymunoldeb bod cyfleusterau ar gael a fyddai'n helpu i gyflawni dyletswyddau o dan y Ddeddf ADY 2018.

7.2 Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried anghenion addysg bellach a hyfforddiant y gweithlu ADY. Yn benodol, y gallu i gynnal asesiadau a darparu cymorth anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu cynnwys ystyriaeth o ADY ym mhenderfyniadau cynllunio a chyllido'r Comisiwn ar gyfer addysg bellach o'r cychwyn cyntaf yn hytrach nag ar ôl i benderfyniadau cyllido eraill gael eu gwneud. Wrth ddarparu cyllid, bydd y Comisiwn yn gallu gosod telerau ac amodau ar ei gyfer gan gynnwys gofynion rheoliadol mewn perthynas ag anghenion personau ag ADY.

- 7.3 Mater i'r Comisiwn fydd penderfynu ar ddyraniadau cyllid ac wrth wneud hynny bydd angen iddo roi sylw i gyflawni'r amcanion yn ei gynllun strategol cymeradwy a chydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn eu gosod ar eu cyllid i'r Comisiwn.
- 8. Mae Natspec yn gofyn sut y bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fod yn atebol am ddiwallu anghenion myfyrwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol; ac yn tynnu sylw'r Pwyllgor at yr angen i sicrhau nad yw pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cymhleth y mae angen lleoliad arnynt mewn coleg addysg bellach arbenigol yn cael eu heithrio o'r mesurau diogelu a gynigir gan y Comisiwn. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am y pwyntiau hyn**
- 8.1 Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu cymorth ar gyfer ADY dysgwyr unigol a'r gofynion statudol a osodir ar awdurdodau lleol wedi'u nodi'n glir yn Neddf ADY 2018. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY tra eu bod yn yr ysgol ac, os ydynt yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, tra eu bod mewn addysg bellach. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i gyllido darpariaeth ar gyfer ADY ar lefel poblogaeth ond nid yw'n ofynnol iddo gyllido'r holl ddarpariaeth ADY ar gyfer dysgwyr ôl-16. Byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol o dan Ddeddf ADY 2018 am sicrhau darpariaeth ADY arbenigol ar gyfer unigolion rhwng 16 a 25 oed sydd ag anghenion cymhleth mewn colegau arbenigol preifat lle mae'n ofynnol iddynt gynnal Cynlluniau Datblygu Unigol ar eu cyfer. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ystyried a gwneud trefniadau i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol yn yr amgylchiadau hyn ar lefel leol.
- 8.2 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eto fanylion am sut a phryd y bydd y broses o weithredu'r Ddeddf ADY yn dechrau ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed, gan gynnwys sut a phryd y bydd y cyfrifoldeb a'r cyllid ar gyfer sicrhau darpariaeth arbenigol ôl-16 yn cael eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol.
- 8.3 Mae'r Bil yn cyfeirio'n benodol at ddarpariaeth a sicrhawyd gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf ADY 2018 yng nghyd-destun y Comisiwn gan ystyried y cyfleusterau y gellid eu sicrhau gan eraill. Bydd y Comisiwn yn asesu digonolrwydd y cyfleusterau ar gyfer darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol ac nid ar sail dysgwyr unigol. Byddwn yn ystyried y Bil a'r dogfennau ategol i ganfod a oes angen unrhyw ddiwygiadau i egluro ymhellach y sefyllfa mewn perthynas â sefydliadau anghenion dysgu ychwanegol arbenigol neu'r gofynion a'r cysylltiad â Deddf ADY 2018.
- 9. Mae Estyn wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo nad yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn glir am rôl y Comisiwn o ran ariannu dysgwyr ag anghenion dwys ac Anghenion Dysgu Ychwanegol i gael darpariaeth briodol. Maent yn gofyn am eglurder ynghylch pam neu sut y gellid ariannu dysgwyr ag anghenion dwys yn wahanol yn ôl y math o ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt, ac y gallent fod â phrofiadau ansawdd gwahanol yn ôl pa ddarparwr maent yn ei ddefnyddio**
- 9.1 Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, mae gan y Comisiwn ddyletswydd i gyllido darpariaeth ar gyfer ADY ar lefel poblogaeth, ond nid yw'n ofynnol iddo gyllido darpariaeth arbenigol a nodwyd ar gyfer dysgwyr unigol ag anghenion lefel uchel neu gymhleth.
- 9.2 Mae Deddf ADY 2018 yn cael ei gweithredu fesul cam ar hyn o bryd ar gyfer carfanau penodol o blant a phobl ifanc. Unwaith y bydd y Ddeddf yn cychwyn ar gyfer carfan benodol, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan y Ddeddf i ystyried anghenion y

bobl ifanc hynny. Lle na ellir diwallu anghenion person ifanc drwy ddarpariaeth brif ffrwd, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth arbenigol fel y bo'n briodol ac yn unol â'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol i gynnal Cynlluniau Datblygu Unigol.

- 9.3 Ochr yn ochr ag arolygu darpariaeth ôl-16, gan gynnwys ADY, mewn ysgolion prif ffrwd a cholegau addysg bellach, mae gan Estyn gyfrifoldeb statudol i arolygu darpariaeth mewn colegau addysg bellach arbenigol annibynnol. Mae'n ofynnol i'r Prif Arolygydd arolygu ac adrodd ar ansawdd yr addysg bellach a'r hyfforddiant sy'n cael eu darparu, y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i golegau arbenigol i gefnogi anghenion dysgwyr yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn rhoi gwerth am arian.
- 9.4 O dan y trefniadau ADY newydd, disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried canlyniadau arolygon Estyn o golegau arbenigol annibynnol wrth wneud trefniadau ar gyfer anghenion cymhleth dysgwyr unigol.

Ar ôl trafod y dystiolaeth, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am:

10. Eich barn ar ddatblygu'r corff strategol cenedlaethol ar gyfer addysg i oedolion yn y gymuned

- 10.1 Mae ystyriaethau polisi wedi symud ymlaen ers i gorff cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion gael ei ystyried yn 2019, gyda chyflwyniad y Bil. Fel yr ydym wedi'i drafod, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gynllunio a chyllido ar draws y sector gan gynnwys dysgu oedolion a dysgu gydol oes.
- 10.2 Er mwyn cefnogi fy ymrwymiad i gynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu yng Nghymru, rwyf wedi cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer Grŵp Cyfeirio Allanol i ddatblygu rhaglen o gydgysylltu cenedlaethol gyda rhanddeiliaid allweddol o'r sector. Rwy'n disgwyl cael amlinelliad o'r rhaglen ym mis Mawrth a byddaf yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor am hyn unwaith y byddaf wedi'i ystyried.

11. Sut y bydd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio i ddysgwyr yn ymarferol a sut y bydd y Bil hwn yn rhyngweithio â darnau eraill o ddeddfwriaeth berthnasol megis Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018

- 11.1 Mae'r gofynion statudol ar sut y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY yn gweithio'n ymarferol wedi'i nodi yn Neddf ADY 2018 ac yn y rheoliadau ategol, y canllawiau a'r Cod. Wrth ddrafftio'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil rydym wedi edrych yn fanwl ar y rhyngwyneb rhwng Deddf ADY 2018 a swyddogaethau cynllunio a chyllido'r Comisiwn gan gydnabod pwysigrwydd diwallu anghenion dysgwyr ag ADY o safbwynt polisi.

12. Pam rydych chi'n credu y dylai'r chweched dosbarth gael ei gynnwys yng nghylch gwaith y Comisiwn, ac os felly, eglurder ynghylch pam nad yw rhai o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag diogelu dysgwyr a llais dysgwyr yn cwmpasu'r chweched dosbarth

Cylch Gwaith y Comisiwn

- 12.1 Rydym wedi gwneud penderfyniad ystyriol a chytbwys i gynnwys chweched dosbarth ysgolion a gynhelir yng nghylch gwaith y Comisiwn a chredwn y bydd hyn galluogi'r Comisiwn i gael goruchwyliaeth glir, strategol o'r holl ddarpariaeth ôl-16 er mwyn llywio polisi ar y meysydd hynny sy'n effeithio ar ddysgwyr 16-19 oed lle bynnag y maent yn dewis dysgu, astudio neu hyfforddi. Credaf fod y dull hwn yn ein galluogi i barhau i ddarparu model economi gymysg o ddarpariaeth 16-19 ledled Cymru sy'n cynnig amrywiaeth o ddewis i ddysgwyr, gan sicrhau parch cydradd a statws cyfartal i gymwysterau academaidd a galwedigaethol a gwerthfawrogi manteision a rhinweddau'r gwahanol ddarpariaeth sydd ar gael. Mae'n cynnig cyfle unigryw i fabwysiadu dull cydlynol o gynllunio a chyllido darpariaeth 16-19 a monitro'r ddarpariaeth, argaeledd ac ansawdd cyrsiau, tra'n hwyluso cydweithredu a gwella hygyrchedd.
- 12.2 Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi na fydd y darpariaethau yn y Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar awdurdodau lleol nac ysgolion yn eu trefniadaeth o ddydd i ddydd, nac yn diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu ysgolion yn lleol. Mae'r rhain yn parhau fel y maent ar hyn o bryd i sicrhau bod strwythur ehangach yr ysgol yn cael ei gynnal.

Darpariaethau'n ymwneud â diogelu dysgwyr, llais y dysgwr a gweithdrefnau cwyno

- 12.3 Nod Cod Ymgysylltu â Dysgwyr gorfodol yw cydnabod a chryfhau'r trefniadau presennol sydd ar waith ar draws y sector ôl-16 a monitro cydymffurfedd â'r Cod a sicrhau bod lleisiau dysgwyr yn cael eu clywed beth bynnag fo'u cwrs, lleoliad, lefel a dull astudio. Bydd yn orfodol i chweched dosbarth ysgolion gael Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ar waith i sicrhau bod ein holl ddysgwyr ifanc yn cael eu cynrychioli'n deg ac yn gyson. Bydd y Cod yn ategu'r trefniadau presennol sydd ar waith ar lefel yr ysgol, gan gynnwys trefniadau'r cyngor ysgol.
- 12.4 Rydym yn ceisio osgoi dyblygu a sicrhau nad ydym yn rhoi baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion ac awdurdodau lleol wrth reoli trefniadau gwahanol ar gyfer dysgwyr cyn 16 oed ac ôl-16 mewn lleoliad ysgol a gynhelir. Ein bwriad hefyd yw osgoi dryswch posibl i ddysgwyr a'u rhieni a allai godi o ganlyniad i wahanol weithdrefnau mewn ysgolion ar gyfer diogelu dysgwyr a chwynion. Felly, ac eithrio gwneud y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn orfodol ar gyfer chweched dosbarth ysgolion, nid ydym wedi ymestyn y darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil yn ymwneud â cynlluniau diogelu dysgwyr a gweithdrefnau cwyno i ysgolion a gynhelir.
- 12.5 Bydd cynllun diogelu dysgwyr yn nodi trefniadau darparwr addysg drydyddol ar gyfer diogelu buddiannau dysgwr os bydd ei gwrs yn peidio â chael ei ddarparu ac ar gyfer cefnogi dysgwr sy'n dymuno trosglwyddo i gwrs arall. Byddai cynlluniau diogelu dysgwyr mewn fformat sy'n briodol i'r darparwr unigol a'i strwythurau. Mae cymorth a threfniadau ar gyfer diogelu dysgwyr eisoes wedi'u hen sefydlu ar lefel ysgol ac ar lefel awdurdod lleol ar gyfer trosglwyddo data am ddysgwyr pan fyddant yn symud o un

lleoliad i'r llall, boed hynny oherwydd cau ysgol neu gwrs, newid mewn amgylchiadau personol neu ddymuniad dysgwr.

- 12.6 Er bod trefniadau cwyno cadarn, sydd wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth, eisoes ar waith mewn ysgolion, rwyf o'r farn y byddai'n fuddiol i'r Comisiwn ehangu'r ymgynghori ag awdurdodau lleol a chweched dosbarth ysgolion mewn perthynas â dysgwyr 16-19 oed i annog mwy o gyfranogiad yn y gwaith o ddarparu a sicrhau ansawdd eu profiad dysgu ac i rannu arfer da.
- 12.7 Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu drwy reoliadau sefydliad cofrestredig, ac eithrio sefydliad cofrestredig sy'n cael adnoddau ariannol gan y Comisiwn, fel sefydliad cymwys at ddibenion y cynllun cwynion myfyrwyr a weithredir ar hyn o bryd gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.
- 12.8 Bwriedir i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn neu sy'n cael arian gan y Comisiwn, at ddiben addysg uwch, addysg bellach neu brentisiaethau, gael eu pennu fel sefydliadau cymwys at ddibenion cynllun cwynion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Cydnabyddir bod yr holl ddarparwyr addysg uwch a rhai darparwyr addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch yn sefydliadau cymwys ar hyn o bryd, a lle mae darparwyr addysg bellach eisoes yn aelodau o'r cynllun rhagwelir y bydd mynediad i'r cynllun yn cael ei ymestyn i'w dysgwyr addysg bellach.
- 12.9 Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu bod awdurdodau lleol yn ddarparwyr cymwys mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth ysgolion a gynhelir ac na fyddant yn rhan o gynllun Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.
- 12.10 Bydd y dull cytbwys, cymesur ac ymarferol hwn yn galluogi'r Comisiwn i gefnogi buddiannau dysgwyr gan sicrhau bod llais y dysgwr yn ganolog i'r diwygiadau ac yn egwyddor sylfaenol sy'n berthnasol i bob darpariaeth ôl-16.

13. Gwybodaeth gymharol am gyfansoddiad a'r gwahanol fathau o aelodaeth Bwrdd mewn sefydliadau tebyg i'r Comisiwn

- 13.1 Mae Awdurdod Cyllid Cymru, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg a'r Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i gyd wedi'u sefydlu drwy statud, gyda Bwrdd neu Gyngor yn gwneud y penderfyniadau allweddol.

Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Mae fframwaith statudol y Corff, fel y'i nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, yn darparu ar gyfer penodi un aelod cyswllt nad yw'n pleidleisio sy'n aelod o staff y Corff, ac yn aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan y Corff.

Awdurdod Cyllid Cymru

- Mae Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnwys:
 - un neu ddau aelod o staff a benodwyd i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr;
 - un aelod o staff a benodwyd i'r Bwrdd yn dilyn pleidlais gan aelodau staff
 - nid oes gofyniad yn y ddeddfwriaeth i aelodau staff fod yn aelodau o undebau llafur cydnabyddedig

Cymwysterau Cymru

- Mae bwrdd Cymwysterau Cymru yn cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac wyth i ddeg aelod cyffredin. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynrychioli staff, undebau llafur na phartïon allweddol eraill â diddordeb ar y Bwrdd.

Cyngor y Gweithlu Addysg

- Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cynnwys 14 o aelodau gyda phob un wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru.
- O ran saith o'r aelodau, rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am enwebiadau gan y cyrff isod a phenodi'r aelodau hynny o'r enwebiadau a dderbyniwyd. Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn belled ag y bo modd, sicrhau bod pedwar o'r aelodau o enwebiadau a wnaed gan y cyrff a restrir yn y golofn chwith.

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol. Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri. Undeb yr Athrawon Benywaidd (Cymru). Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau. Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon. Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yng Nghymru. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru. Undeb y Prifysgolion a'r Colegau. UNSAIN. GMB. Undeb Unite. Grŵp Aspect Undeb Prospect. TUC Cymru.	Colegau Cymru. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cydffederasiwn Cymdeithasau Llywodraethwyr Ysgolion Cymru. Yr Eglwys yng Nghymru. Y Gwasanaeth Addysg Gatholig. Addysg Uwch Cymru. Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon. Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru. Cymdeithas CYSAGau Cymru. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ffederasiwn y Busnesau Bach. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol. Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid Cymru. Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru Cyf. Safonau Hyfforddiant Addysg Cymru
--	---

14. Rhagor o wybodaeth am y safbwynt diweddaraf ar y pŵer i ddiddymu Corfforaethau Addysg Uwch

- 14.1 Fel yr eglurais pan oeddwn yn bresennol yn y Pwyllgor y mis diwethaf, fy mwriad yw cyflwyno gwelliant mewn perthynas â'r pŵer i ddiddymu Corfforaethau Addysg Uwch ac mae gwaith yn parhau yn hyn o beth.

15. Rhagor o wybodaeth am y materion sy'n codi o'r ddeiseb ar y fwrariaeth STEMM ôl-raddedig

- 15.1 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn gyllidio categorïau penodol o ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn, er mwyn cefnogi addysg uwch a ddarperir gan neu ar ran darparwyr o'r fath.
- 15.2 Pennir y categorïau o ddarparwyr cofrestredig sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn mewn rheoliadau. Bydd y gofrestr yn sicrhau bod materion sydd o ddiddordeb hanfodol i'r cyhoedd yn cael eu monitro mewn sefydliadau addysg drydyddol a bod amddiffyniadau priodol ar gyfer arian cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr a grantiau a wneir gan y Comisiwn.
- 15.3 Bwriedir i'r manteision sy'n deillio o gofrestru fod yn gymesur â'r gofynion rheoliadol. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi fy mwriad i ddarparwyr sy'n cofrestru yn y categori "craidd" arfaethedig fod yn gymwys i dderbyn cyllid addysg uwch gan y Comisiwn.
- 15.4 Mater i ddarparwyr unigol fydd penderfynu a ddylid ceisio cofrestru gyda'r Comisiwn ac ystyried pa gategori cofrestru y maent am wneud cais amdano.
- 15.5 Ein bwriad polisi presennol yw y bydd angen i ddarparwyr yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru neu sy'n dymuno gwneud cais ar gyfer cyllid grant addysg uwch ac ymchwil, gofrestru gyda'r Comisiwn i gael mynediad at y ffynonellau cyllid hyn.

16. Rhagor o wybodaeth am sut y gall y Bil gefnogi rhyddid academiaidd i academyddion unigol, yn hytrach na'r amddiffyniadau ehangach yn y Bil ar gyfer rhyddid academiaidd sefydliadol

- 16.1 Mae Adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil, roi sylw i'r angen i sicrhau bod gan staff academiaidd mewn darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ryddid academiaidd o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi doethineb cyffredin, ac i gyflwyno syniadau newydd a lleisio barn ddadleuol neu amhoblogaidd, heb roi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu unrhyw freintiau sydd ganddynt.
- 16.2 Mae dyletswydd hefyd ar y rhai sy'n ymwneud â llywodraethu sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru (ac mewn rhai sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn Lloegr) i "gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol" i sicrhau bod rhyddid i lefaru yn cael ei sicrhau i aelodau, staff, myfyrwyr a siaradwyr gwadd, o dan adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986.
- 16.3 Rydym yn credu'n gryf mewn egwyddorion rhyddid academiaidd a rhyddid i lefaru ar draws y system addysg ac yn eu cefnogi, ac yn gyffredinol rydym yn sicr bod egwyddorion o'r fath yn cael eu cynnal yn dda yn ein prifysgolion a'n colegau. Mae Adran 16 o'r Bil yn tanlinellu ac yn ailddatgan yr ymrwymiad hwn.

17. Rhagor o wybodaeth am sut y bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Comisiwn a chyrrff cysylltiedig eraill yn cydweithio mewn perthynas â'u rolau mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg

17.1 Bydd y ddarpariaeth sydd wedi'i gynnwys yn y Bil yn galluogi'r Comisiwn i gael yr hyblygrwydd i weithio'n arloesol ac yn effeithiol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chyrrff perthnasol eraill fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i gefnogi datblygiad addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Mae gan y Coleg a'r Ganolfan Genedlaethol rolau pwysig a phenodol i'w chwarae wrth gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, gan gefnogi datblygiad addysg drydyddol Cymraeg a chaffael iaith. Mae Rhaglen Waith Cymraeg 2050 o 2021 i 2026 yn cynnwys ymrwymiad i ehangu rôl y Coleg ymhellach a datblygu cynigion i'w roi ar sail statudol.

17.2 Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gynllunio a chyllido strategol ar draws y sector addysg drydyddol cyfan a'r sector ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Bydd yn hanfodol i'r Comisiwn ymgysylltu â'r Coleg a defnyddio arbenigedd sefydledig y Coleg i gynllunio'n strategol i hyrwyddo a chynyddu'n gadarnhaol addysg drydyddol Gymraeg, fel y nodir yn y memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Y disgwyliad yw y bydd y cyfrifoldebau ar gyfer meysydd gwaith yn cael eu pennu ar sail cylch gwaith ac arbenigedd priodol pob sefydliad er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion a sicrhau bod ymyriadau'n cael yr effaith fwyaf bosibl. Rhagwelir y bydd dogfennau cynllunio strategol yn cael eu halinio lle bo'n briodol a dylid rhoi trefniadau cadarn ar waith i fesur effaith ymyriadau ar gynyddu cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol.

17.3 Bydd rhagor o fanylion am y berthynas a ragwelir rhwng y Comisiwn a'r Coleg yn cael eu cynnwys yn ein cynllun gweithredu. Bydd y Comisiwn a'r Coleg yn penderfynu ar y ffordd orau o gyflawni eu swyddogaethau. Dylid nodi bod y Coleg wedi datblygu perthynas waith effeithiol â CCAUC dros nifer o flynyddoedd sydd wedi'i chodeiddio mewn memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

18. A roddwyd cydsyniad ar gyfer adran 128

18.1 Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cael cydsyniad cyn hir.



Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth, pwerau gwneud cyfarwyddyd a chanllawiau

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r pwerau Gweinidogion Cymru ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, y pwerau gwneud cyfarwyddyd a'r canllawiau sydd wedi'i hamlinellu yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 1 Tachwedd 2021.

Mae'r papur yn egluro pam y dewiswyd y pwerau hyn a'r polisi cyfredol y llywodraeth ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn. Mae'r cyfiawnhad dros weithdrefn y Senedd a ddewiswyd wedi'i nodi yn nhablau 5.1 a 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol.

Bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yn y sector addysg drydyddol. Bwriad y ddogfen hon yw rhoi cyfle cychwynnol i randdeiliaid gynnig adborth ar y defnydd arfaethedig o'r pwerau hyn er mwyn sicrhau polisi cadarn ac effeithiol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil fel y nodir isod ac maent yn fodlon eu bod yn angenrheidiol ac yn gyfiawn.

Trosolwg o'r Bil

Mae'r Bil yn cynnwys 7 Rhan a 4 Atodlen.

- Mae Rhan 1 yn sefydlu corff cyhoeddus Cymreig hyd braich newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"), yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn amlinellu'r dyletswyddau strategol
- Mae Rhan 2 yn amlinellu swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn o ran cofrestr o Ddarparwyr Addysg Drydyddol, gweithdrefn gofrestru ar gyfer Darparwyr Addysg Drydyddol, fframweithiau sicrhau ansawdd
- Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ariannu'r Comisiwn ac i'r Comisiwn i ariannu addysg drydyddol ac ymchwil.
- Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â Phrentisiaethau Cymru
- Mae Rhan 5 yn cynnwys y darpariaethau ar gyfer diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr
- Mae Rhan 6 yn cynnwys dyletswyddau a phwerau'r Comisiwn o ran gwybodaeth a data
- Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau amrywiol, gan gynnwys darpariaethau'n ymwneud â diddymu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru.

Pwerau a etifeddwyd o ddeddfwriaeth gyfredol

Mae'r Bil yn cynnwys 20 o bwerau gwneud rheoliadau a etifeddwyd i raddau helaeth o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Mae'r pwerau hyn yn seiliedig yn bennaf ar ddarpariaethau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, gyda rhywfaint o addasiadau.

Maes polisi	Adran o'r Bil	Deddfwriaeth gyfredol
Ffioedd, cyrsiau cymhwysol a phersonau cymhwysol	30(6)	Adran 5(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
	30(8)(b)	Adran 5(5) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
	30(10)	Adran 5(9) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
	44(6)	Adran 5(3) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
	82	Adran 57(1) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
Sicrhau ansawdd mewn addysg uwch	52(8)	Adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
Arolygu addysg bellach a hyfforddiant	55(1)(f)	Adran 75(1)(e) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000
	55(4)	Adran 77(2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000
	59(1)	Adran 76(3) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000
	61(9)	Adran 83(7) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000
Adolygu rheoliadau a phenderfyniadau	77(3)	Adran 44(3) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill	81(4)	Adran 3(4) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
Llywodraethu AU	133(2)	Paragraff 2 i 11 o Atodlen 7A i Ddeddf Diwygio Addysg 1988
	134(2)	Adran 125(2) i (4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988

Tudalen y pecyn 129

Pwerau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer arfer darpariaethau cyfarwyddyd a chanllawiau gan y Comisiwn. Nodir diben ac effaith arfaethedig y darpariaethau hyn yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Nid yw'r pwerau hyn wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn o fwriad polisi gan mai mater i'r Comisiwn yw sut y cânt eu harfer.

Dogfennaeth arall

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil;
- Nodiadau Esboniadol i'r Bil;
- Memorandwm Esboniadol i'r Bil, yn enwedig penodau 3 a 5.

Canllawiau a chyfarwyddau cyffredinol i'r Comisiwn

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
18	Canllawiau	Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.	Dim gweithdrefn
19	Cyfarwyddyd	Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.	Dim gweithdrefn

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 18 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer ei swyddogaethau (h.y. pwerau a dyletswyddau) a roddir gan y Bil, neu gan Reoliadau a wneir oddi tano.

Mae adran 19 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ynghylch cyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, yn amodol ar gyfyngiadau penodol i ddiogelu awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil, rhyddid academaidd darparwyr addysg uwch a gallu'r Comisiwn i benderfynu ar ddyraniadau cyllid i ddarparwyr unigol. Nid yw'r cyfyngiadau'n atal unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan yr adran hon rhag cael ei lunio drwy gyfeirio at gwrs astudio, neu rannau o gyrsiau astudio, yn cael eu darparu a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn cyhoeddi cyfarwyddyd cyffredinol o dan y pwerau hyn. Mae hefyd yn ofynnol iddynt adolygu unrhyw gyfarwyddyd cyffredinol a roddir i'r Comisiwn. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd cyffredinol a roddir i'r Comisiwn o dan yr adran hon a rhoi gwybod i'r Senedd am unrhyw gyfarwyddydau o'r fath a gosod copi o'r cyfarwyddyd gerbron y Senedd.

Mae hyn yn barhad o bŵer sy'n bodoli eisoes lle gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol i CCAUC ynghylch arfer ei swyddogaethau.

Diben a bwriad y polisi

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer canllawiau yn bŵer cyffredinol sydd ei angen fel bod Gweinidogion Cymru'n gallu cyhoeddi canllawiau perthnasol pan fo angen.

Mae angen y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru, pe bai angen, yn gallu cyfarwyddo'r Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau.

Er enghraifft, efallai y bydd Gweinidogion Cymru am gyfarwyddo'r Comisiwn i gynllunio ar gyfer darparu math penodol o addysg, megis darpariaeth rhan-amser neu ddysgu o bell, neu mewn perthynas â maes addysg eang, megis pynciau STEM. Yn ogystal, mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at yr angen i ystyried yr amgylchiadau lle y gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd camau amserol a phenodol i ddelio â digwyddiadau sydd â goblygiadau sylweddol i addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Swyddogaethau ychwanegol y Comisiwn

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
20(1)	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn.	Cadarnhaol
20(4) a (5)	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y gall eu swyddogaethau mewn perthynas â thir neu eiddo arall sefydliad addysg uwch neu addysg bellach yng Nghymru, gael eu harfer gan y Comisiwn pan fo gan Weinidogion Cymru hawl i gael hawl neu fuddiant mewn perthynas â'r eiddo hwnnw	Dim gweithdrefn

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 20 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn. Rhaid i swyddogaeth atodol a roddir i'r Comisiwn o dan y pwerau hyn fod yn swyddogaeth sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â darparu, neu ddarpariaeth arfaethedig addysg drydyddol, neu i gyflawni, neu'r bwriad i gyflawni ymchwil ac arloesi. Mae'r pŵer i roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn yn barhad o'r trefniadau presennol sydd ar waith i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau atodol i CCAUC o dan adran 69(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y gall eu swyddogaethau mewn perthynas â thir neu eiddo arall sefydliad yng Nghymru o fewn y sector addysg uwch neu addysg bellach, gael eu harfer gan y Comisiwn pan fo gan Weinidogion Cymru hawl neu fuddiant mewn perthynas â'r eiddo hwnnw. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hyn yn unol â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.

Diben a bwriad y polisi

Mae rheoliadau yn rhoi hyblygrwydd priodol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y Comisiwn yn cael ei alluogi i arfer yr holl swyddogaethau perthnasol mewn perthynas ag addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi pe bai'r sector yn esblygu yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo CCAUC pan fo unrhyw eiddo neu dir yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion sefydliad yn y sector addysg uwch yng Nghymru lle mae gan Weinidogion Cymru unrhyw hawl neu fuddiant mewn perthynas â'r eiddo neu'r tir. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'u buddiannau mewn eiddo neu dir sefydliad naill ai yn y sectorau addysg uwch neu addysg bellach yng Nghymru fel bod y Comisiwn yn

arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru ar eu rhan. Mae hyn yn briodol gan y bydd gan y Comisiwn oruchwyliaeth reoleiddiol yn y dyfodol o sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.

Er enghraifft, os yw Gweinidogion Cymru'n darparu arian i gefnogi buddsoddiad yn yr ystâd addysg bellach o dan raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif, gallai fod taliadau cyfreithiol yn deillio o fuddsoddiadau o'r fath. Yn y dyfodol, efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno i'r Comisiwn allu rheoli trefniadau ariannu o'r fath ar eu rhan.

Categoriâu cofrestru

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
23(2)	Rheoliadau	Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu un neu fwy o gategoriâu cofrestru y mae'n rhaid gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn y gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol.	Cadarnhaol
23(5)	Rheoliadau	Caniatáu i Weinidogion Cymru wahardd cofrestru darparwr mewn un categori o'r gofrestr ar yr un pryd ag y mae wedi ei gofrestru mewn un neu ragor o'r categorïau eraill.	Negyddol
23(8)	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr.	Negyddol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth bennu categorïau cofrestru gwahanol, pa un a yw darparwyr yn gallu cael eu gwahardd rhag cofrestru mewn categorïau cofrestru lluosog, a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr.

Diben a bwriad y polisi

Bwriedir i'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol fod yn fecanwaith hyblyg ar gyfer rheoleiddio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru mewn modd cymesur ac atebol. Yn benodol, bydd y gofrestr yn sicrhau rheoleiddio priodol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 23(2) yn galluogi i gategoriâu o gofrestriad gael eu creu sy'n gymwys i wahanol fathau o ddarparwyr addysg drydyddol fel y bo'n briodol. Gall fod yn angenrheidiol pennu gwahanol gategoriâu o gofrestriad os caiff mathau newydd o gyllid cymorth i fyfyrwyr eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ehangu cyfleoedd addysg ôl-orfodol, megis mewn addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol nad ydynt yn radd uwch.

At hynny, mae strwythur cyllido (ac o ganlyniad rheoleiddio priodol) addysg drydyddol (yn arbennig addysg uwch) ledled y DU wedi newid yn aml yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda newidiadau yng ngweinyddiaethau eraill y DU yn aml yn cael effaith ar bolisi ariannu yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd ar gyfradd sy'n gynt na'r hyn sy'n briodol neu'n ymarferol i'r Llywodraeth Cymru ymateb

gyda deddfwriaeth sylfaenol ynghylch manylion rheoleiddio ym mhob achos. Felly, dylai'r Bil hwn alluogi i fanylion y fframwaith rheoleiddio gael eu newid mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn strwythur neu gyllid y sector trydyddol yng Nghymru.

Bydd y categorïau cofrestru sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau yn cael eu llywio gan ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Cynnig polisi cyfredol y llywodraeth yw rhagnodi dau gategori o gofrestriad:

- Darparwyr Addysg Uwch (Craidd) - Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd myfyrwyr a chymorth cynnal a chadw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch ar lefel y ffi uwch, sef £9000 y flwyddyn ar hyn o bryd, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn hefyd yn gymwys i gael arian grant addysg uwch gan y Comisiwn (gweler 'Ariannu'). Bydd darparwyr yn y categori hwn yn destun amodau cofrestru a amlinellir yn y Bil ac mewn rheoliadau (gweler 'Amodau cofrestru').
- Darparwyr Addysg Uwch (Amgen) – Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd myfyrwyr a chymorth cynnal a chadw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch ar lefel ffioedd is, £6165 y flwyddyn ar hyn o bryd, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd darparwyr yn y categori hwn yn destun amodau cofrestru a amlinellir isod (gweler 'Amodau cofrestru').

Nid yw'n bolisi cyfredol gan y llywodraeth i greu unrhyw gategoriâu ar gyfer darparwyr nad ydynt yn darparu addysg uwch. Bydd y darparwyr hyn yn parhau i gael eu rheoleiddio'n bennaf trwy'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig ag arian grant a dderbynnir gan y Comisiwn. Mae pennu categorïau cofrestru, ac amodau cysylltiedig, mewn rheoliadau yn darparu'r hyblygrwydd i greu categorïau cofrestru ar gyfer darparwyr addysg bellach (nad ydynt yn darparu addysg uwch), darparwyr prentisiaethau a hyfforddiant, a mathau eraill o ddarparwyr addysg drydyddol, os bydd newidiadau yn y dyfodol o ran ariannu a blaenoriaethau rheoleiddio yn y sector.

Bwriedir hefyd, yn amodol ar fod y ddau gategori cofrestru arfaethedig, rhagnodi mewn rheoliadau o dan adran 23(6) mai dim ond mewn un o'r categorïau y gall darparwyr gofrestru.

Amodau cofrestru

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
25(3)	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer amodau cofrestru cychwynnol pellach.	Cadarnhaol
30(2)(b)	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru bennu categori cofrestru y mae amod terfyn ffioedd i fod yn gymwys mewn perthynas ag ef.	Cadarnhaol
31(1)	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru bennu categorïau cofrestru a fydd yn ddarostyngedig i amodau cofrestru parhaus mandadol yn ymwneud â chyfle cyfartal.	Cadarnhaol
32	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer rhagor o amodau cofrestru parhaus gorfodol.	Cadarnhaol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 25(1) yn amlinellu'r amodau cofrestru cychwynnol y mae'n rhaid i ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru eu bodloni i fod yn gofrestredig. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 25(3) sy'n darparu ar gyfer amodau cofrestru cychwynnol pellach a allai fod yn gymwys i un neu fwy o gategoriâu cofrestru.

Mae adran 29 yn amlinellu amodau cofrestru parhaus gorfodol y mae'n rhaid i ddarparwr eu bodloni i barhau i fod yn gofrestredig. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 32 sy'n darparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus gorfodol pellach a all fod yn gymwys i un neu ragor o gategoriâu cofrestru.

Mae'r system reoleiddio a grëir gan y Bil wedi'i chynllunio i fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac felly mae'n rhaid caniatáu iddi addasu i amgylchiadau sy'n newid. Gall y bydd angen creu amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus newydd sy'n berthnasol i wahanol gategoriâu o gofrestru yn ogystal â'r rhai a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i anghenion rheoleiddio sy'n newid.

Mae adran 30(2) hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu categorïau cofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn osod amod cofrestru parhaus mewn perthynas â hwy ar derfyn ffioedd, tra bod adran 31(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r categorïau cofrestru a fydd yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru parhaus ar gyfle cyfartal.

Diben a bwriad y polisi

Yn ogystal â'r amodau cofrestru cychwynnol a amlinellir yn adran 25(1), mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r amodau cofrestru cychwynnol canlynol fod yn gymwys i'r categorïau cofrestru priodol. Darperir ar gyfer y categorïau hyn mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil er mwyn cadw'r hyblygrwydd i newid neu ddiwygio'r darpariaethau hyn.

Math o amod	Amod	Categori
Cychwynnol	Cydymffurfio â chyfraith defnyddwyr – Bwriedir i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer amod cofrestru cychwynnol ar gyfer y categorïau hwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am ddarparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau gyda myfyrwyr. Bydd yr amod cofrestru hwn yn galluogi'r Comisiwn i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio cofrestru ddangos eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan gyfraith defnyddwyr, ac yn benodol gydag unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer darparwyr addysg uwch gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.	Craidd ac Amgen
Cychwynnol	Statws elusenol – Bwriedir i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer amod cofrestru cychwynnol ar gyfer y categori hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn elusen. Byddai hyn yn parhau â'r polisi cyfredol a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i 'sefydliadau a reoleiddir' yng Nghymru fod yn sefydliadau elusenol.	Craidd

Bwriedir hefyd, yn amodol ar y ddau gategori cofrestru arfaethedig, ragnodi mewn rheoliadau o dan adran 31(1) fod y ddau gategori yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru parhaus mandadol mewn perthynas â chyfle cyfartal.

Ni fwriedir ar hyn o bryd bennu ar gyfer unrhyw amodau cofrestru parhaus pellach ar gyfer unrhyw gategori cofrestru.

Datgofrestru

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
39(2)	Rheoliadau	Pŵer i nodi amgylchiadau pellach lle y mae'n rhaid i'r Comisiwn ddileu sefydliad o un neu fwy o gategorïau yn y gofrestr neu bob categori o'r gofrestr	Cadarnhaol
39(6)	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â symud sefydliad o gategori o'r gofrestr.	Dim gweithdrefn
41(13)	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaethau trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â symud sefydliad yn wirfoddol neu'n gydsyniol o gategori'r gofrestr.	Dim gweithdrefn

Disgrifiad o'r pwerau

Mae'r pwerau hyn yn galluogi is-ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer amgylchiadau penodol, yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y Bil, lle caiff sefydliad ei dynnu oddi ar y gofrestr neu o gategori o'r gofrestr, ac ar gyfer gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed pan gaiff darparwr ei ddileu o'r gofrestr, boed hynny'n orfodol neu'n wirfoddol.

Diben a bwriad y polisi

Bwriedir i'r pŵer o dan adran 39(2) sicrhau bod unrhyw amgylchiadau sy'n dod i'r amlwg a allai fynnu bod darparwr cofrestredig yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr neu gategori penodol o'r gofrestr yn cael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth.

Bwriedir i'r pwerau o dan adrannau 39(6) a 41(13) sicrhau bod arian cyhoeddus a buddiannau myfyrwyr yn cael eu diogelu os bydd darparwr yn peidio â bod ar y gofrestr. Gall hyn gynnwys sicrhau bod y Comisiwn yn cadw rhai pwerau rheoleiddio mewn perthynas â darparydd a ddatgofrestrwyd, neu fod rhai ffrydiau ariannu yn parhau i fod ar gael dros dro i fyfyrwyr darparydd a ddatgofrestrwyd er mwyn sicrhau parhad a chwblhad y cwrs.

Dylid ystyried y pwerau hyn fel pwerau wrth gefn a dim ond mewn amgylchiadau prin ac eithriadol y disgwylir iddynt gael eu defnyddio.

Ffioedd, cyrsiau cymhwysol, a phersonau cymhwysol

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
30(4)	Rheoliadau	Pŵer i bennu beth yw cwrs cymhwysol.	Negyddol
30(8)(b)	Rheoliadau	Pŵer i bennu pwy sy'n berson cymhwysol at ddibenion talu ffioedd cwrs rheoleiddiedig.	Negyddol
30(10)	Rheoliadau	Pŵer i bennu pryd y mae ffioedd sy'n daladwy i ddarparwydd mewn perthynas â chwrs y mae'n ei ddarparu ar ran sefydliad cofrestredig i'w trin fel pe baent yn daladwy i'r sefydliad cofrestredig at ddibenion terfynau ffioedd.	Negyddol
44(6)	Rheoliadau		Cadarnhaol
82	Rheoliadau	Pŵer i bennu eithriadau pellach i'r diffiniad o 'ffioedd' at ddibenion Rhan 2.	Negyddol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu disgrifiad o 'gyrsiau cymhwysol' a 'phersonau cymhwysol' at ddibenion rheoleiddio'r terfyn ffi dysgu uchaf ar gyrsiau cymhwysol a ddarperir gan, neu ar ran, ddarparwyr cofrestredig.

Maent hefyd yn galluogi rheoliadau i bennu amgylchiadau pan fo ffioedd a delir i berson sy'n darparu cwrs ar ran darparwr cofrestredig i'w trin fel pe baent yn cael eu talu i'r darparwr cofrestredig at ddibenion terfynau ffioedd.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau tebyg ar hyn o bryd o dan adrannau 5 a 57 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Diben a bwriad y polisi

Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu bod terfynau ffioedd yn gymwys i wahanol gyrsiau neu grwpiau gwahanol o fyfyrwyr mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r ffyrdd y mae darparwr addysg uwch yn codi ffioedd yng Nghymru, a hefyd unrhyw newidiadau ar ffurf y cymorth i fyfyrwyr a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, rhagnodir cyrsiau cymhwysol yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015. Maer Rheoliadau hyn yn darparu mai personau cymhwysol yw'r personau hynny sydd, ar ddiwrnod cyntaf y

flwyddyn academiaidd berthnasol, yn dod o fewn yr Atodlen i'r Rheoliadau, ac eithrio'r personau hynny nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan yr eithriadau a restrir.

Mae adran 30(10) o'r Bil yn sicrhau, pan fydd gan ddarparwyr cofrestredig gyrsiau a ddarperir ar eu rhan, drwy drefniant is-gontractio neu freinio, nad yw darparwyr yn gallu osgoi'r terfyn ffioedd dysgu statudol. Gwneir rheoliadau o dan yr adran hon i sicrhau nad yw'r amrywiaeth o drefniadau breinio cymhleth a all fodoli yn y sector addysg uwch yn creu unrhyw amgylchiadau lle y gellir osgoi'r terfyn ffioedd.

Mae rhagnodi disgrifiadau o 'gyrsiau cymhwysol' a 'phersonau cymhwysol' yn fater technegol a fydd yn debygol o fod angen ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Dim ond mewn ymateb i ffurfiau esblygol o drefniadau breinio a threfniadau is-gontractio rhwng darparwyr addysg drydyddol y bydd angen unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 30(10).

Uchafswm y ffi dysgu

Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 ar hyn o bryd yn nodi'r uchafswm o ran ffioedd a allai fod yn daladwy ar gyfer cyrsiau cymhwysol gan ddarparwyr a reoleiddir o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ynghylch uchafswm y ffi dysgu ar gyfer cyrsiau addysg uwch cymhwysol wedi newid.

Sicrhau ansawdd mewn addysg uwch

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
52(5)	Rheoliadau	Pŵer i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau ac adroddiadau addysg uwch gydag ysbeidiau penodedig rhyngddynt.	Negyddol
52(8)	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i gael ei drin fel un sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs.	Negyddol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 52 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd yr addysg a ddarperir gan ddarparwyr addysg uwch cofrestredig. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys ansawdd yr addysg a ddarperir ar ran darparwr addysg uwch cofrestredig, megis o dan fasnachfrait neu drefniant is-gontractio.

Mae adran 52(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r ysbeidiau lleiaf a ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch cofrestredig rhwng cynnal asesiadau ansawdd, ac i ragnodi'r cyfnod y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau asesu oddi mewn iddo.

Mae adran 52(8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle y dylai neu na ddylai darparwr allanol gael ei drin fel petai'n darparu'r cyfan neu ran o gwrs ar ran sefydliad cofrestredig. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer sy'n cyfateb i hwnnw yn adran 52(8) o dan adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Mae'r pwerau hyn yn ymdrin yn bennaf â materion technegol a manwl sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd mewn addysg uwch.

Diben a bwriad y polisi

Ysbeidiau rhwng cyfnodau asesu addysg uwch

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn nodi y dylai asesiadau addysg uwch gael eu cynnal o leiaf unwaith bob chwe blynedd. Mae hyn yn gyson â fframwaith sicrhau ansawdd cyfredol CCAUC, a hefyd â chylch arolygu arferol Estyn mewn rhannau eraill o'r sector addysg ôl-orfodol.

Efallai y bydd angen newid y cyfnod lleiaf rhwng asesiadau ansawdd addysg uwch (adran 52(5)) o bryd i'w gilydd mewn ymateb i newid argaeledd adnoddau neu asesiadau risg o ran ansawdd yn y sector addysg uwch.

Darparwyr allanol

Er nad oes bwriad ar unwaith i wneud rheoliadau o'r fath, mae adran 52(8) yn rhoi hyblygrwydd priodol i Weinidogion Cymru wneud y ddarpariaeth angenrheidiol pe bai unrhyw fathau newydd o drefniadau partneriaeth ar gyfer darparu cyrsiau addysg uwch yn datblygu yn y dyfodol.

Arolygu addysg bellach a hyfforddiant

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
55(1)(f)	Rheoliadau	Pŵer i bennu addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant (y "Prif Arolygydd") eu harolygu, yn ychwanegol at addysg a hyfforddiant a nodir ar wyneb y Bil.	Negyddol
55(4)	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â'r ysbeidiau rhwng cyfnodau arolygu ac adrodd.	Negyddol
59(1)	Rheoliadau	Pŵer i roi swyddogaethau pellach i'r Prif Arolygydd mewn cysylltiad â'r addysg a'r hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 55(1).	Negyddol
61(9)	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r rhwymedigaethau i roi gwybodaeth i'r Prif Arolygydd mewn cysylltiad ag arolygiad ardal; a'i gwneud yn ofynnol i adroddiadau arolygiadau ardal gael eu cyhoeddi cyn diwedd cyfnod penodol.	Negyddol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 55 o'r Bil yn nodi cylch gwaith arolygu'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Bwriad y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 55(1)(f) ac adran 59(1) yw ymestyn neu egluro cylch gwaith y Prif Arolygydd mewn ymateb i fathau newidiol o ddarpariaeth yn y sector addysg a hyfforddiant.

Mae adran 55(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i:

- bennu'r cyfnod byrraf posibl rhwng arolygiadau, ac
- ragnodi'r cyfnod ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu.

Mae adran 59 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu unrhyw swyddogaethau eraill sydd gan y Prif Arolygydd mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant a restrir yn adran 65(1).

Mae adran 61 yn nodi'r ddarpariaeth ar gyfer arolygiadau ardal, gan gynnwys y gofynion i gyrrff a restrir yn adran 61(7) ddarparu gwybodaeth i'r prif arolygydd. Mae adran 61(9) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud:

- darpariaeth bellach yn ymwneud â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth

- darpariaeth o ran y cyfnod pryd y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau o arolygiadau ardal.

Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru yn dal pwerau gwneud rheoliadau tebyg i'r holl bwerau a restrwyd uchod o dan ran 4 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Diben a bwriad y polisi

Adran 55(1)(f) a adran 59(1) - Cylch gwaith a swyddogaethau eraill y Prif Arolygydd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau yn adran 55(1)(f) a 59(1) o'r Bil.

Mae'r pwerau hwn yn angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, efallai y bydd rheoliadau ei angen er mwyn i Estyn allu arolygu addysg cychwynnol athrawon darparwyr ôl-orfodol, yn yr un modd â dyletswyddau presennol i arolygu hyfforddiant gwaith ieuencid a gwaith cymunedol neu addysg gychwynnol athrawon ar gyfer ysgolion.

Adran 55(4) a adran 61(9)(b) - Cyfnodau arolygu ac adroddiadau

Mae Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"), fel y'i diwygiwyd (yn fwyaf diweddar gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020), yn ei gwneud yn ofynnol:

- i arolygiadau gael eu cynnal o leiaf unwaith o fewn cyfnod o chwe blynedd ar ôl cwblhau'r cyfnod arolygu sy'n dod i ben ar 31 Awst 2024. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar yr ysbaid rhwng cyfnodau arolygu'n newid.
- i adroddiadau arolygu gael eu gwneud o fewn cyfnod o 70 o ddiwrnodau gwaith o'r dyddiad y cwblheir yr arolygiad neu'r arolygiad ardal. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar adroddiadau arolygu wedi newid.

Mae polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfnodau arolygu ac amseriad adroddiadau, mewn perthynas â'r ddau arolygiad o dan adran 55(1) o'r Bil ac arolygiadau ardal o dan adran 61 o'r Bil yn aros yr un fath, a gwneir rheoliadau o dan adran 55(4) a 61(9)(b) sy'n ailddatgan y ddarpariaeth bresennol fel y nodir yn Rheoliadau 2001.

Adran 61(9)(a) - Rhwymedigaeth i roi gwybodaeth i'r Prif Arolygydd

Ni fwriedir ar hyn o bryd gwneud rheoliadau o dan adran 61(9)(a). Mae'r pŵer yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â materion ymarferol megis y ffordd y caniateir i'r ddyletswydd yn 61(7) gael ei bodloni.

Ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
68(1)	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru ymyrryd yn ymddygiad sefydliad addysg bellach os ydynt yn fodlon bod un neu fwy o'r seiliau dros ymyrryd yn bodoli.	Dim gweithdrefn

Disgrifiad o'r pwerau

Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd (fel y nodir yn adran 67 o'r Bil) yn bodoli, cânt, yn unol ag adran 68 o'r Bil, roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu, ymhlith pethau eraill:

- gydweithredu â'r cyfryw bersonau ac ar y cyfryw delerau a bennir yn y cyfarwyddyd
- gwneud penderfyniad i'r corff gael ei ddiddymu ar ddyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

Ceir rhagor o fanylion am y pwerau ymyrryd hyn ym mharagraffau 3.196 – 3.204 o'r Memorandwm Esboniadol.

Diben a bwriad y polisi

Mae'r swyddogaethau ymyrryd yn cyflawni rôl bwysig o ran gweithredu'r polisi i ddiogelu darpariaeth addysg bellach yng Nghymru. Fodd bynnag, bwriedir i'r swyddogaethau gael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o achosion dim ond pan fydd y Comisiwn wedi arfer ei holl swyddogaethau ymyrryd neu lle mae'r mater mor ddifrifol fel bod angen cymryd camau mwy brys.

Adolygu rheoliadau a phenderfyniadau

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
77(3)	Rheoliadau	Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adolygiadau o benderfyniadau. Er enghraifft, manylion am rôl yr adolygydd penderfyniadau a'r weithdrefn i'w dilyn (gweler is-adran (4)).	Negyddol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 77 yn nodi swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phenodi person neu banel i gynnal adolygiadau o benderfyniadau o dan adrannau 43 a 76 o'r Bil.

Caiff darparwr ofyn am adolygiad pan fydd y Comisiwn yn defnyddio'r pwerau a ganlyn:

- Gwrthod cofrestru darparwr (adran 23).
- Gosod neu amrywio amod cofrestru parhaus penodol (adran 27).
- Cyfarwyddo darparwr mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus (adran 37).
- Symud darparwr o gategori o'r gofrestr (adran 39).
- Pennu'r dyddiad y mae darparwr i'w dynnu o gategori o'r gofrestr (adrannau 40 a 41).
- Rhoi hysbysiad yn gwrthod datganiad terfyn ffioedd (adran 45).
- Cyfarwyddo darparwr mewn cysylltiad â methu â chydweithredu â'r Comisiwn neu gorff dynodedig fel sy'n ofynnol o dan adran 71.

Mae adran 77(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth trwy reoliadau mewn cysylltiad â ffurf, cynnwys a phroses cynnal adolygiadau. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn dal dyletswydd debyg i wneud darpariaeth o'r fath mewn perthynas ag adolygu penderfyniadau CCAUC o dan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Diben a bwriad y polisi

Mae adran 77(4) yn nodi'r materion y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 77(3), ymhlith pethau eraill, ddarparu ar eu cyfer:

- Ar ba sail y gall adolygydd penderfyniadau wneud argymhellion
- Y mathau o argymhellion y gellid eu gwneud
- O fewn pa gyfnod y gellid gwneud cais am adolygiad

- Y weithdrefn i'w dilyn gan yr adolygydd/adolygwyr
- Y camau i'w cymryd gan y Comisiwn a/neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad

Byddai'r rheoliadau'n mabwysiadu dull sy'n debyg iawn i'r trefniadau y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015, mewn perthynas ag adolygiadau o benderfyniadau o dan Ddeddf Addysg Uwch Cymru 2015.

Yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid, ceir crynodeb isod o'r bwriad polisi presennol ynghylch y manylion sydd i'w rhagnodi yn y rheoliadau hyn:

Tudalen y pecyn 148

Maes	Disgrifiad
Y seiliau y caniateir i'r adolygydd/adolygwyr penderfyniadau wneud argymhellion i'r Comisiwn arnynt	<ul style="list-style-type: none"> • bod corff llywodraethu darparwr yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r mater y mae'n ceisio adolygiad ohono nad yw wedi'i chyflwyno i'r Comisiwn o'r blaen; • bod yr adolygydd o'r farn bod y Comisiwn wedi diystyru ffactor perthnasol y dylai fod wedi'i ystyried yn y broses o lywio ei benderfyniad; neu • bod yr adolygydd o'r farn bod penderfyniad y Comisiwn yn anghymesur yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddo.
Y mathau o argymhellion y caniateir iddynt gael eu gwneud	<ul style="list-style-type: none"> • y dylai'r Comisiwn ailasesu ei benderfyniad gwreiddiol gan ystyried - <ul style="list-style-type: none"> ○ unrhyw dystiolaeth ychwanegol a roddwyd i'r adolygydd penderfyniadau gan gorff llywodraethu'r sefydliad sy'n gofyn am adolygiad; ○ unrhyw ffactorau perthnasol y mae'r adolygiad o benderfyniad o'r farn nad yw wedi'u hystyried o'r blaen; neu ○ unrhyw resymau a allai fod gan yr adolygydd; penderfyniadau dros ystyried bod y penderfyniad a wnaed yn flaenorol yn anghymesur.
Y cyfnod y caniateir i gais gael ei wneud ynddo	<ul style="list-style-type: none"> • o fewn 40 diwrnod i'r darparwr gael ei hysbysu gan y Comisiwn o'i gamau gweithredu arfaethedig.
Y weithdrefn sydd i'w dilyn	<ul style="list-style-type: none"> • dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr roi i'r Comisiwn (i) manylion y penderfyniad i gael ei adolygu; (ii) manylion ar ba

	<p>sail y gwnaed y cais am adolygiad; a (iii) copi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y darparwr i gefnogi'r cais am adolygiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr ddarparu amserlen ddisgwyliedig i'r darparwr a'r Comisiwn ar gyfer cwblhau'r adolygiad o benderfyniad; • gall yr adolygydd/adolygwyr ofyn am wybodaeth ychwanegol gan y Comisiwn a'r darparwr ac os ydynt yn gwneud hynny dylai fod yn ofynnol iddynt hysbysu'r Comisiwn a'r darparwr am gais o'r fath; • i sicrhau bod adolygiadau o benderfyniadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, dylai pwynt terfyn o 28 diwrnod fod yn gymwys mewn perthynas â darparu gwybodaeth bellach i'r adolygydd/adolygwyr naill ai gan y Comisiwn neu'r darparwr; • i sicrhau bod pob parti yn cael diweddariad ar hynt yr adolygiad, dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr ddarparu gwybodaeth ychwanegol a ddarperir gan y darparwr i'r Comisiwn ac i'r gwrthwyneb; • dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr ystyried a yw'n briodol yng nghyd-destun adolygiad penodedig i dderbyn sylwadau gan y Comisiwn mewn ymateb i wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y darparwr a chan y darparwr mewn ymateb i wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y Comisiwn ac i hysbysu'r ddau barti yn unol â hynny; • dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan y darparwr neu'r Comisiwn; • dylai fod yn ofynnol i'r adolygydd/adolygwyr baratoi adroddiad ar eu canfyddiadau, gan nodi'r argymhellion y dylid eu hanfon at y darparwr a'r Comisiwn.
Y camau sydd i'w cymryd gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried adroddiad yr adolygydd/adolygwyr ac ailystyried eu penderfyniad i gymryd y camau penodedig sy'n destun yr adolygiad o benderfyniadau;

	<ul style="list-style-type: none">• Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu'r darparwr ynghylch a yw'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig wedi'i weithredu o fewn cyfnod o 40 diwrnod o adroddiad yr adolygydd/adolygwyr a nodi'r rhesymau dros y camau gweithredu a gadarnhawyd.
--	--

Monitro cynaliadwyedd ariannol

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
78(1)(c)	Rheoliadau	Pŵer i bennu darparwyr addysg (yn ychwanegol at y rhai a nodir ar wyneb y Bil) y mae'n rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol mewn perthynas â hwy.	Negyddol
78(2)	Rheoliadau	Pŵer i ddarparu ar gyfer eithriadau i'r ddyletswydd i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr cofrestredig a darparwyr yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach a ariennir gan y Comisiwn.	Negyddol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 78 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol rhai darparwyr addysg drydyddol. O dan y ddyletswydd, rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr cofrestredig a darparwyr yng Nghymru yn y sector addysg bellach nad ydynt wedi'u cofrestru ond sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn.

Mae'r pwerau o dan adran 78(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud eithriadau wrth gymhwyso'r ddyletswydd monitro ar gyfer darparwyr neu fathau o ddarparwyr yn y categorïau hyn.

Mae adran 78(1)(c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y ddyletswydd monitro i fathau eraill o ddarparwyr addysg drydyddol nad ydynt yn cael eu nodi ar wyneb y Bil.

Diben a bwriad y polisi

Bydd y pwerau hyn yn sicrhau y gellir ymestyn dyletswydd y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar y cynaliadwyedd ariannol, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, i ddarparwyr addysg drydyddol heblaw am ddarparwyr cofrestredig neu ddarparwyr yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach sydd heb eu cofrestru ond sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn. Byddai hyn yn caniatáu i unrhyw ddarparwyr neu grwpiau o ddarparwyr a allai fod yn derbyn symiau sylweddol o arian oddi wrth y Comisiwn ond nad ydynt yn dod o dan y categorïau hyn gael eu dwyn o fewn cwmplas y ddyletswydd.

Mae'r pwerau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud eithriadau wrth gymhwyso'r ddyletswydd ar gyfer darparwyr neu fathau o ddarparwyr o fewn y categorïau a bennir ar wyneb y Bil. Gallai hyn, er enghraifft, ganiatáu i'r ddyletswydd gael ei datgymhwyso i'r

Brifysgol Agored a fyddai, pe bai'r sefydliad yn cofrestru gyda'r Comisiwn, yn destun monitro cyfatebol gan y Swyddfa i Fyfirwyr yn rhinwedd ei statws fel darparwr addysg uwch cofrestredig yn Lloegr. Byddai hyn yn osgoi dyblygu diangen a gwrthdaro posibl mewn trefniadau monitro.

Mae'r pwerau rheoleiddio hyn yn darparu dull o ddiogelu'r darpariaethau a nodir o dan adran 78 o'r Bil yn y dyfodol a sicrhau nad oes bylchau yn y modd y cymhwysir y ddyletswydd.

Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
81(4)	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch dynodi darparwyr na fyddent yn cael eu hystyried yn sefydliad at ddibenion y Bil. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch ceisiadau i ddynodi, gwneud dynodiadau, tynnu dynodiad yn ôl ac effaith ei dynnu'n ôl.	Cadarnhaol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 81 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn 'sefydliad' at ddibenion y Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwnnw. Ni fyddai darparwr o'r fath fel arfer yn cael ei ystyried yn 'sefydliad' o dan y Bil.

Caniateir i ddynodiad gael ei wneud ar gais gan y darparwr o dan sylw. Mae adran 76(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch ceisiadau i ddynodi, gwneud dynodiadau a'u tynnu'n ôl, gan gynnwys materion sydd i'w hystyried wrth bwysu a mesur a ddylid gwneud dynodiad neu ei dynnu'n ôl, ac effaith tynnu dynodiad yn ôl.

Diben a bwriad y polisi

Gellir arfer y pŵer o dan adran 81 i ddynodi sefydliad sy'n darparu cyrsiau addysg uwch, ond nad yw'n ystyried ei hun yn "sefydliad" at ddibenion y Bil hwn, ac mae'n bosibl serch hynny y byddai'n dymuno cael ei gofrestru. Bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am ddynodiad o'r fath ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth benodol ynghyd â'u cais. Caiff y rheoliadau hefyd bennu sut y mae cais i gael ei wneud (er enghraifft yn ysgrifenedig).

Sicrhau a chyllido addysg drydyddol

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
85(3)	Rheoliadau	Pŵer i bennu categorïau o ddarparwyr cofrestredig y gall y Comisiwn roi cymorth ariannol iddynt mewn perthynas â gwariant a wynebir at ddibenion darparu addysg uwch a chyfleusterau neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu addysg uwch.	Cadarnhaol
85(4)	Rheoliadau	Pŵer i bennu'r gofynion sydd i'w bodloni gan gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon cyn y gall y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol i sefydliad mewn perthynas â darparu'r cwrs hwnnw.	Negyddol
86(1)	Rheoliadau	Pŵer i bennu cwrs addysg uwch penodol neu ddisgrifiad o gwrs addysg uwch y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol mewn perthynas ag ef.	Negyddol
91(3)	Rheoliadau	Dyletswydd i bennu disgrifiad o addysg bellach a hyfforddiant perthnasol at ddibenion dyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol i bersonau 19 oed a throsodd.	Cadarnhaol
91(7)(b)	Rheoliadau	Pŵer i nodi disgrifiad o berson cymhwysol mewn perthynas â dyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol i bersonau 19 oed a throsodd.	Cadarnhaol
95(2)	Rheoliadau	Pŵer i wneud amod mai dim ond ar gyfer darparwyr sydd wedi'u cofrestru mewn categorïau penodol y gellir sicrhau cymorth ariannol o dan adrannau 94(1)(a) neu (b) at ddibenion penodedig ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer eithriadau i'r gofyniad i fod yn gofrestredig ar gyfer cyrsiau penodedig neu ddisgrifiad penodedig o gyrsiau.	Cadarnhaol
96(6)	Rheoliadau	Pŵer i ddarparu eithriadau i'r gwaharddiad ar ddarparwyr addysg bellach a hyfforddiant rhag codi tâl ar (i) personau dros oedran ysgol gorfodol ac o dan 19 oed sy'n cael yr addysg bellach a'r hyfforddiant; a (ii) personau cymhwysol sy'n cael addysg a hyfforddiant perthnasol.	Cadarnhaol
101(3)	Rheoliadau	Pŵer i wneud amod na chaiff y Comisiwn ond darparu adnoddau ariannol mewn perthynas â gwariant a wynebir mewn cysylltiad â darparu	Cadarnhaol

		prentisiaeth Gymreig gymeradwy i ddarparwyr a gofrestrwyd mewn categorïau a bennir yn y rheoliadau.	
102(4)	Rheoliadau	Pŵer i bennu categorïau cofrestru y mae'n rhaid cofrestru darparwr ar eu cyfer cyn y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol i'r darparwr mewn perthynas â gwariant at ddibenion (neu mewn cysylltiad ag) ymchwil neu arloesi.	Cadarnhaol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 85 yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu categorïau penodol o ddarparwyr cofrestredig (y "darparwyr penodedig"), at ddibenion cefnogi addysg uwch a ddarperir gan neu ar ran darparwyr o'r fath. Mae adran 85(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r categorïau hwn, tra bod y pŵer o dan adran 85(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu na chaiff y Comisiwn ddarparu cyllid o dan yr adran hon ar gyfer gwariant a ysgwyddwyd mewn perthynas â darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon oni bai bod y cwrs yn bodloni'r gofynion a nodir mewn rheoliadau.

Mae adran 86 yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu darpariaeth cyrsiau addysg uwch penodedig sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu ar gyfer pobl sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru. Mae adran 86(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyrsiau o'r fath trwy gyfeirio, ymhlith materion eraill, at y gofynion sydd i'w bodloni gan y cwrs; y disgrifiad o'r person sy'n darparu'r cwrs; a'r cymhwyster y mae'r cwrs yn arwain ato.

Mae adran 91(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu addysg bellach a hyfforddiant perthnasol at ddibenion dyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant o'r fath yn adran 91(1). Mae adran 91(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu personau cymhwysol y mae'n rhaid sicrhau cyfleusterau o'r fath ar eu cyfer.

Mae adran 95(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael eu cofrestru mewn categori penodedig er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan adran 94(1)(a) (darparu addysg bellach neu hyfforddiant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru) neu adran 94(1)(b) (darparu addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru).

Pan fo Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn darparu cyllid o dan adran 94, mae adran 96 yn caniatáu iddynt osod telerau ac amodau. Mae adran 96(4) a (5) yn darparu bod yn rhaid i'r telerau ac amodau hynny wahardd:

- darparwr addysg bellach neu hyfforddiant sy'n addas i ofynion dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed rhag codi tâl ar y dysgwyr hynny sy'n derbyn yr addysg bellach neu'r hyfforddiant; a

- darparwr addysg a hyfforddiant perthnasol sy'n addas i ofynion personau cymhwysol rhag codi tâl ar y personau cymhwysol hynny sy'n cael yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw. Diffinnir "addysg a hyfforddiant perthnasol" a "personau cymhwysol" mewn rheoliadau a wneir o dan adran 91 o'r Bil.

Mae adran 101(1)(a) yn caniatáu i'r Comisiwn ddarparu cyllid i ddarparwyr prentisiaethau Cymreig cymeradwy, ac o dan adran 101(3) gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i dderbynydd cyllid o'r fath fod wedi'i gofrestru mewn categori penodedig ar y gofrestr.

Mae adran 102 yn caniatáu i'r Comisiwn gyllido categorïau penodol o ddarparwyr at ddibenion cefnogi ymchwil neu arloesi. Mae adran 102(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r categorïau hyn.

Diben a bwriad y polisi

Adran 85(3) a adran 102(4) – cyllid addysg uwch a ymchwil ac arloesi

Bwriedir, yn amodol ar wneud y rheoliadau arfaethedig o dan adran 23(2) (gweler Categorïau Cofrestru) a phennu'r ddau gategori cofrestru arfaethedig, rhagnodi mewn rheoliadau:

- dan adran 85(3) bod yn rhaid i ddarparwyr addysg uwch gael eu cofrestru yn y categori "craidd" er mwyn bod yn gymwys i gael arian gan y Comisiwn o dan adran 85 (cymorth ariannol i ddarparwyr penodedig ar gyfer addysg uwch);
- dan adran 102(4) bod yn rhaid i ddarparwyr addysg uwch gael eu cofrestru yn y categori "craidd" er mwyn bod yn gymwys i gael arian gan y Comisiwn o dan adran 102 (cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi).

Adran 85(4)

Bwriedir gwneud rheoliadau o dan adran 85(4) o'r Bil yn darparu na ddylai'r Comisiwn ariannu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon oni bai eu bod wedi'u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

Adran 86(6)

Ni fwriedir gwneud rheoliadau ar hyn o bryd o dan adran 86(6). Bwriad y pŵer hwn yw sicrhau y gellid mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth pe bai angen. Gall bylchau yn y ddarpariaeth godi oherwydd diffyg darparwyr addysg uwch penodedig (fel y'u diffinnir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 85(3)) sy'n gallu cyflawni angen a nodwyd. Er enghraifft, mae angen i gwrs arbenigol gael ei gyflwyno yng Nghymru neu ei gynnal gan nifer fach o fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, nad yw efallai'n gost-effeithiol i ddarparwyr penodedig eu cyflawni. Dylid ystyried y pwerau hyn fel pwerau wrth gefn.

Adran 91

Mae adrannau 91(3) a 91(7)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cwmpas a chymhwysra ar gyfer dyletswydd newydd i gyllido addysg bellach i oedolion, a'u bwriad yw sicrhau bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes yn cael ei ehangu'n briodol, yn enwedig i'r rhai fydd yn elwa fwyaf arnynt. Bwriad defnyddio is-ddeddfwriaeth i bennu cwmpas addysg a chymhwysedd perthnasol at ddibenion y ddyletswydd cyllido yw galluogi ehangu dros amser y cynnig addysg bellach a hyfforddiant i oedolion a gyllidir er mwyn mynd i'r afael â phatrymau angen sy'n esblygu.

Bydd y polisi ar gyfer y rheoliadau hyn yn ystyried yr ystyriaethau canlynol sydd i ddod:

- Argymhellion adroddiad sydd i'w gyhoeddi gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ynghylch dysgu gydol oes.
- Canlyniadau adolygiad arfaethedig o addysg oedolion fel yr addawyd yn y Rhaglen Lywodraethu.
- Barn a sylwadau rhanddeiliaid perthnasol.

Adran 95(2) a adran 101(3)

Fel y nodir yn y Categoriâu Cofrestru uchod, nid polisi cyfredol y llywodraeth yw creu unrhyw gategoriâu ar gyfer darparwyr nad ydynt yn darparu addysg uwch. Fodd bynnag, gall trefniadau rheoleiddio newid dros amser ac yn y dyfodol gall y gofrestr gynnwys categorïau'n ymwneud â darparwyr addysg bellach, hyfforddiant neu brentisiaethau Cymreig cymeradwy.

Pe bai'r angen yn codi, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau:

- dan adran 95(2) i bennu'r categorïau o ddarparwyr cofrestredig sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn o dan adran 94; neu
- dan adran 101(3) i bennu'r categorïau o ddarparwyr cofrestredig sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn o dan adran 101.

Adran 96(6)

Bydd datblygu unrhyw bolisi mewn perthynas â rheoliadau o dan adran 96(6) yn destun ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

Cydsyniad i daliadau i gyrff sy'n cydlafurio

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
105(1)	Rheoliadau	Pŵer i bennu'r materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i'r arian gael ei basio gan bersonau a gyllidir yn uniongyrchol i gyrff sy'n cydlafurio o dan adrannau 85, 86, 94, 101 or 102.	Negyddol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae'r Bil yn darparu i berson sy'n cael adnoddau ariannol gan y Comisiwn o dan adrannau 85(3)(a), 86(4)(a), 94(3)(a), 101(2)(a) or 102(4) allu trosglwyddo'r cyfan, neu ran, o'r cyllid hwn i gorff sy'n cydlafurio. Er mwyn i berson fod yn gorff sy'n cydlafurio, rhaid i'r Comisiwn fod wedi rhoi ei gydsyniad i'r person sy'n derbyn arian yn uniongyrchol gan y Comisiwn dalu adnoddau ariannol iddo.

Mae'r pŵer o dan adran 105(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i berson a gyllidir yn uniongyrchol drosglwyddo cyllid i gorff sy'n cydlafurio o dan y pwerau penodedig.

Diben a bwriad y polisi

Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi'r materion hynny y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth benderfynu cydsynio i berson a gyllidir yn uniongyrchol drosglwyddo adnoddau i gorff sy'n cydlafurio. Yn amodol ar ymgynghori, rhagwelir y gallai materion o'r fath gynnwys:

- Y rhesymau dros y trefniant cydlafurio a phriodoldeb y trefniant;
- Sut mae'r trefniant cydlafurio'n cyd-fynd â chynllun strategol y Comisiwn;
- Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y corff sy'n cydlafurio;
- Bod gan gynllun diogelu dysgwyr y corff a gyllidir ddarpariaeth ddigonol pe bai'r cydlafurio'n dod i ben am unrhyw reswm;
- Digonolrwydd y trefniadau sicrwydd rhwng y darparwr a gyllidir a'r corff sy'n cydlafurio;
- Sefyllfa ariannol corff cydlafurio arfaethedig;
- Gallu'r corff cydlafurio arfaethedig i gyflawni'r hyn a gynigir; a
- Digonolrwydd y cyfleusterau neu'r ddarpariaeth addysg sydd ar gael yn y corff cydlafurio arfaethedig.

Mae'n debygol y bydd angen diwygio natur y materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn wrth roi ei gydsyniad dros amser wrth i drefniadau cydlafurio newydd ddatblygu neu yng ngoleuni unrhyw faterion a allai fod wedi codi gyda'r trefniadau cydsynio presennol. Bydd y pŵer rheoleiddio hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio'r materion penodedig pe bai angen gwneud hynny.

Cyfarwyddydau cymorth ariannol

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
106	Cyfarwyddyd	Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cymorth ariannol i'r Comisiwn mewn perthynas â pherson perthnasol	Dim gweithdrefn

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 106 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn mewn cysylltiad â darparu cymorth ariannol a ddarperir i berson perthnasol o dan adran 85, 86, 94, 100, 101, 102, pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod materion ariannol y person perthnasol wedi cael eu camreoli neu yn cael eu camreoli. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir gan Weinidogion Cymru.

Mae person perthnasol yn ddarparwr cofrestredig neu'n berson (ac eithrio darparwr cofrestredig neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir) a gyllidir gan y Comisiwn o dan adrannau 85(2), 86, 94, 98, 100, 101 neu 102(2).

Cyn dyroddi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r person perthnasol y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd y brys y mae angen rhoi'r cyfarwyddyd iddo, neu fod yr amgylchiadau penodol yn golygu y byddai'r ymgynghoriad yn tanseilio diben y cyfarwyddyd.

Rhaid cadw unrhyw gyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn o dan yr adran hon o dan adolygiad. Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn ac adrodd am unrhyw gyfarwyddydau o'r fath i'r Senedd.

Diben a bwriad y polisi

Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i CCAUC mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i ddarparwyr addysg uwch os yw'n ymddangos bod materion ariannol y darparwr hwnnw wedi cael eu camreoli, neu'n cael eu camreoli. Mae adran 106 yn adeiladu ar y trefniadau presennol ac yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n gallu cymryd camau priodol mewn amgylchiadau lle y gallai fod angen diogelu buddiannau myfyrwyr, diogelu arian cyhoeddus neu atal niwed i enw da'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

Dylid ystyried y pwerau hyn fel pwerau wrth gefn a dim ond mewn amgylchiadau prin ac eithriadol y disgwylir iddynt gael eu defnyddio.

Prentisiaethau

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
107(4)	Rheoliadau	Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu'r amodau y mae'n rhaid i brentisiaeth eu bodloni i fod yn brentisiaeth Gymreig gymeradwy.	Cadarnhaol
108(1)(c)	Rheoliadau	Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu amodau pellach y mae'n rhaid i gytundeb prentisiaeth eu bodloni i fod yn gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy.	Cadarnhaol
109(1)	Rheoliadau	Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu'r disgrifiad o'r hyn sydd wedi'i gategoreiddio fel prentisiaeth Gymreig amgen.	Cadarnhaol
114(6)	Rheoliadau	Pŵer Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnwys rhagor o wybodaeth yn y gofrestr o fframweithiau prentisiaethau.	Negyddol
115(3)	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru awdurdodi'r Comisiwn i godi ffi am gyhoeddi tystysgrif brentisiaeth.	Negyddol
120(5)	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth sy'n cymhwyso unrhyw ddarpariaeth Rhan 4 (prentisiaethau), gydag addasiadau, i gytundeb prentisiaeth pan fydd unigolyn yn ymgymryd â chyflogaeth y Goron neu i unigolyn sy'n gweithio (neu'n bwriadu gweithio) o dan gytundeb o'r fath.	Negyddol

Tudalen y pecyn 161

Disgrifiad o'r pwerau

Mae'r pwerau uchod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r paramedrau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r system brentisiaethau newydd. Maent yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru bennu a diwygio:

- yr amodau y mae'n rhaid i brentisiaeth eu bodloni i fod yn *brentisiaeth Gymreig gymeradwy*;
- yr amodau eraill y mae'n rhaid i gytundeb prentisiaeth eu bodloni i fod yn *brentisiaeth Gymreig gymeradwy*;
- y disgrifiad o brentisiaeth Gymreig amgen.

Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru yn gallu:

- ychwanegu gofynion gwybodaeth newydd at y gofrestr o Brentisiaethau Cymreig cymeradwy sy'n cael ei chadw gan y Comisiwn;
- awdurdodi'r Comisiwn i godi ffi am gyhoeddi tystysgrifau prentisiaeth;

- cymhwyso unrhyw ddarpariaeth Rhan 4 o'r Bil gydag addasiadau i gytundeb prentisiaeth pan fydd unigolyn yn ymgymryd â chyflogaeth y Goron neu i unigolyn sy'n gweithio (neu'n bwriadu gweithio) o dan gytundeb o'r fath.

Diben a bwriad y polisi

Mae adran 107 o'r Bil yn darparu ar gyfer y diffiniad o brentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae'r pŵer o dan adran 98(4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu gofynion pellach y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn sicrhau bod prentisiaeth yn brentisiaeth Gymreig gymeradwy. Diben y pŵer hwn yw sicrhau bod y nodweddion sy'n diffinio Prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn gallu cael eu diwygio dros amser a'u bod yn parhau i fod yn briodol yng nghyd-destun newidiadau yn ddarpariaeth o brentisiaethau Cymreig. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i ymateb i newidiadau i'r economi neu ddarparu prentisiaethau.

Mae adran 108 yn darparu ar gyfer y diffiniad o gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae'r rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 108(1)(c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amodau pellach y mae'n rhaid i gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy eu bodloni yn ogystal â'r rhai a bennir ar wyneb y Bil. Bwriad y pŵer hwn yw sicrhau bod y diffiniad o gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn parhau i fod yn gyfoes, er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i bennu bod cytundeb o'r fath yn cynnwys neu'n cyfeirio at ddatganiad o fanylion cyflogaeth a gyhoeddwyd o dan adran 1 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

Mae adran 109 yn darparu ar gyfer ystyr prentisiaeth Gymreig amgen. Mae'r pŵer o dan adran 109(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer yr hyn a olygir wth brentisiaeth Gymreig amgen. Gellid defnyddio'r pŵer hwn i bennu trefniadau gweithio amgen er mwyn ystyried hunangyflogaeth neu ymdrin â sefyllfaoedd lle mae unigolion sy'n gweithio o dan gytundeb prentisiaeth wedi cael eu diswyddo yn ystod eu prentisiaeth, gan efelychu (yn rhannol) darpariaethau cyfatebol sy'n sylfaen i weithrediad y system brentisiaethau bresennol.

Mae adran 114 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gadw cofrestr o'r fframweithiau prentisiaeth sy'n cael eu cyhoeddi o dan adran 113 o'r Bil. Bydd y pŵer o dan adran 114(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu gofynion gwybodaeth newydd at y gofrestr o fframweithiau prentisiaethau cyhoeddedig. Mae hyn yn sicrhau bod modd addasu'r gofrestr sy'n cael ei chadw gan y Comisiwn dros amser i ymateb i newidiadau economaidd neu gymdeithasol.

Mae adran 115 o'r Bil yn galluogi'r Comisiwn i gyhoeddi tystysgrif os yw unigolyn wedi cwblhau prentisiaeth Gymreig gymeradwy, a'i fod yn gwneud cais i'r Comisiwn am dystysgrif. Hefyd, mae'n darparu bod y Comisiwn yn gallu codi ffi am gyhoeddi tystysgrif brentisiaeth neu gopi o dystysgrif, ond dim ond os yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn caniatáu codi ffi. Bydd y pŵer o dan adran 115(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi codi ffioedd gan y Comisiwn am gyhoeddi tystysgrifau prentisiaeth, neu gopi o dystysgrif, a phennu'r ffi y gellir ei chodi. Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru godi ffi i gyflwyno tystysgrif brentisiaeth neu gopi o dystysgrif, ac mae'r pŵer hwn yn galluogi'r Comisiwn i barhau i wneud yr un peth.

Mae adran 120 o'r Bil yn darparu bod unigolyn sy'n cael ei gyflogi fel gwas y Goron yn gallu ymrwymo i gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae'r pŵer o dan adran 120(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â chytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy a gweision y Goron. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i reoliadau wneud darpariaeth ar sail statws cyflogaeth gwahanol gweision y Goron ac yn caniatáu i elfennau o Ran 4 o'r Bil fod yn berthnasol i weision y Goron, gydag addasiadau.

Cyfiawnhad dros ddirprwyo

Mae angen i brentisiaethau allu ymateb yn hyblyg i anghenion sy'n newid o safbwynt technoleg a'r farchnad. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adrannau 107(4), 108(1)(c) a 109(1) yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gadw trosolwg strategol o'r hyn sy'n diffinio prentisiaeth Gymreig gymeradwy, cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy a phrentisiaeth Gymreig amgen. Bydd y pwerau hyn yn sicrhau bod ansawdd a chadernid system brentisiaethau Cymru yn cael eu cynnal yn y dyfodol drwy nodi unrhyw ofynion eraill y mae angen i brentisiaethau a chytundebau prentisiaeth eu bodloni er mwyn bod yn brentisiaethau Cymreig cymeradwy a chytundebau prentisiaethau Cymreig cymeradwy. Gallai'r gofynion hyn newid dros amser. Mae adran 120(5) yn angenrheidiol er mwyn galluogi elfennau o Ran 4 i fod yn berthnasol, gydag unrhyw addasiadau gofynnol, i weision y Goron ar sail eu statws cyflogaeth annodweddiadol. Mae nifer o'r pwerau i wneud rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o'r Bil yn datblygu, neu'n ailddeddfu, pwerau gwneud rheoliadau presennol yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 sy'n cael eu defnyddio i weithredu system brentisiaethau bresennol Cymru.

Mae'n bosibl y bydd angen i elfennau o'r system reoleiddio sy'n sylfaen i brentisiaethau Cymreig cymeradwy newid dros amser wrth i fframweithiau prentisiaethau ddatblygu er mwyn diwallu anghenion newidiol economi Cymru. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adrannau 114(6) a 115(4) yn angenrheidiol i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud addasiadau i ofynion gwybodaeth y gofrestr prentisiaethau a'r ffioedd y gall y Comisiwn eu codi am gyhoeddi tystysgrifau prentisiaeth, sy'n gallu newid dros amser.

Cwynion dysgwyr

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
124(2)	Rheoliadau	Diwygio adran 11 o Ddeddf Addysg Uwch 2004, gan fewnosod pŵer i bennu 'sefydliadau cymhwysol' yn ychwanegol i'r rhai a nodir ar wyneb y Ddeddf y gellir gwneud cwynion mewn perthynas â hwy gan fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr ac a ystyrir o dan y cynllun cwynion myfyrwyr o dan y Ddeddf honno.	Negyddol

Disgrifiad o'r pwerau

Tudalen y pecyn 164

Mae adran 13 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") yn caniatáu dynodi corff i weithredu cynllun cwynion myfyrwyr. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yw'r corff gweithredu dynodedig ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr nad ydynt wedi'u datrys yng Nghymru a Lloegr, a benodwyd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn y drefn honno. Ar hyn o bryd, mae rôl Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn ymestyn i 'sefydliadau cymhwysol' yn ôl y diffiniad yn adran 11 o Ddeddf 2004.

Mae adran 124(2) o'r Bil yn diwygio adran 11 o Ddeddf 2004 sy'n mewnosod, yn is-adran (2), bŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu 'sefydliadau cymhwysol' ychwanegol at ddibenion y cynllun cwynion myfyrwyr.

Caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau:

- darparwr cofrestredig, neu
- darparwr addysg drydyddol yng Nghymru (ac eithrio darparwr cofrestredig) sy'n cael adnoddau ariannol gan y Comisiwn o dan yr adrannau canlynol o'r Bil:
 - 86(3)(a) (cyrsiau addysg uwch),
 - 95(1)(a) (addysg bellach neu hyfforddiant), neu
 - 101(1)(a) (prentisiaethau)

Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu awdurdodau lleol mewn perthynas â'r ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion gan nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y darpariaethau penodedig

Diben a bwriad y polisi

Nod y polisi yw ymestyn cylch gwaith Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'r ehangder mynediad i'r cynllun cwynion i ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r holl gyrsiau a gyllidir gan y Comisiwn fel y nodir. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid ar fanylion ac ymarferoldeb ymestyn y cynllun cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud.

Bydd hyn yn galluogi cyflwyno darparwyr i'r cynllun cwynion myfyrwyr yn raddol, gan roi amser i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a darparwyr unigol adeiladu eu capasiti.

Rhannu data

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
128(1)(l)	Rheoliadau	Pŵer i bennu personau heblaw'r rhai a nodir ar wyneb y Bil fel personau sy'n gallu rhannu gwybodaeth â'r Comisiwn.	Negyddol
130(5)	Canllawiau	Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo corff neu unigolyn at ddibenion yr adran hon.	Dim gweithdrefn

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 128 yn cynnwys rhestr o personau, cyrff statudol a phersonau sy'n arfer swyddogaethau statudol a all rannu gwybodaeth gyda'r Comisiwn, at ddibenion arfer unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn. Caiff y Comisiwn hefyd roi gwybodaeth, am unrhyw fater mewn perthynas â'i swyddogaethau, i'r rhai a restrir yn yr adran hon ac unrhyw berson arall y mae'n credu ei fod yn briodol. Caiff Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu personau eraill y caniateir iddynt rannu gwybodaeth â'r Comisiwn o dan yr adran hon.

Mae adran 130 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r wybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig a geir o dan adran 129 ac mae'n darparu y gellir rhannu'r wybodaeth â "pherson cymeradwy". Person cymeradwy yw:

- corff a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion adran 130 o'r Bil, sy'n defnyddio neu'n lledaenu gwybodaeth at ddibenion ymchwil; neu
- unigolyn a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru neu gorff cymeradwy at ddibenion adran 130 o'r Bil.

Mae Gweinidogion Cymru'n ddarostyngedig i ddyletswydd i gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r ffactorau sydd i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo corff, neu ymchwilydd unigol, i fod yn "berson cymeradwy" mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig at ddibenion ymchwil.

Diben a bwriad y polisi

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu personau eraill nad ydynt wedi'u crybwyll ar wyneb y Bil a fydd yn gallu rhannu gwybodaeth â'r Comisiwn. Byddai hefyd yn caniatáu pennu awdurdodau newydd.

Gallai enghreifftiau o'r math o ffactorau y gellir eu cynnwys mewn canllawiau o dan adran 130(5) mewn perthynas â chorff sy'n berson cymeradwy gynnwys:

- A yw'r corff yn sefydliad academaidd cydnabyddedig, yn sefydliad sector cyhoeddus neu'n sefydliad ymchwil ar restr Cynghorau Ymchwil y DU o sefydliadau ymchwil annibynnol cymwys (gan nodi na fyddai ymchwil at ddibenion masnachol);
- A yw'r corff yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a deddfwriaeth, canllawiau ac arfer gorau perthnasol i sicrhau bod data'n cael ei ddefnyddio, ei drin, ei drosglwyddo a'i storio'n ddiogel gan gynnwys defnyddio amgryptio lle bo angen;
- A yw'r corff yn gweithredu o dan lywodraethiant priodol.

Gallai enghreifftiau o'r math o ffactorau y gellir eu cynnwys yn y canllawiau hyn o dan adran 130(5) mewn perthynas ag unigolyn sy'n berson cymeradwy gynnwys:

- A yw'r unigolyn yn gysylltiedig â sefydliad academaidd cydnabyddedig, sefydliad sector cyhoeddus neu sefydliad ymchwil ar restr Cynghorau Ymchwil y DU o sefydliadau ymchwil annibynnol cymwys at ddibenion ymchwil anfasnachol;
- A oes gan yr unigolyn arbenigedd perthnasol mewn cynnal ymchwil gyda data diogel/gweinyddol ac mewn amgylchedd diogel neu'n barod i gael hyfforddiant.

Llywodraethu AU – offerynnau ac erthyglau Llywodraeth ar gyfer Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
133(2)	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio neu ddiddymu, trwy orchymyn, baragraffau 2 i 11 o Atodlen 7A i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud â chynnwys yr offerynnau llywodraethu ar gyfer Corfforaeth Addysg Uwch	Cadarnhaol
134(2)	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio neu ddiddymu, trwy orchymyn, adran 125(2) i (4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud â chynnwys yr erthyglau llywodraethu ar gyfer Corfforaeth Addysg Uwch	Cadarnhaol

Disgrifiad o'r pwerau

Mae adran 125(2) yn gwneud darpariaeth i'r pwerau gwneud gorchymyn sydd eisoes gan Weinidogion Cymru o dan adran 124A(9) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (Deddf 1988) gael eu hystyngi i gynnwys Atodlen 7A yn gyfan ac eithrio paragraff 1. Mae Atodlen 7A yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer cynnwys offerynnau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch a wneir gan y Cyfrin Gyngor.

O dan adran 124A(9) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, mae Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn gallu diwygio neu ddiddymu unrhyw rai o baragraffau 3 i 5 ac 11 o Atodlen 7A trwy orchymyn. Mae'r paragraffau hyn yn ymwneud ag aelodaeth o'r Gorfforaeth Addysg Uwch ac yn benodol, ei faint, ei gyfansoddiad a phenodiad ei aelodau. Mae paragraff 1 yn galluogi offeryn llywodraethu Corfforaeth Addysg Uwch i rymuso'r Gorfforaeth i newid ei henw gyda chydysniad y Cyfrin Gyngor.

Mae adran 134(2) yn cyflwyno gwelliannau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru, trwy orchymyn, i ddiwygio neu ddiddymu adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â chynnwys erthyglau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch. Yn fras, mae'r erthyglau'n pennu dosbarthiad swyddogaethau rhwng bwrdd y llywodraethwyr, y Pennaeth a'r Bwrdd Academaidd ac yn rheoleiddio cyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgorau'r gorfforaeth.

Diben a bwriad y polisi

Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio Deddf 1988 ac yn gwneud diwygiadau mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu'r gofynion statudol presennol a osodir ar gynnwys offeryn llywodraethu Corfforaeth Addysg Uwch. Y prif nod polisi y tu ôl i'r darpariaethau hyn yw mynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar faterion technegol mewn

Cyfraith Elusennau sy'n ymwneud â diwygio dogfennau llywodraethu ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Yn benodol, mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn argymhell dileu'r gofynion statudol presennol a osodir ar ddogfennau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch fel y gallant ymateb i ganllawiau llywodraethu da ac arfer gorau yn yr un modd â mathau eraill o sefydliad addysg uwch nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol cyfatebol.

O dan y trefniadau presennol, dim ond nifer cyfyngedig o'r gofynion a osodir ar ddogfennau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch o dan Atodlen 7A o Ddeddf 1988 y gall Gweinidogion Cymru eu diwygio. Dyma'r gofynion o dan baragraffau 3 i 5 a pharagraff 11 o'r Atodlen. Mae hyn yn golygu na ellid gwneud unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r gofynion hynny sydd y tu allan i gwmpas y pwerau presennol yn yr un modd nac i'r un amserlen gan y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar wahân arnynt. Bydd y darpariaethau hyn yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ymestyn pwerau gwneud gorchymynion cyfredol Gweinidogion Cymru fel eu bod yn gymwys i'r holl ofynion statudol a osodir ar ddogfennau llywodraethu Corfforaeth Addysg Uwch o dan Atodlen 7A (ac eithrio paragraff 1) ac i'r gofynion o dan adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988.

Bwriad hyn fydd creu dull mwy hyblyg ac ymatebol a fydd yn:

- caniatáu i newidiadau yn y dyfodol i unrhyw un neu'r cyfan o'r gofynion statudol sydd o fewn cwmpas y pwerau estynedig newydd gael eu hystyried yn yr un modd a'u gwneud drwy orchymyn statudol a wneir gan Weinidogion Cymru;
- dileu'r angen am deddfwriaeth sylfaenol ar wahân i newid y gofynion hynny nad ydynt o fewn cwmpas y pwerau presennol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd;
- caniatáu i unrhyw newidiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol gael eu gwneud yn gyflymach yn y dyfodol na phe bai angen deddfwriaeth sylfaenol ar wahân ar gyfer newidiadau i'r gofynion hynny sydd allan o gwmpas ar hyn o bryd.

Bydd gorchymyn a gyflwynir gan Weinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau rhagnodedig yn Atodlen 7A neu adrannau 125(2) i (4) gan ddefnyddio'r pwerau newydd hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud gorchymyn. Ar hyn o bryd, mae gorchymyn o dan adran 124A(9) o Ddeddf 1988 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r newid yn y weithdrefn yn adlewyrchu cwmpas cynyddol y pwerau sy'n effeithio ar ddarpariaethau mewn Deddf Seneddol.

Y Brifysgol Agored

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
140	Rheoliadau	Pŵer i wneud amod i'r Brifysgol Agored gael ei thrin fel sefydliad yng Nghymru at ddiben darpariaethau penodol o dan y Bil hwn	Cadarnhaol

Disgrifiad o'r pwerau

Nid yw'r Brifysgol Agored yn dod o fewn y diffiniad o "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" oherwydd nad yw ei gweithgareddau yn cael eu cynnal "yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru". Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer trin y Brifysgol Agored fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, neu a wneir o dan y Ddeddf. O dan y rheoliadau, gall Gweinidogion Cymru addasu effaith unrhyw ddarpariaeth, a bennir yn y Rheoliadau hynny, i'r graddau y mae'n gymwys i'r Brifysgol Agored, boed hynny fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru neu fel darparwr cofrestredig, pe bai hynny'n digwydd.

Diben a bwriad y polisi

Y Brifysgol Agored yw'r darparwr addysg uwch mwyaf yn y DU, a'r unig ddarparwr addysg uwch mawr sy'n gweithredu ar draws pedair gweinyddiaeth y DU. Er bod gan y Brifysgol Agored bresenoldeb sylweddol yng Nghymru, nid yw'n ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru at ddibenion y Bil. Gallai newidiadau i'r cyllid a'r modd y rheoleiddir y Brifysgol Agored yng ngwledydd eraill y DU gael effaith ar y ffordd y mae'r Brifysgol Agored yn cael ei gyllido a'i reoleidido yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â'r Brifysgol Agored i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o gymhwyso gwahanol ddarpariaethau'r Bil i'r Brifysgol Agored. Gallai hyn fod er mwyn cymhwyso'r amodau cofrestru, y cynlluniau diogelu dysgwyr a darpariaethau eraill i'r Brifysgol Agored er mwyn sicrhau cyllid a gwarchodaeth i ddysgwyr yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau astudio gyda'r Brifysgol Agored.

Felly, mae'n fwy priodol defnyddio is-ddeddfwriaeth i gymhwyso darpariaethau yn y Bil hwn i'r Brifysgol Agored mewn perthynas â darpariaeth y Brifysgol yng Nghymru ac i ddiwygio'r modd y mae'r Bil yn gymwys i'r Brifysgol Agored mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid ledled y DU.

Cyfarwyddyd cyffredinol i'r Comisiwn

Adran	Ffurf	Darpariaeth	Gweithdrefn
Atodlen 1 paragraff 15(1)(a)	Cyfarwyddyd	Rhaid i'r Comisiwn baratoi datganiad o gyfrifon mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.	Dim gweithdrefn

Disgrifiad o'r pwerau

Mae paragraff 15(1)(a) o Atodlen 1 i'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn ynghylch paratoi datganiad o gyfrifon. Pob blwyddyn ariannol rhaid i'r Comisiwn baratoi cyfrifon yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Erbyn diwedd mis Awst yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'r cyfrifon wedi'u llofnodi ynghyd â llythyr cynrychiolaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rhaid i'r Comisiwn anfon dau gopi o'r cyfrifon wedi'u llofnodi at Lywodraeth Cymru.

Diben a bwriad y polisi

Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i CCAUC mewn perthynas â pharatoi eu cyfrifon a'r bwriad yw rhoi cyfarwyddyd cyfatebol i'r Comisiwn ar ôl ei sefydlu.

Nodir sylwedd y cyfarwyddyd ym mharagraff 15(2)(b) o Atodlen 1 ac mae'n cynnwys:

- yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad;
- y modd y mae'r wybodaeth i'w chyflwyno;
- y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w paratoi yn unol â hwy; ac
- unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd i ategu'r datganiad.

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 21

Senedd Cymru Welsh Parliament

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Jane Hutt AS

Cc: Comisiynydd Plant Cymru

Sally Holland

31 Ionawr 2022

Amcangyfrif Cyllideb Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2022-23

Annwyl Jane,

Mae Comisiynydd Plant Cymru ("y Comisiynydd") wedi ysgrifennu at y ddwy ohonom yn nodi ei phryderon ynghylch setliad cyllidebol ei swyddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, a'r setliad a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Roedd y Comisiynydd wedi atodi i'w llythyr yr amcangyfrif statudol ar gyfer y gyllideb a gyflwynwyd gan ei swyddfa i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021.

Mae'r llythyr yn nodi bod y Comisiynydd wedi gofyn am gyfanswm o £1,695,765 o ran y gyllideb adnoddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, cyfanswm o £1,652,444 ar gyfer 2023-24, a chyfanswm o £1,662,001 ar gyfer 2024-25. Fodd bynnag, gwrthododd Llywodraeth Cymru yr amcangyfrif hwnnw, gyda chyllideb adnoddau o £1,580,000 yn cael ei chynnig ar gyfer 2022-23, "a 'chyllideb wastad' yn cael ei chynnig ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn ogystal." Mae'r Comisiynydd yn nodi ei phryderon ynghylch cyllideb arfaethedig Llywodraeth Cymru, gan ychwanegu ei bod wedi "gofyn i'r Llywodraeth am ymateb terfynol ynghylch sut gwnaed y penderfyniad i barhau i ddarparu'r un setliad ag mewn blynyddoedd blaenorol yn ystod cyfnod pan fo costau tu allan i reolaeth y swyddog cyfrifyddu yn codi."

Nid yw'n briodol inni wneud sylwadau am yr union lefelau o gyllid y mae Comisiynydd Plant Cymru yn eu cael gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n briodol ychwaith inni gymryd camau ar ran unrhyw gomisiynydd, oni bai ein bod yn dymuno gwneud hynny.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Cysylltu@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

Fodd bynnag, rydym yn pryderu am oblygiadau posibl setliad cyllidebol y Comisiynydd mewn perthynas â phlant a hawliau plant. Yn benodol, mae'r Comisiynydd yn honni y bydd y setliad arfaethedig:

- yn cyfyngu ar allu'r Comisiynydd i bennu rhaglen waith annibynnol sy'n cwmpasu'r holl feysydd sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw, a chyflawni cylch gorchwyl cyfreithiol y swydd;
- yn amharu ar allu swyddfa'r Comisiynydd i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ran plant, gyda'r nod o hyrwyddo hawliau plant, yn enwedig os yw, yng ngeiriau'r Comisiynydd, yr "arbenigedd o fewn y Llywodraeth i gyflawni rôl arbenigol o'r fath yn gyfyngedig"; ac
- yn cael effaith negyddol ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei Rhaglen Lywodraethu i'r graddau y mae'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

1. egluro pam y gwrthododd Llywodraeth Cymru amcangyfrif y Comisiynydd ar gyfer y gyllideb;
2. rhannu gyda'r Pwyllgor yr Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd mewn perthynas â'ch penderfyniad; a
3. rhoi sicrwydd inni, mewn perthynas â phob un o'r tri phwynt bwled uchod, na fydd eich setliad arfaethedig ar gyfer y gyllideb yn cael effaith andwyol ar allu'r Comisiynydd Plant newydd i gyflawni ei rôl statudol a'i rolau eirioli a chynghori ehangach.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb atom erbyn dydd Llun 28 Chwefror fan bellaf.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gomisiynydd Plant Cymru.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS



Jenny Rathbone AS



Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a
Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 22

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Children, Young People and Education Committee

Elin Jones AS

Y Llywydd

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

03 Chwefror 2022

Adolygiad o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

Annwyl Elin,

Diolch am eich llythyr ar 7 Ionawr 2022 yn gofyn am ein barn ar yr adolygiad o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau. Trafodwyd y llythyr hwn yn ein cyfarfod ar 20 Ionawr.

Nodwn nad ydych yn disgwyl i bwyllgorau ymgynghori â rhanddeiliaid. Fel rhan o'n hymgyngoriad ar flaenoriaethau'r Pwyllgor dros doriad yr haf, mynegodd y Ffederasiwn Busnesau Bach eu barn ar yr amserlen, ac mae'r farn honno wedi'i hamgáu.

Amserlen – y sefyllfa bresennol

I ba raddau y mae dull presennol amserlen y pwyllgorau yn rhoi digon o amser i bwyllgorau wneud eu gwaith yn effeithiol?

Fel y Pwyllgor cyntaf a gafodd y dasg o gynnal gwaith craffu Cyfnod 1 yn y Chweched Senedd, credwn ein bod yn dod â phersbectif pwysig o ran pa mor effeithiol y gall yr amserlen bresennol fod wrth gynnwys gwaith, a hynny o fewn amserlenni sydd y tu allan i reolaeth y Pwyllgor.

Mae'n werth nodi bod cyflwyno Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) wedi digwydd ar yr un pryd â darnau creiddiol eraill o waith, ac nid oedd gennym lawer o ddisgresiwn o ran pryd y gellid ei wneud:

- Craffu blynyddol ar Estyn;
- Craffu blynyddol ar Gomisinydd Plant Cymru;
- Craffu blynyddol ar Cymwysterau Cymru;
- Craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Sgiliau ac Addysg;

- Gwrandawriad cyn penodi ar gyfer yr ymgeisydd a ffefrir i fod yn Gomisiynydd Plant nesaf Cymru; a
- Chraffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru;

Roedd hyn yn golygu ein bod wedi gorfod gofyn am nifer o gyfarfodydd ychwanegol (pump ers mis Hydref). Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i'n cais bob tro. Roedd dau o'r ceisiadau hyn am gyfarfodydd yn ystod un o'r wythnosau "gwarchoddedig".

Ym mis Rhagfyr, roedd faint o waith oedd gennym yn golygu ein bod wedi cael tri chyfarfod o fewn 10 diwrnod, â dau ohonynt yn rhai hir, gan ddechrau gyda rhag-gyfarfodydd cyn 9am a pheidio â gorffen tan yn hwyrach yn y prynhawn. Roedd gan bob un o'r cyfarfodydd hyn bapurau Pwyllgor helaeth i gyd-fynd â'r cyfarfod.

Mae'r amserlen bresennol felly wedi rhoi'r cyfle i ni wneud ein gwaith. Fodd bynnag, dim ond oherwydd bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i'n ceisiadau am gyfarfodydd ychwanegol ac oherwydd ein bod wedi defnyddio uchafswm y slotiau a neilltuwyd i ni y bu hyn.

[I ba raddau y mae dull presennol amserlen y pwyllgorau yn darparu digon o hyblygrwydd i fodloni cyfnodau brig yn llwythi gwaith y pwyllgorau a/neu ofynion busnes y dyfodol sydd angen capasiti ychwanegol gan bwyllgorau?](#)

Fel y nodwyd uchod, cafwyd hyblygrwydd, ond roedd hynny'n dibynnu ar y Pwyllgor Busnes yn cytuno i geisiadau unigol. Gall yr amser sydd ei angen ar y broses gymeradwyo achosi oedi wrth gwblhau'r flaenraglen waith. O'n profiad hyd yma, mae'r trefniant wedi gweithio gan ei fod wedi bod er mwyn darparu ar gyfer busnes lle mae gennym rybudd ymlaen llaw (er enghraifft craffu ar Fil). Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai achosi problemau posibl pe bai angen inni gyfarfod ar frys.

Yn ogystal, os yw'r cyfarfodydd y tu allan i slot a drefnwyd gan y Pwyllgor gall hynny achosi problemau o ran gallu aelodau i fod yn bresennol, a thrafferthion cyffredinol o ran rheoli dyddiadur. Mae hyn yn llai o broblem pan fyddwn yn gwybod ddigon ymlaen llaw, ond os bydd materion yn codi'n annisgwyl, gallai hynny achosi heriau. Mae'n bwysig inni gael sicrwydd ynghylch dyddiadau cyfarfodydd pwyllgor, er mwyn sicrhau y gallwn gynllunio a rheoli ein llwythi gwaith a'n dyddiaduron yn unol â hynny. (Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r cwestiwn nesaf.)

[I ba raddau y mae dull presennol amserlen y pwyllgorau yn darparu cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau \(mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt\) a'u cyfrifoldebau ehangach?](#)

Mae rhai ohonom yn eistedd ar sawl pwyllgor, ac eraill yn eistedd ar y Pwyllgor hwn yn unig. Felly mae gennym ystod o brofiadau. Fel y mae'r cwestiwn yn ei nodi, mae'n bwysig ystyried, yn ogystal â'r amser a dreulir mewn cyfarfod Pwyllgor, fod hefyd angen treulio amser yn paratoi (a all fod yn helaeth yn dibynnu ar yr eitemau sy'n cael eu hystyried) ac amser yn dilyn i fyny ar faterion ar ôl cyfarfodydd.

Wrth drafod, buom yn myfyrio ar heriau cyfarfodydd rhithwir hir, a'r effaith y gall hynny ei chael. Rydym wedi cyfarfod yn rhithwir yn bennaf, er bod dau o'n cyfarfodydd wedi bod mewn fformat hybrid. Ar hyn o bryd, rydym wedi bod yn defnyddio uchafswm ein slot yn amlach na pheidio, gyda'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn dechrau gyda rhag-gyfarfodydd cyn 9, ac fel arfer yn rhedeg tan o leiaf



2:30pm, ac weithiau ar ôl 3pm. Fe wnaethom i gyd nodi'r heriau sy'n dod gyda chyfarfodydd rhithwir hir, fodd bynnag, roeddem yn cydnabod bod faint o eitemau busnes craidd sydd angen eu trafod yn golygu nad oedd unrhyw opsiwn arall weithiau.

Buom yn trafod bod yr heriau ynghlwm wrth gyfarfodydd Pwyllgor hir yn wahanol i'r heriau ynghlwm wrth gyfarfodydd Cyfarfod Llawn hir, lle caiff Aelodau beidio â bod yn bresennol a pheidio cyfrannu at bob eitem. Fodd bynnag, mae maint y pwyllgorau yn golygu bod angen i bob Aelod fod yn bresennol a chymryd rhan yn rhagweithiol ym mhob eitem busnes. Gall hyn fod yn heriol, ac oherwydd y cyfrifoldebau ehangach sydd ar Aelodau, mae wedi golygu y bu adegau tua diwedd cyfarfodydd pan mai cworwm yn unig sydd yno.

Amserlen - dewisiadau amgen i'r sefyllfa bresennol

Pa newidiadau y gellid eu gwneud i amserlen y pwyllgorau i wella effeithiolrwydd pwyllgorau, a chadw hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer busnes ychwanegol y pwyllgorau, a chydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

Ar ôl pwyso a mesur, ar ôl trafod, byddai'n well gennym gadw cyfarfodydd pwyllgor bob pythefnos, ond gyda'r opsiwn i gyfarfod yn ystod yr wythnosau "i ffwrdd" yn yr un slot wedi'i amserlennu, heb fod angen ceisio cytundeb y Pwyllgor Busnes. Credwn y byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni o ran sut rydym yn trefnu busnes, er enghraifft gallu addasu ein busnes mewn cyfarfod, ar fyr rybudd, a fyddai'n ein galluogi i ymateb i eitemau busnes brys, neu i sicrhau gwell cydbwysedd ar draws ein cyfarfodydd pwyllgor ac osgoi'r heriau a all ddeillio o gyfarfodydd a all bara hyd at chwe awr neu fwy.

Pa newidiadau bynnag a wneir i'r amserlen, byddem am sicrhau nad yw'n arwain at unrhyw leihad yn yr amser sydd ar gael i'n Pwyllgor ymgymryd â'n gwaith.

Os ydym am wneud newidiadau i'r amserlen, pryd y dylid gweithredu'r newidiadau hyn?

Rydym yn nodi'r heriau o ran penderfynu ar yr adeg orau i weithredu unrhyw newidiadau, a sut y gall hynny ystyried blaenraglenni gwaith y pwyllgorau. Mae mater penodol sydd angen ei ystyried gennym ni, gan fod angen gwneud trefniadau ar gyfer trafodion Cyfnod 2 y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Mae angen cytuno ar y dyddiadau cyn y ddadl Cyfnod 1 ddechrau mis Mawrth. Byddwn yn ysgrifennu ar wahân at y Pwyllgor Busnes ar y mater hwn, ond nodwn fod y dyddiadau a ffefrir ar hyn o bryd o safbwynt y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r model gweithio yr ydym yn ei ffafrio

Cylchoedd gwaith

Ydych chi'n credu bod angen addasu cylch gwaith eich pwyllgor? Er enghraifft, cydbwysu gwaith ar draws pwyllgorau, a/neu wella llinellau atebolrwydd.

Rydym yn fodlon ar y cylch gwaith. Un o'n blaenoriaethau strategol yw gweithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd, a hyd yn hyn, rydym wedi manteisio ar gyfleoedd i wneud hyn, hyd yn oed os nad yw wedi golygu cynnal cyfarfodydd ar y cyd.

Rydym yn nodi bod Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi eistedd ar y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn y Senedd ddiwethaf. Rydym ar ddeall y teimlwyd bod hyn yn ffordd arbennig o effeithiol o reoli'r meysydd o ddiddordeb a rennir ar draws y

ddau bwyllgor. Gan ein bod yn rhannu'r un slot Pwyllgor gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae hyn yn golygu nad oes unrhyw Aelodau'n eistedd ar y ddau bwyllgor. Er ein bod yn deall bod rhoi'r ddau bwyllgor yn yr un slot wedi'i wneud gyda'r bwriad o helpu i hwyluso mwy o gydweithio ar draws pwyllgorau, yn yr achos hwn, nodwn ei fod mewn gwirionedd wedi gwneud hyn yn anos. Mae hefyd wedi achosi problemau logistaidd ar rai adegau pan fo'r ddau bwyllgor wedi bod yn galw ar yr un Gweinidogion ar yr un pryd (megis ar gyfer craffu ar y gyllideb).

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer yr adolygiad, ac edrychwn ymlaen at y canfyddiadau.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Amg: Llythyr oddi wrth y Ffederasiwn Busnesau Bach, 25 Awst 2021

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

25 August 2021

Children, Education and Young People Committee
Senedd
Pierhead St,
Cardiff
CF99 1SN

Dear Ms. Bryant

RE: Priorities for the Committee

FSB Wales is the authoritative voice of businesses in Wales, with around 10,000 members. It campaigns for a better social, political, and economic environment in which to work and do business. With a strong grassroots structure, a Wales Policy Unit and dedicated Welsh staff to deal with Welsh institutions, media and politicians, FSB Wales makes its members' voices heard at the heart of the decision-making process.

FSB welcomes the opportunity to respond to the Committee's call for views on its priorities. Committees serve a vital role in providing scrutiny of the government, in providing a key role in influencing policy development, and as a constructive engagement point for evidence and understanding between the legislature and civil society, including our role in representing small businesses.

With continuing issues arising from Covid-19, the possibility of further disruptions, and the legacy of the damage the pandemic has wrought alongside the impetus to build an economic recovery, the role of committees will be of even more importance this term.

As such, insofar as possible, it is important that the Senedd's capacity and abilities are used to the full in this process, and that the structure allows committees – and their Chairs - to be agile and able to respond quickly to events this Winter, as well as in providing scrutiny and policy development for the challenges ahead. It is in the spirit of supporting this democratic process and committees as the engine room of Welsh democracy that we respond to this consultation.

The Committee covers areas of priority for FSB Wales and we look forward to working with you over the coming term.

Ways of Working

We note that the new Committees structure includes the following:

- The Sixth Senedd has for the moment opted for smaller membership in committees (4-6).
- This should allow members to build more specialism, but at the cost of more diverse voices in each committee (as was the case with larger committees).
- It is important to push for the advantages of building focused specialism is nurtured and maximised, but the diversity and small pool is mitigated (e.g., through cross-committee working).



Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

Potentially, this structure could allow for more agility which as there may well remain issues arising requiring quick reaction, policy response and scrutiny over the next period, could be extremely useful. This would require significant autonomy for committees to pursue their own path and ways of working.

However, the decision has also been taken to cut the number of committee meetings to be fortnightly rather than weekly.

- Smaller committees should allow MSs being able to populate across them better, but fewer meetings do not seem to add value in this respect.
- There are also dangers to scrutiny and policy development – the role of scrutiny (legislative and non-legislative) as we open up after Covid is important, with myriad issues across all policy areas important. Committees have an important role in this respect and halving the time for scrutiny in a stroke makes little sense. This is a particular issue for small business issues, as we are concerned that vital areas of economic recovery may not be properly addressed or scrutinised.
- There is a danger that the pressure will force committees to focus on necessary legislative scrutiny alone, while relegating wider scrutiny and policy inquiries to the margins (including on business issues and day to day issues around Covid, for example).
- Some committees have wide and disparate subject areas, and there is a danger that whole policy areas will be relegated to the side-lines.
- As well as being the engine room of democratic scrutiny of Government, committees are a vital interface for contact and policy evidence from civil society – there is a danger that the pool of evidence is further narrowed, and a focus is on the narrower ‘usual suspects’ providing evidence posing a danger of group-think and less diverse views being taken in oral evidence.
- As noted above, committees will need to be agile in continuing to respond to Covid and the various issues raised by the pandemic will continue to impact for the Senedd term. These limits on their work may mitigate against that and undermine responsive policy development and scrutiny. As such, it makes sense to allow autonomy for Committees to pursue their own ways of working, including additional meeting and inquiries. As such, the two-week meetings should be seen as a baseline rather than a ceiling for activity and scrutiny.

Cross-committee working will be vital to mitigate against small committees meaning a greater focus but a danger of silo working and loss of diverse offices bringing in a range of policy field lenses and understanding how they intersect. We therefore encourage cross committee inquiries as a minimum (and suggestions later in paper on subjects that span committees).

It is also possible to look at ways as a regular way of working and ensuring policy span through MSs from different committees could sit as non-voting ‘guests’ or bringing committee expertise and lens to particular meetings (e.g., climate change members sitting in on discussions on housing capital spending policy).

This way of working will also be important in terms of scrutiny of the substance and operation of Welsh Government – through the Climate Change Ministry as a central organising department looking to ensure cross departmental and holistic working, it is important that Senedd is able to mirror this and provide adequate scrutiny across policy areas accordingly.



Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

Business concerns sit across many departments, and within intersecting policy subjects so cross-committee working is important for FSB and our members.

Recommendations

- *That committees are allowed freedom (as decided unanimously by all their members) to look at the fortnightly meetings as a baseline and so can organise more meetings as suits them or for specific inquiries.*
- *We would urge a view to cross committee working on intersecting subject areas and inquiries – and that these can be on top of the fortnightly meetings.*
- *To mitigate against small committees being a small pool we would urge that committees can co-opt other MSs (including possibly spokespeople retain a right to attend and question) as non-voting members for individual sessions, and to be encouraged and incentivised to do so. These could also be as members of other committees to encourage cross sectoral views.*
- *It is vital, with continuing uncertainty on Covid over the Winter months (as well as ongoing issues and its legacy) that Committees are able to react with agility to raise issues, conduct inquiries and scrutinise reactively and quickly as needed. Committees and their Chairs should be able to do this with as much autonomy as possible over their schedules and ways of working (with necessary checks of unanimity in committee as appropriate).*

FSB's key policy areas of work for the Committee

A key area of work here is scrutiny and policy development around the *Guarantee of Offer for Education, Employment or Training to under 25s* in the Programme for Government. Currently we are not aware of greater detail. It is important for our members to understand if this is to be a meaningful offer how it relates to training and apprenticeships and how any scheme would be easily accessed and used by SMEs across the whole of Wales, in order to ensure that opportunities are available to young people and to businesses with proper support.

The role of entrepreneurship in education, how it aligns with the wider curriculum and its aims of making 'informed and critical citizens' is an ongoing interest, as well as how we understand the changing needs of the next generation of young entrepreneurs and business support mechanisms required to help provide opportunities for them. The role of work-related experiences and the practical experiential side of education, as well as the fostering of key skills is also a key concern for SMEs, and in future entrepreneurship.

FSB have upcoming work on Generation Z entrepreneurship, which we will share with the committee when available.

Subject areas for Joint working with other committees

Ff/T 029 2074 7406
E wales.policy@fsb.org.uk
W fsb.wales

C/A 1 Cleeve House,
Lambourne Crescent,
Caerdydd, CF11 1EP

Tudalen y pecyn 135

Swyddfa Gofrestredig | Registered Office:
National Federation of Self Employed and Small Businesses Limited,
Sir Frank Whittle Way, Blackpool Business Park, Blackpool, FY4 2FE



Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

Our suggestions above advocate a dynamic and agile role in co-working and cross committee working, utilising all the backbench capacity and capabilities as much as possible, and reducing possible silos in policy scrutiny and development. The following list gives some indications of possible areas of work, although this is not exhaustive list, and priorities will be necessarily shaped by wider issues of Welsh Government priorities and external factors such as Covid-19 and Brexit. Working iteratively with other committees will also shape framing of subject areas, and we believe this would generally be positive for inquiries and scrutiny.

Subject area	Possible partner committee(s)
<i>Implications and opportunities of Guarantee of Offer for Education, Employment or Training to under 25s</i>	Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Entrepreneurship and Young People – including Business Support, Entrepreneurship in Education and next generation of entrepreneurs	Economy, Trade and Rural Affairs Committee

FSB Wales would welcome the opportunity to discuss this issue with your officials, should you deem it useful.

Yours sincerely,

Ben Cottam
Head of Wales
FSB

CYPE(6)-04-22 - Papur i'w nodi 23

**Y Pwyllgor Llywodraeth
Leol a Thai**

**Local Government
and Housing Committee**

Jayne Bryant AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3 Chwefror 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr ar 6 Ionawr ynghylch digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Rydym wedi cytuno y bydd tai addas yn faes gwaith trosfwaol y byddwn yn ei flaenoriaethu. O fewn y maes hwn, rydym wedi nodi y bydd craffu ar bolisiau a chymau sy'n cael eu cymryd i roi terfyn ar ddigartrefedd yn un o'n prif flaenoriaethau dros dymor y Senedd hon, ac y byddwn yn ceisio adeiladu ar waith y Pwyllgor a'n rhagflaenodd.

Yn ddiweddar rydym wedi ysgrifennu at amrywiaeth o randdeiliaid yn eu gwahodd i rannu eu barn ar y sefyllfa bresennol ac i awgrymu materion penodol y gallem ganolbwyntio arnynt wrth ymgymryd â'n gwaith arfaethedig ar ddigartrefedd a chysgu ar y stryd. Byddwn yn ystyried yr ymatebion gan randdeiliaid a sut y gallwn fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn yn nhymor yr haf.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russel George, AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Seneddlechyd@senedd.cymru

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPlant@senedd.cymru

7 Chwefror 2022

Annwyl Russell a Jayne

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau ("y Bil")

Yr wyf yn ddiolchgar i chi a'ch aelodau am nodi'r materion y mae angen rhagor o wybodaeth amdanynt fel y disgrifir yn Atodiad 1 i'ch llythyr dyddiedig 18 Ionawr. Yr wyf yn ysgrifennu i ddarparu ymateb i'r pwyntiau a godwyd i helpu â'ch ystyriaethau mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ateb ac am fethu eich dyddiad cau ar 28 Ionawr.

Trafodaethau â Llywodraeth y DU

- Yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau â Llywodraeth y DU, gan gynnwys manylion unrhyw sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio neu ddiwygiadau y mae'n eu cynnig, neu gytundebau a wnaed gyda Llywodraeth y DU. Byddem hefyd yn ddiolchgar o dderbyn copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol â Llywodraeth y DU ar y materion hyn.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon dro ar ôl tro am effaith y Bil hwn ar Gymru ac wedi gofyn am fanylion y cymalau sy'n ymwneud ag asesu oedran o fis Mai 2021 ymlaen, heb lwyddiant. Mae'r prif bwyntiau a wnaed wedi'u nodi yn ein hymateb ffurfiol i'r *Cynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo (a anfonwyd ym mis Mehefin 2021, ac y cafwyd ymateb iddo ym mis Medi 2021)*, yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr a rannwyd â swyddogion y Swyddfa Gartref, ac yn llythyr ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a anfonwyd ar 9 Rhagfyr. Mae copïau o'r dogfennau a'r ymatebion hyn ynghlwm wrth yr ymateb hwn fel dogfennau 1-3a yn y drefn honno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw sicrwydd boddhaol ac nid oes unrhyw welliannau wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cadw ei safbwynt bod y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau yn ei gyfanrwydd yn ymwneud â meysydd polisi a gadwyd yn ôl, er bod y Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch a ddylid arfer swyddogaethau o dan "ddeddfwriaeth berthnasol i blant" a sut i'w harfer.

Byddai'r darpariaethau hyn yn gymwys i benderfyniadau awdurdodau lleol Cymru ynghylch a ddylid arfer eu swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a sut i'w harfer.

Pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil

2 Cyfansoddiad a swyddogaethau'r Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol, a natur yr effaith negyddol bosibl ar Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches yng Nghymru.

Prin yw'r wybodaeth a ddarperir am gyfansoddiad y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol (NAAB). Mae'n ymddangos felly nad yw gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru, megis gofal cymdeithasol a gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, wedi eu hystyried. Nid oes unrhyw gynigion penodol ynghylch cynrychioli Cymru (na'r Alban na Gogledd Iwerddon) yn y Bil.

Yng Nghymru, rydym yn trin pob plentyn ar ei ben eu hun sy'n ceisio lloches fel plentyn sy'n derbyn gofal dan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014). O'r herwydd, mae ganddynt hawl i'r un gofal a chymorth â phob plentyn mewn gofal yng Nghymru. Mae Deddf 2014 hefyd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau asesu ac rydym yn trin asesiadau oedran fel rhan o swyddogaethau asesu 'yr hyn sy'n bwysig' y darperir ar eu cyfer yn Rhan 4 o Ddeddf 2014.

Mae'r holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol wedi'u datganoli'n llwyr i'r Senedd ac, o'r herwydd, y Senedd a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud pob penderfyniad deddfwriaethol a pholisi sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Byddai'r NAAB yn lleihau rôl arweiniol, awdurdodol gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn y swyddogaeth hon.

Mae gwahaniaethau amlwg yn safbwyntiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch sut y dylid cynnal asesiadau oedran a chan bwy. Er enghraifft, yng Nghymru, mae gennym safbwynt polisi ar asesu oedran¹ nad yw'n argymhell nac yn cefnogi'r defnydd o archwiliadau meddygol fel ffordd o bennu oedran ac sy'n ystyried dulliau o'r fath yn foesol anghywir. Bydd y defnydd o 'dulliau gwyddonol' o bosibl yn peri anghytundeb sylfaenol a pharhaol rhwng safbwyntiau awdurdodau lleol Cymru a'r NAAB.

3 Y goblygiadau a ragwelir o ganoli'r broses asesu oedran ar y gwaith o asesu anghenion a darparu gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a pha swyddogaethau pellach, os o gwbl, y gellid eu gosod ar awdurdodau Cymru.

Gallai canoli'r broses asesu oedran fod yn rhwystr i sicrhau'r arferion gorau, gan mai gweithwyr cymdeithasol awdurdod lleol sy'n lleol i'r person ifanc sy'n destun anghydfod

¹ [42834 Age Assessment Toolkit for UASC \(Llywodraeth Cymru\)](#) Tudalen y pecyn 139

sydd yn y sefyllfa orau i weithredu dull cyfannol ac amlasiantaeth. Mae hyn yn mynd yn fwy dyrys yn sgil dull asesu oedran sy'n defnyddio "dulliau gwyddonol" ac sy'n pennu bod hygredd person yn cael ei ddifrodi os nad ydynt yn cydsynio i'r "dulliau gwyddonol" hyn. Yn ein barn ni, byddai dull gweithredu o'r fath yn gwrthdaro â rhwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol presennol (fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP")) a deddfwriaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fel y cyfeiriwyd uchod, rydym yn trin pob plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches fel plentyn sy'n derbyn gofal o dan Ddeddf 2014. O dan Ddeddf 2014, maent yn derbyn yr un gofal a chymorth â phob plentyn sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r Bil hwn yn cyflwyno proses statudol ychwanegol ar gyfer asesiadau oedran i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru sy'n mynd yn groes i gyfraith Cymru, a fydd yn achosi dryswch ac o bosibl yn dirymu'r gyfraith fel y mae yng Nghymru.

O ran swyddogaethau pellach a osodir ar Awdurdodau Cymru, nid yw'n glir a fydd disgwyl i gyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru gynnal yr asesiad "dulliau gwyddonol" nteu a fydd hyn yn cael ei roi ar gontract allanol i ddarparwyr iechyd preifat. Os disgwylir i'r GIG yng Nghymru ddarparu'r asesiadau hyn, byddai hyn yn creu llwyth gwaith ychwanegol i fyrddau iechyd sydd eisoes dan bwysau sylweddol ac y mae'r pandemig yn parhau i effeithio'n ddifrifol arnynt. Noder, mae'n bosibl y bydd gwrthdaro rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol, NAAB ac awdurdodau lleol eraill lle nad yw gweithwyr iechyd proffesiynol o blaid defnyddio 'dulliau gwyddonol'.

Dangosodd tystiolaeth a gyflwynwyd gennym yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y 'Cynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo' gan Lywodraeth y DU y gwahaniaeth sylweddol yng nghanlyniadau asesiadau oedran diweddar lle'r oedd y Swyddfa Gartref wedi canoli'r prosesau hyn.

Mae datganiad ystadegol Llywodraeth y DU ar 27 Mai 2021, mewn perthynas â phenderfynyddion asesiadau oedran, yn dangos canlyniadau posibl canoli'r swyddogaeth asesu oedran o dan reolaeth uniongyrchol y Swyddfa Gartref gan gynnwys cynnal asesiadau oedran. Mae asesiadau byr o'r fath wedi'u herio a chanfuwyd eu bod yn anghyfreithlon² ond maent yn parhau i ddangos bwriadau'r Swyddfa Gartref yn y maes hwn.

Dyddiad yr anghydfod ynghylch oedran	Blwyddyn yn dod i ben Mawrth 2020	Blwyddyn yn dod i ben Mawrth 2021	Newid yn y flwyddyn ddiwethaf	% y newid yn y flwyddyn ddiwethaf
Anghydfodau ynghylch oedran a godwyd ²	632	791	+159	+25%
Anghydfodau ynghylch oedran a ddatryswyd ^{3,4} (Cyfanswm)	679	693	+14	+2%
Dan 18 oed (Grŵp oed Anghydfodau ynghylch oedran a ddatryswyd)	420	258	-162	-39%
18+ (Grŵp oed Anghydfodau ynghylch oedran a ddatryswyd)	259	435	+176	+68%

² [Home Office age assessment policy to support seeking asylum in law | High Court rules | The Independent](#)

Yr effaith a ddisgwyliwn yn sgil asesiadau wedi'u canoli yw y gall plant gael eu lleoli mewn llety sydd i fod i oedolion yn unig, gan achosi pryderon o ran diogelwch, perygl y bydd achosion o gamfanteisio ar blant, ac achosion posibl o ddigartrefedd pan fo plant yn dianc rhag sefyllfaoedd peryglus.

Os bydd y plant hynny'n cyrraedd awdurdodau lleol Cymru yn ddiweddarach, rydym yn rhagweld gwrthdaro rhwng safbwyntiau swyddogion gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn ystyried bod y person yn blentyn ag anghenion gofal a chymorth a swyddogion y Swyddfa Gartref a fydd yn ystyried bod y person yn oedolyn. Byddai'r gwrthdaro hwn yn arwain at ganlyniadau ariannol i'r awdurdod lleol a fyddai dan rwymedigaeth i ddarparu gofal a chymorth pe byddai asesiadau Deddf 2014 yn canfod bod hyn yn ofynnol, ond heb y cyllid y byddai'r Swyddfa Gartref fel arfer yn ei ddarparu i awdurdodau lleol sy'n gofalu am blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Darperir llety i geiswyr lloches sy'n oedolion ar sail 'dim dewis' gan y Swyddfa Gartref. Os ydynt yn 'dianc' o'r llety hwnnw (terminoleg y Swyddfa Gartref), gall hyn ddirymu eu hachos lloches. Felly, bydd plant sy'n cael eu lleoli mewn llety i oedolion oherwydd yr asesiadau canolog hyn mewn perygl mawr o gael eu hecsbloetio gan geiswyr lloches eraill sy'n oedolion y gallai fod angen iddynt rannu Tŷ Amffeddiannaeth â hwy (y math mwyaf cyffredin o dai lloches).

4 Pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio dulliau gwyddonol mewn asesiadau pennu oedran a rheoliadau ynghylch yr asesiadau, gan gynnwys:

- a. y broses apelio;
- b. unrhyw oblygiadau i weithrediad Llywodraeth Cymru o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- c. unrhyw oblygiadau i iechyd meddwl unigolion sy'n destun technegau gwyddonol o asesu oedran;
- d. unrhyw oblygiadau i gydlyniant cymunedol a fyddai'n codi'n uniongyrchol o ganlyniad i roi unigolion drwy dechnegau asesu oedran gwyddonol.

Rydym yn gwrthwynebu defnyddio archwiliadau meddygol i bennu oedran. Mae'r wyddoniaeth sy'n sail i bennu oedran yn amhendant ac yn aneglur. Rydym yn credu bod rhoi pobl ifanc drwy archwiliadau meddygol a fydd yn aml yn defnyddio technegau mewnwthiol yn foisol anghywir. Er enghraifft, cyfeiriaf at yr ymateb uchod gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain i'r ymgynghoriad³. Mae Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant⁴ a'r Coleg Nyrsio Brenhinol hefyd wedi mynegi pryderon yn ddiweddar am y cynigion hyn.⁵

Ar hyn o bryd, nid yw penderfyniadau ynghylch asesiadau oedran a wneir at ddibenion mewnfudo yn rhwymo awdurdodau lleol. Fodd bynnag, o dan gymal 53(5) o'r Bil mae penderfyniad gan Dribiwnlys Haen Gyntaf apêl yn rhwymo awdurdod lleol hyd yn oed pan fo'r apêl yn ymwneud â phenderfyniad gan y NAAB at ddibenion mewnfudo. Gallai hyn arwain at wrthdroi asesiadau cyfannol a manwl a gynhaliwyd yn unol â Phecyn Cymorth Asesu Oedran Llywodraeth Cymru, ar sail penderfyniadau a wnaed ar sail tystiolaeth a gasglwyd gan ddefnyddio prosesau sy'n mynd yn groes i ddull y Pecyn Cymorth, megis "dulliau gwyddonol" sy'n cael eu hamau'n fawr ac sydd â lwfans gwallau mawr. Byddai awdurdod lleol yng Nghymru sydd mewn sefyllfa o'r fath yn ddarostyngedig i ddwy ddyletswydd statudol sy'n gwrthdaro.

³ British Dental Association written response to the [Nationality and Borders Bill \(21st September 2021\) \(parliament.uk\)](#)

⁴ [Refugee and unaccompanied asylum seeking children and young people - guidance for paediatricians | RCPC](#)

⁵ [RCN expresses concern over Nationality and Borders Bill | News | Royal College of Nursing](#)

Bydd y Bil yn rhoi'r broses asesu oedran ar sail statudol ar wahân y tu allan i Ddeddf 2014. Sail statudol arall y mae'n ymddangos ei bod yn gwrthdaro â nodau Deddf 2014 a dyletswydd awdurdodau lleol o dan adran 7(2) o'r Ddeddf honno i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn a allai fod ag anghenion am ofal a chymorth.

Mae'n nodedig yn hyn o beth fod y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn wedi rhoi arweiniad ar asesu oedran mewn Sylw Cyffredinol yn 2017 a oedd yn cynnwys cadarnhad y dylai Gwladwriaethau ymatal rhag defnyddio dulliau meddygol yn seiliedig ar, ymhlith pethau eraill, dadansoddi asesiadau esgyrn a rhai deintyddol, a all fod yn anghywir a chyda lwfans gwallau mawr, ac a all hefyd fod yn drawmatig ac arwain at brosesau cyfreithiol diangen⁶.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio dull seiliedig ar drawma o gynnal asesiadau oedran. Y nod yw lleihau'r risg o achosi rhagor o drawma, gan geisio canlyniadau cadarnhaol a chefnogi lles meddyliol. Gwyddom o waith ymchwil yng Nghymru fod y profiadau niweidiol y mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches wedi'i hwynebu yn cynnwys cael eu gwahanu oddi wrth rieni neu golli rhieni, cael eu cam-drin neu ddioddef o achosion o gamfanteisio, yn enwedig ar y daith, gweld neu brofi trais, a diffyg cymorth cymdeithasol ac emosiynol i ymdopi â'r trallod, sef cymorth y byddent wedi'i gael gan rieni.

O'r herwydd, credwn mai gweithwyr cymdeithasol lleol sydd wedi sefydlu cysylltiad â phlentyn a/neu berson ifanc sydd yn y sefyllfa orau i asesu oedran. Mae'r asesiadau hyn yn seiliedig ar asesiadau sy'n cydymffurfio â dyfarniad Merton (*R(B) v London Borough of Merton, 2003*) lle mae gweithwyr cymdeithasol yn debygol o fod wedi treulio cryn amser yn deall gallu'r person ifanc sy'n cael ei asesu. Er nad yw fformat yr asesiadau y byddai'r NAAB yn ei ddefnyddio wedi'i egluro eto, roedd y penderfyniad diweddar a oedd yn nodi bod gwneud asesiadau oedran yn ganolog i'r Swyddfa Gartref yn anghyfreithlon yn ei gwneud yn glir bod asesiadau'n aml yn cael eu cwblhau mewn awr gyda'r person ifanc.

